



Dyfodol Deiniolen

Enw grŵp ymgyrchu a sefydlwyd ychydig flynyddoedd yn ôl yw 'Dyfodol Deiniolen', ond y mae'n enw sydd yr un mor berthnasol i bawb sy'n byw yn y pentref. Galwyd cyfarfod cyhoeddus yn neuadd yr ysgol leol ddiwedd Ebrill, ac er gwaethaf y tywydd gwlyb daeth rhwng 60 a 70 o'r trigolion i 'ddweud eu dweud' am yr hyn sydd ei angen i wella'r pentref. Tybed a fyddai cymaint wedi troi allan i'r fath gyfarfod mewn unrhyw bentref arall yn y fro? Tysteb i'r gymdeithas glos sy'n bodoli yno: etifeddiaeth y gymdogaeth chwarelyddol gynt.

Ymhlith yr awgrymiadau roedd gwella cyflwr y ffyrdd a thacluso'r mynedfeydd i'r pentref; y galw am wella'r gwasanaeth bysiau; problemau baw cŵn, a'r angen am barc sglefrio i'r ieuencid. Ond roedd rhai eitemau'n cael blaenoriaeth : yr angen am ganolfan gymdeithasol; yr angen am sefydlu pwyllgor lleol i dderbyn cyfrifoldeb am y cae pel-droed; y posibilrwydd o gael gwell plismona a'r bwriad i sefydlu grŵp Gwarchodaeth Cymunedol; a pharhâd y

Clwb Ieuencid, o bosib yn ddibynnol ar wirfoddolwyr.

Cafwyd hefyd newyddion calonogol. Mae prosiectau 'Grymuso Cymunedau' i'w cychwyn o fewn y misoedd nesaf gyda'r bwriad o gael cymorth proffesiynol a grantiau ariannol bychan i hyrwyddo rhai syniadau. Adroddwyd hefyd fod y cais am wneud ardal y chwareli llechi yn safle Treftadaeth Byd i'w gyflwyno ym mis Medi (mae Deiniolen o fewn yr ardal), a disgwylir penderfyniad yn Awst 2020. Byddai llwyddiant y cais yn hwb economaidd sylweddol i'r holl gymunedau o'i mewn.

Byddai 'Dyfodol Deiniolen' yn falch o dderbyn cymorth gan unrhyw un o'r pentref sy'n fodlon gweithredu er budd y gymdeithas. Cysylltwch â'r Cynghorydd Elfed Williams am fwy o wybodaeth.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

**RHIF 465
Mai 2018**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifon Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Mehefin	Sul 20 Mai	Gwener 1 Mehefin	Brynrefail
Gorff/Awst	Sul 24 Mehefin	Gwener 6 Gorffennaf	Bethel

LLYTHYRAU

Ysgoloriaeth Alafon

Annwyl Olygydd

Diddorol oedd darllen yn 'Ar ben arall y lein' am Will Price, Rhiwen, yn ennill y drydedd wobwr yn Ysgoloriaeth Alafon yn 1935. Fe gefais innau y drydedd wobwr yn 1945. 'Roedd tair ohonom yn ffrindiau yn yr ysgol ac yn eistedd yn yr un sedd yng Nghapel Ebenezer lle y cynhaliwyd y Cyfarfod Gwobrwyo y flwyddyn honno. 'Roedd Margaret Williams o Ceunant, Llanrug, wedi cael gwybod yn yr ysgol yn y prynhawn mai hi oedd y cyntaf a'i bod i gyflwyno tusw o flodau i'r wraig oedd yn rhannu'r gwobrwyon, sef Mrs. Bryniog Jones, gwraig rheolwr y chwarel ar y pryd. Ond dychmygwch y syrpreis a gafon ni pan alwyd ar y ddiweddar Helen Peris Jones yn ail, a finnau yn drydydd. Fel Will Price cefais innau bunt a chweugain ac fe fynnodd mam i mi agor fy llyfr post cyntaf efo'r arian.

Balchder arall i Helen a minnau oedd bod hyn yn digwydd yn Nghapel Ebenezer lle 'roedd y ddwy ohonom yn aelodau yn yr Ysgol Sul, y Band of Hope a'r Gymdeithas Lenyddol.

Gyda llaw, 'rwy'n cofio Mrs Price, Rhiwen, a Will. Fe'm ganwyd led rhyw ddau gae o'r Rhiwen yn Gwyndy.

Nan Owen

Annwyl Olygydd,

Diddorol oedd darllen am Ysgoloriaeth Alafon yng ngholofn Ar Ben Arall i'r Lein yn rhifyn Ebrill. Fe gefais i Wobr Alafon yn 1952/3 am y perfformiad gorau yn yr 11+ y flwyddyn honno. Chefais i ddim arian ond hwyrach i mi gael tystysgrif ac os cofiaf yn iawn lyfr. Erbyn hynny mae'n amlwg fod Ysgoloriaeth wedi troi'n Wobr a hwyrach mai'r rheswm am hynny oedd bod addysg uwchradd yn rhad ac am ddim yn dilyn Deddf Addysg 1944. Wn i ddim a gafodd y wobwr ei rhoi i unrhyw un ar ôl 1952/3. Wedi i'r ysgol symud o Frynrefail i Lanrug a dod yn ysgol ddwyochrog roedd plant Sir Gaernarfon yn eistedd yr arholiad 11+ am nifer o flynyddoedd - hyd at 1961 rwy'n meddwl

Mae gen i ryw frith gof o sôn am gysylltiad Alafon â modryb fy nhad, sef Miss Annie Owen, Bron Saint, Pontrug. Mae gen i albwm/llyfr llofnodion o'i heiddo ac ar y ddalen gyntaf mae cyfarchiad barddol gan Alafon a ysgrifennwyd yn 1908. Erbyn hynny roedd Alafon yn 61 mlwydd oed ac Anti Annie ddim ond yn 33 mlwydd oed. Tybed beth oedd eu perthynas? Dyma'r gerdd:

Pwy?

Mi welais y brydferth fun dirion

Yn swyno llon gwmni ar daith;

A gwelais hi'n llunio cysuron

Yng nghanol y cartref a'i waith.

Ei gwylder oedd dlws yn y cwmni,

A'i pharch i'w rhieni oedd fawr:

Ei henw soniarus oedd Annie -

Ni ddywedaf ond hynny yn awr.

Mi welais y fun yn cyfarfod

Â chyfaill anghofiodd ei chais:

'Roedd ef iddo'i hunan yn dannod

Ei fai, gyda phoen yn ei lais;

Tywynnodd maddeuant i'w lonni

O'r wyneb o dlws goch a gwyn:

Ac enw y riain yw Annie -

Ni ddywedaf ond hynny fan hyn.

Fe'i gwelais yng nghwmni cyfeilles -

Un dyner fel hithau a thlos:

Trugaredd i glaf oedd ei neges -

I glaf aeth yn gynnar i nos.

Edrychai fel angel tosturi

A'i hawydd ????? ei llun:

Ei henw persawrus yw Annie -

Dyfeisiwch pwy ydyw y fun.

Gor 6, 1908

Yn gywir,

Ann Wiliam (Owen gynt, Pontrug)

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£50: er cof am Betty Humphreys gan Helen a Tony Adams, Biwmares

£43: Di-enw Llanrug.

£22: Arwyn Thomas, Stourbridge

£20: Di-enw, Llanrug

£13: Di-enw, Bethel

£10: Shirley a Dilwyn Thorman, Tyddyn Andro, Bethel; Joan Parry, 3 Tai Gwyrfa, Deiniolen;

Teulu y ddiweddar Jennie

Angharad Roberts,

Brynrefail; Nia Oliver, Gors,

Brynrefail; Dr Gwilym W.

Roberts, 15, Maes Padarn,

Llanberis; J Evans-Hughes,

Kirby Muxloe; Di-enw,

Bethel; Marian Thomas,

Trawsfynydd; Aled Jones

(Aled Lodge), Caethro;

£7: Di-enw Llanrug.

£5: Teulu Catherine Ll.

Williams, Llanberis

£3: Di-enw Llanrug; Miss H Evans-Munro, Llanrug; Ann Ellis, Bethel

£1: Di-enw Llanrug.

Y Bont fondigrybwyll

Annwyl Olygydd

Os gwelwch chi'n dda cefnogwch yr ymgyrch!

25 mil o lofnodion mewn 3

diwrnod. Peidiwch a'i adael

i bobl eraill, mae'n cymryd 1

munud. Dangoswch nad ydyn

ni'n mynd i dderbyn cael ein trin

fel baw!

<https://www.change.org/p/alun-cairns-mp-stop-the-renaming-of-the-severn-bridge-to-the-prince-of-walesbridge?recruiter>

Diolch

Chris Evans

Prif Olygydd

Papur Bro Y Clawdd, Wrecsam

Parhad LLYTHYRAU

Adeiladu storfa o syniadau a deunyddiau i'w defnyddio yn ein cymunedau – Pecyn Cymunedau Byw

Annwyl Ddarllenwr,

Os ydych chi eisiau cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich cymuned, bydd diddordeb gennych mewn pecyn newydd, sydd â'r nod o ddefnyddio'r brwdfrydedd sydd yno eisoes!

Mae'r pecyn yn storfa o syniadau ymarferol i weithredu o fewn cymunedau. Mae'n cynnwys enghreifftiau a chanllawiau, ond y prif amcan yw ei ddefnyddio i gychwyn trafodaeth gydag unigolion, busnesau, grwpiau neu gymdeithasau o fewn cymunedau lleol i wneud gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar sut allai pobl fynd ati i agor y drws i ddysgwyr fel cyfranwyr gwerthfawr i'n iaith a'n diwylliant.

Mae llawer iawn o waith da yn digwydd yn barod yn ein cymunedau. Yr hyn rydyn ni wedi ceisio ei wneud yw dod â rhai o'r adnoddau ynghyd er mwyn galluogi mwy o bethau ymarferol ddigwydd yn ein cymunedau. Rydyn ni wedi ceisio rhwydo'r syniadau a'r brwdfrydedd sydd allan yno, a chynnwys awgrymiadau i bobl eu defnyddio.

Wrth gyflwyno'r pecyn yma y gobaith yw darganfod 'sbardunwyr' cymunedol fydd yn gallu mynd i'r afael â'r gwaith hollbwysig yma i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw, i'w gweld a'i chlywed yn eich cymuned.

Diolch am gefnogaeth parod Huw Llewelyn Davies, Rhys Mwyn a Sharon Morgan a phawb arall sydd wedi cyfrannu at baratoi cwis sy'n cydfynd gyda lansiad y pecyn. Mae posib llawrlwytho'r cwis a'r pecyn neu dderbyn copi caled drwy'r post.

Gallech weld y pecyn trwy fynd i <http://cymdeithas.cymru/pecyn>, neu os oes unrhyw un eisiau cyfrannu syniadau at y pecyn neu wybod mwy, mae croeso iddyn nhw gysylltu â ni ar nia@cymdeithas.cymru neu post@cymdeithas.cymru neu ffonio 01970 624501.

Cofion cynnes,

Nia Llywelyn, Swyddog Cymunedau Byw, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Pont Charlie - NI biau'r hawlfraint ar yr enw!



Pan gyhoeddwyd fod y bont sy'n cysylltu Lloegr a Chymru ar draws afon Hafren i'w henwi yn Bont Tywysog Cymru, arwyddodd pum mil ar hugain o bobl eu gwrthwynebiad o fewn ychydig ddyddiau. Y mae'r ffigwr bellach yn nes at ddeugain mil. Yn ôl y Llywodraeth Llundain roedd yn dathlu hanner can mlynedd ers y datganiad y byddai Charles yn Dywysog Cymru a phenblwydd Ein Tywysog yn 70 mlwydd oed. A chafwyd sêl bendith Theresa May, Alun Cairns a Carwyn Jones.

Tybed pam na feddylodd neb am gysylltu â phobl bro'r "Eco", oherwydd gennym ni mae'r hawlfraint ar yr enw – a hynny ers dros 170 o flynyddoedd. Ac y mae Pont Charlie yn dal i sefyll yn dalog rhwng Bethel a Llanrug.



Yn ystod y mis aeth heibio

- Yn y papur (safonol, medd rhai!) The Sunday Times, cafodd rhyw 'golofnydd' o'r enw Rod Little – sori, Liddle – yr hawl i fychanu a gwawdio y Cymry am brotestio ynglŷn ag enw newydd Pont Hafren. Awgrymodd ein bod yn byw yn y Trydydd Byd ac nad oedd llafariaid yn ein hiaith annealladwy. Gorffennodd ei druth drwy ddweud "Let them have their way. So long as it allows people to get out of the place pronto..." Mae rhywun yn cael ei dentio i ddweud 'cynta'n y byd: gorau'n y byd'. Ond wrth gwrs, fyddai'r "Eco" ddim yn gostwng i'w lefel o.

- Theresa May a'i Chabinet yn penderfynu tanio taflegryn ar Syria mewn ymateb i ddefnydd honedig o ymosodiad cemegol. Mewn pleidlais ddiweddarach – o geisio cau drws y stabal wedi i'r ceffyl ddianc fel petae – PAWB o'r Blaid Lafur ar wahan i'r bytholwyrdd Dennis Skinner, yn atal eu pleidlais! A'r union ymateb a gafwyd mewn pleidlais debyg gan aelodau Llafur yn Senedd Cymru hefyd.

- Llywodraeth Cymru yn cadarnhau na fydd newid meddwl ynglŷn ac ail-enwi Pont Hafren. A Ken Skates hyd yn oed yn honni fod yr enw yn 'deyrnged' i holl dywysogion Cymru. Llafur Cymru yn ymgreinio i frenhiniaeth Lloegr unwaith eto.....

- a phwy tybed feddylodd y byddai'n "syniad economaidd da" i gael cartref brenhinol yng Nghymru? Wel yng Nghaerdydd a bod yn fanwl gywir, oherwydd pwy fyddai eisiau dod i'n "rain sodden valleys"

chwedl Rod Liddle?

- Clywed si fod y Blaid Lafur wedi trefnu cyfarfod arbennig ym Mangor gyda Jeremy Corbyn a Huw Iranca Davies i drafod cau clybiau ieuentid Gwynedd! Ymosodiad ar y Wunedd Blaid Cymru tybed, ac Arfon bellach yn cael ei chyfrif yn sedd etholiadol 'ymylol'? Onid yw'n hen bryd i Blaid Cymru a'r Blaid Lafur roi heibio chwarae gêm wleidyddol o sgorio pwyntiau y naill oddi ar y llall ac uno i ddatgan yn blwmp ac yn blaen wrth drigolion Gwynedd a gweddill Cymru mai'r Llywodraeth Geidwadol yn Llundain sy'n gyfrifol am y cwtogi ariannol difrifol sy'n achosi'r holl doriadau yn ein gwasanaethau cyhoeddus?

- Llongyfarchiadau i dim pel-droed Ysgol Brynrefail am gyrraedd rownd derfynol Cwpan Ysgolion Cymru. Parhau â thraddodiad anrhydeddus timau pel-droed yr ysgol yn y gystadleuaeth, a hynny'n erbyn ysgolion llawer mwy o ran maint a dewis chwaraewyr.

- Roedd y papurau dyddiol yn blastar o luniau a gwybodaeth am y babi brenhinol, a'r BBC yn cyhoeddi'r newydd fel pe bai o ddiddordeb byd-eang. Y sicrwydd ydi na fydd angen i rieni hwn boeni am gwtogi lwfansau byw. Ac yn yr union bapurau rheini gwthiwyd i'r tudalennau yn eu perfeddion y wybodaeth fod banciau bwyd ar gynydd a miloedd o blant yn byw mewn tloedi. Blaenoriaethau: hwnna ydio!

Ysgol Gynradd



Plant Blwyddyn 2 wedi cael diwrnod gwerth chweil ym Meddgelert.



Plant Blwyddyn 4 wedi cael diwrnod gwych o Rygbi yng Nghlwb Rygbi Caernarfon



Diolch i Iolo Williams a Twm Elias am ddod i sgwrsio gyda phlant Blwyddyn 2 am adar a byd natur. Y plant wedi mwynhau ac wedi elwa'n fawr o'r ymweliad.



Diolch yn fawr iawn i staff Gwesty Seiont Manor am drefnu helpa wyau pasg yn ystod y gwyliau! Casglwyd dros £200 tuag at gronfa'r ysgol.



Da iawn hogia am gyrraedd yr wyth olaf ac i'r genethod am gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaethau pêl-droed yr Urdd! Diolch i @UrddEryri am drefnu



Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn Amgueddfa'r Beatles yn Lerpwl, ond mae'n debyg mai'r uchafbwynt oedd gweld Mohamed Salah y pêl droediwr yn yr Amgueddfa a chael canu iddo!

Parhad LLANRUG



Stori Haf ac Archie



Archie a'i law yn llaw Haf - y ddau yn cyfarfod am y tro cyntaf. Yn y llun mae Katie (mam Archie) a Sarah (ei nain). Gobeithio y gallwn i gyd gefnogi Haf yn ei hymdrech arbennig eleni.

Pan ddaeth Haf i wybod am Apêl Archie drwy un o'r papurau dyddiol daeth i benderfyniad yn syth mai dyma'r elusen yr oedd am ei chefnogi eleni. Bob penwythnos mae Haf yn brysur yn gwneud cardiau ar gyfer achosion arbennig megis Priodasau a Phen-blwyddi ac mae archebion wedi ei chyrraedd o Gaerdydd hyd yn oed! Mae'n hynod o ddiolchgar i'r rhai sy'n casglu 5 ceiniogau iddi er mwyn chwyddo'r casgliad hefyd. Os am gerdyn pen-blwydd go arbennig mae croeso i unrhyw un ffonio Haf ar 01286 673929 a bydd eich cyfraniad yn mynd i gyd i Gronfa Apêl Archie, Bydd bore coffi yn Hafan Elan yn o fuan - cewch wybod y manylion mewn da bryd.

Plaid Cymru Clwb Cant

Enillwyr Mis Ebrill
1..Selwyn Lloyd
2..Carrie Owen

Diolch Hoffai Nan, (Pant

Bryngwyn, Tan y Coed),
ddiolch i bawb am yr holl
garedigrwydd a dderbyniodd
yn dilyn llawdriniaeth
diweddar yn Ysbyty Glan
Clwyd.

Ffrindiau Ysgol Gynradd Llanrug

Nos Fawrth, Mehefin Sed -
Helfa Drysor

Nos Fercher, Mehefin 6ed -
Ras plant a Ras Sk

Nos Iau, Mehefin 7fed - Bingo
Dydd Sadwrn - Ffair Haf - yr
Orymdaith yn cychwyn am 1
o'r gloch o Nant y Glyn.

D y w e d d i a d

Llongyfarchiadau mawr i Phil
Lynes a Lea Williams, Stad
Glanffynnon, ar eu dyweddiad.
Pob dymuniad da i chi eich
dau.

Babi

Llongyfarchiadau mawr i
Kevin a Gill Holdsworth,
Afon Rhos, ar ddod yn daid a
nain unwaith eto i Osian, mab
bach Chris a'i wraig, a brawd i
Florence. Mae'r teulu yn byw
yn Nyfnaint. Llongyfarchiadau
mawr.

Profedigaethau

Cydymdeimlwn â Mrs Beti
Roberts a'r teulu, Nant y Glyn,
ar eu profedigaeth yn colli
mam, mam yng nghyfraith,
nain a hen nain annwyl, sef Mrs
Annie Edwards, Bangor.

Yn dawel ar Ebrill 1af, bu
farw Christiana Roberts, 4
Hafan Elan (Waunfawr gynt)
yn 70 mlwydd oed. Gwraig
annwyl iawn Arnold, mam
gariadus Bethan a Valerie a
mam yng nghyfraith Christian.
Roedd hefyd yn nain a hen
nain arbennig iawn. Cafodd
ofal hynod gan Arnold tan y
byddai'n rhaid iddi gartrefu
yng Nghartref Penisarwaun.
Bydd colled fawr i'r teulu a'i
ffrindiau ar ei hôl. Meddyliwn
amdanoch i gyd.

Yn 104 mlwydd oed bu farw
Eluned Ellis Owen, (Bryn y

Maen gynt) ac yn ddiweddar
gyda'i chwaer annwyl Malan,
a roddodd ofal tyner iddi.
Mam annwyl Ieuan a Megan,
Richard a Sharon, nain annwyl
a hen nain hoffus Rhodri, Llŷr
a Gwion a Jac, Mia a Huw.

Roedd wedi cael oes arbennig
iawn a bydd colled fawr i bawb
ar ei hôl. Cydymdeimlwn â
chwi yn eich colled.

Arholiadau Pan ddaw yr
Eco o'r wasg bydd tymor yr
arholiadau yma. Dymuniadau
gorau i'r plant a'r bobl ifanc ar
yr amser pwysig yma. Pob lwc.

Teyrngeid

Profedigaeth
Cydymdeimlwn â Isabel a
Stephen Owen a Catrin, Afon
Rhos, yn eu profedigaeth o
golli tad Isabel, sef Mr Griffith,
yr arlunydd adnabyddus o dan
yr enw Grenz. Cydymdeimlwn
â chwi fel teulu.

Cymorth Cristnogol Bydd
casgliad o dŷ i dŷ eleni yn ystod
wythnos Cymorth Cristnogol
ym mis Mai. Mae gwir angen
mwy o wirfoddolwyr i fynd o
gwmpas gan ein bod wedi colli
rhaid ac eraill wedi symud o'r
pentref. Os oes awydd gennych
i helpu ffoniwch 672221 os
gwelwch yn dda.

Llongyfarchiadau i Mrs
Mildred Pritchard, Crawia, ar
ddod yn hen nain unwaith eto.
Ganwyd Ela Grace i Samantha,
ei wyres. Dymunwn y gorau
iddynt fel teulu.

Pen-blwyddi Arbennig

Dymuniadau gorau i Meinir
Williams a James Jones ar
gyrraedd eu 80 mlwydd oed.
Hefydd Chris Roberts ar ddod
yn 70 oed ganol Ebrill ac i
Eirian Williams, Glanffynnon,
sydd wedi dathlu ei 60 oed.

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com



Clwb Merched Caethro I ddiweddu rhaglen y flwyddyn bwriedir mynd ar ymweliad â Halen Môn ar nos Iau, Mai 24ain, a gofynnir i'r rhai sydd am fynd i gysylltu â Nan Huws Roberts (ffôn 01286 674072) yn gynnar mis Mai.

Diolch Dymuna Aled Jones (Aled Lodge), 3 Bryn Gwna, ddiolch yn fawr iawn am bob caredigrwydd a gofal a gafodd yn ystod cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mae'n gwerthfawrogi yn fawr cael gymaint o ffrindiau.

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Tudur a Menna Trenholme, 15 Erw Wen, ar enedigaeth eu mab, Osian Llewellyn, a dymuniadau gorau i chi fel teulu bach.

Cydymdeimlo Anfonwn gofion at Mr John Jones, Garreg Lwyd, a'r teulu oll wedi marwolaeth Mrs Margaret Jones, mam John a Carys, yn ddiweddar.

Tynfa misol. Dyma enillwyr mis Ebrill: 1af Mike Jones, 10 Bryn Gof: (£40); 2il: Tudur Trenholme, 15 Erw Wen: (£25); 3ydd: Hefin Hughes, Cefn y Gof: (£15) a 4ydd: Dilys Griffiths, Delfryn: (£5).

Casglu Sbwriel Mae'r pentref yn hynod o lân wedi i'r criw ffyddlon fod yn casglu sbwriel bore Sul, Ebrill 8. Diolch i bob un ohonoch, yn blant ac oedolion, am osod esiamp!!

Parhad LLANRUG



Capel y Rhos Llongyfarchiadau i'n gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson, ar gyrraedd carreg filltir go arbennig. Mae wedi cwblhau deugain mlynedd yn y Weinidogaeth. Dymunwn y gorau iddo a diolch amdano fel gweinidog i ni yng Nghapel y Rhos.

Oedfaon mis Mai

6: Y Gweinidog a gweinyddir y Cymun
13: Parch Ddr Geraint Tudur
20: Sul y Pentecost gyda'r Parch Marcus W. Robinson
27: Parch R.O. Jones

Merched y Wawr Nos Fawrth, Ebrill 10fed estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Bethanne. Cychwynwyd gyda Chàn y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan rai aelodau. Darllenwyd cerdyn o ddiolch gan Nan ac anfonwn ein cofion annwyl ati hi a Linda. Cydymdeimlwyd â Beti yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Cynhelir Cystadlaethau Gŵyl Haf yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth ar 19 Mai. Y cystadlaethau Crefft yw Eitem yn defnyddio ffelt; Ffotograffiaeth - Hunlun (Selfi) unigol neu grŵp, maint penagored.

Coeden Nadolig; Coginio - Cacen Geirios Gron.

Estynnwyd croeso cynnes i siaradwraig y noson, Rhian Jones, yn sôn am y gyfres o lyfrau 'Syniad Da'. Cyfres fywiog sy'n olrhain y modd y mae llawer o fusnesau wedi cychwyn wedi profiad o

'syniad da'.

Wedi treulio ei blynnyddoedd cynnar yn Llanbedr, Ardudwy, symud wedyn i Rhosfawr pan yn 7 oedd. Yna cael swydd yn Ysgol Botwnnog yn fuan ar ôl bod yn fyfyrwraig yn Aberystwyth. Bu'n athrawes yn yr Adran Gymraeg a'r Adran Dechnoleg Gwybodaeth am 34 o flynyddoedd. Yn 2012 cafodd wahoddiad i 'sgwennu am gychwyn busnesau o dan yr enw Syniad Da. Mae 20 o lyfrau bellach a da deall bod merched hefyd wedi troi i fyd busnes. Mae'r gyfres yn cynnwys rhai o fusnesau poblogaidd Cymru bellach megis Llaeth y Llan, Tyddyn Sachau, Cap Gwlân a'r Oriau Mân, Ysgol Yrru, Becws Iestyn a Becws To Gwellt a llawer busnes llewyrchus arall. Mae'r gyfres gan Wasg Carreg Gwalch yn llawn lluniau a hanesion difyr.

Cafwyd tamaid i'w brofi o fara gwymon a sosej rôl. Diolchodd Bethanne i Rhian am noson o 'flas ar lyfrau', blas o nwyddau a mwynhad pur.

Nos Fawrth, Mai 8fed cynhelir ein Cyfarfod Blynnyddol gyda chyfle i sgwrsio dros banded. Bydd aelodau'r pwyllgor yn falch o dderbyn eich syniadau am nosweithiau ar gyfer 2018-19. Mis Mehefin mae'r dyddiad wedi newid o Fehefin 2il i Mehefin 16, sef dyddiad ein Gwibdaith. Gofynnir yn garedig am flaendal o £10 yng nghyfarfod blynnyddol y gangen. Diolch i Myfanwy, Jean, Heulwen ac Ann am wneud y banded. Olwen, Ann Lloyd a Jenny fydd yn gyfrifol am banded a raffl mis Mai.

Catherine Roberts Hughes-Jones

Ganwyd Catherine Roberts ym mis Awst 1926 i Mary Jane ac Owen John Roberts, Tŷ Ucha'r Ffordd, Pentre Castell, Llanberis. Roedd pentref bach Llanberis yn agos iawn at ei chalon.

Cadw ceffylau gweddwnâi Owen Roberts yn chwarel, Llanberis. Roedd y teulu yn wreiddiol o Castle, Penysarn, Ynys Môn ac wedi symud i Lanberis pan ddaeth gwaith Mynydd Paris i ben.

Roedd gan Mrs Jones hanner chwaer, y ddiweddar Gladys Williams, a oedd yn 17 mlynedd yn hŷn na hi. Roedd yn agos iawn at blant Gladys ac fe wnaeth lawer â hwy trwy gydol ei hoes.

Ysgrifenyddes oedd Mrs Jones i gwmni Emyr Thomas a'i Fab, Caernarfon. Byddai'n aml yn mynychu sesiynau yn y cwrt i gofnodi manylion mewn llaw-fer. Roedd ganddi lawysgrifen daclus a byddai yn cofnodi'r nodiadau yn effeithiol a darbodus bob amser,

Yn ei hamser hamdden, ymunodd â Chlwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon. Byddai'n mwynhau cymdeithasu ac enillodd wobwr ysgrifenyddes y flwyddyn yn Ffederasiwn Cenedlaethol y mudiad yng Nghymru a Lloegr. Bu'n gwerthu brics ar sgwâr Caernarfon i adeiladu Clwb Ffermwyr Ifanc yn Pepper Lane. Fe'i hetholwyd hefyd yn Llywydd y Rali Sirol yng Nglynllifon.

Eleni, mae Clwb Caernarfon yn dathlu 80 mlynedd ers ei sefydlu'r a bwriadwyd anrhydeddu Mrs Jones am mai hi oedd y olaf ar ôl o gyfnod sefydlu'r clwb. Dywedir yn aml mai 'marriage bureau' yw Mudiad y Ffermwyr Ifanc gan mai yno y bu i Mrs Jones gyfarfod â'i phriod, Richard Hughes, Y Greuor, Llanrug.

Priododd y ddau yn 1951 a sefydlu cartref yn Fferm Hafod y Rhyg, Waunfawr, ac yno y ganwyd eu mab, John.

Roedd ei thad yng nghyfraith, Robert Hughes Jones, taid Sŵn y Gwynt, yn ŵr busnes. Cafodd gynnig am Hafod y Rhyg a'i werthu am ddwbl y pris.

Yna symudodd y teulu i Trefaes, Botwnnog, gyda Mr Jones yn rheolwr fferm i Syr Goronwy Owen, Aelod Seneddol Sir Gaernarfon. Dyma gyfnod hapusaf ei bywyd, yn ôl Mrs Jones, tra'n magu John a chadw'r fferm ym Mhen Llŷn.

Ar ddiwrnod y Grand National 1954 prynwyd Bryn Afon gan taid Sŵn y Gwynt, lle a fu'n gartref i'r teulu am 64 o flynyddoedd. Roedd Bryn Afon yn lle prysur iawn bob amser. Yn wreiddiol fferm laeth ydoedd gyda'r ieir a'r moch yn cyrraedd yn ddiweddarach, gyda Mrs Jones bob amser yng nghanol pob gweithgaredd.

Stad ddiwydiannol ydoedd lle byddai Mrs Jones yn bwydo'r holl weithwyr o gwmpas bwrdd mawr y gegin, fore, bawn a nos.

Roedd taid Bryn Afon yn dipyn o gymeriad ond nain Bryn Afon a gawsai'r gair olaf bob tro.

Yn 1961, ganwyd merch gyda'r syniad o'i galw yn Gwen, ond sylweddolodd Mrs Jones fod buwch o'r enw Gwen ar y fferm ac fe roddwyd yr enw Olwen ar y ferch fach.

Mwynhaodd Mrs Jones wibdaith ar y QE2 i Efrog Newydd yn ogystal â llawer gwibdaith arall.

Roedd ganddi fusnes gwely a brechwast llwyddiannus hyd yn ddiweddar, gyda'r gwesteion yn dychwelyd dro ar ôl tro, tystiolaeth o'i lletygarwch twymgalon.

Roedd teulu yn bwysig iddi, teulu Corby, teulu Rhiwlas a theulu Talmignedd. Roedd ei ffydd yn bwysig iddi, yn selog i'w Chapel Baptist gwreiddiol ac yna yn aelod ffyddlon yng Nghapel y Rhos, Llanrug.

Byddai croeso bob amser i Alwena a minnau ar aelwyd Bryn Afon ac mae ei charedigrwydd a'i gofal dros bawb yn aros yn y cof.

Wedi marwolaeth Mr Jones yn 1999, roedd ei fam yn gefn i John wedi iddo gymryd drosodd y busnes cig a disgwyliai'n eiddgar amdano o'i waith gyda'i hanesion diddorol am ei ddiwrnod yn trafaelio hyd Wynedd a Môn.

Byddai wrth ei bodd yng nghwmni ei hwyron a'i hwyresau. Magodd lawer ar Iwan, mab John ac Alwena, y cyntaf o'r wyrion ac roedd yn falch bod Iwan yn ymgymryd â'r busnes cig gyda'i dad. Byddai wrth ei bodd yng nghanol pob bwrlwm a dathlu pen-blwyddi Elin, Einir a Tudur, plant Olwen. Hefyd roedd wedi gwirioni â'i gor-wyres, Elsa Fflur, merch Elin.

Roedd Elsa'n ffrindiau mawr â nain. Pan ffoniai Olwen i ddweud eu bod yn dod draw i Bryn Afon, y cwestiwn cyntaf a ofynnai nain oedd, 'Ydi Elsa'n dod efo chi?' Os mai'r ateb oedd, 'Na, dim heddiw', yr ateb a gawsai gan Mrs Jones oedd, 'Does dim pwrpas i chi ddod felly!' Yn ystod y dyddiau diwethaf, dywedodd Elsa, 'Mae nain yn seren fawr rŵan.'

Cadwai Mrs Jones ddyddiadur ar hyd ei hoes.

Rydym fel teulu'n ddiolchgar iawn am y gofal a fu i mam/nain yn Ysbyty Gwynedd, Plas Pengwaith, Llanberis ac, yn arbennig iawn yn ystod y dyddiau olaf, diolch i Ward Prysor am eu gofal diflino.

Diolch i chwi, Mrs Jones, am eich gofal i'n teulu fel mam, mam yng nghyfraith, nain a hen nain.

Cysgwch yn dawel.

Diolch Dymuna Eleri, John, Arwyn, Delyth, Dylan a'u teuluoedd ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd, drwy ymweliadau, galwadau ffôn a chardiau, yn dilyn eu profedigaeth drist o golli mam, mam-yng-nghyfraith, nain a hennain annwyl a hapus, sef Catherine L.I Williams, 6 Rallt Goch, Llanberis. Diolch i'r gweinidog, Y Parch John Pritchard, am ei wasanaeth ac i Arwel Jones am ei deyrnged. Diolch i E W Pritchard am y trefniadau parchus a chywir. Diolch o galon i bawb am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Ymchwil Diabetes.

Pentref Taclus

Mae grwp o wirfoddolwyr, 'Pentref Taclus Llanberis', wedi dechrau cyfarfod bob wythnos i fynd o amgylch y pentref i godi sbwriel. Os hoffwch ymuno a nhw, dewch i siop Menter Fachwen, Stryd Fawr, am 10 y bore bob dydd Sul. Croeso cynnes i bawb. Mae'r grwp yn gobeithio gwneud llawer mwy yn y pentref y flwyddyn hon, ac wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn y misoedd ers Awst 2017, pan gafodd ei sefydlu.

Diolch

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n cydymdeimlo â ni fel teulu wedi marwolaeth Falmai ar Fawrth 15, yn 59 mlwydd oed. Yr oedd yn briod, mam a mam yng nghyfraith, nain a chwaer heb ei hail i ni. Gwerthfawrogwn bob cyfarchiad trwy ymweliad, galwad ffôn, llythyr, cerdyn a phob cyfrwng arall oddi wrth gymdogion, aelodau'r eglwysi, cyfeillion, a chydweithwyr Falmai yng Ngholeg Meirion Dwyfor, lle bu'n gweithio ers ei agor yn 1993.

Diolch i bawb a ddaeth o bell ac agos i'r angladd yn Eglwys Sant

Padarn ar Fawrth 24. Roedd mor braf cael eich cwmni yno a thros baned wedyn yn Capel Coch, lle bu Falmai'n athrawes Ysgol Sul, organydd a blaenor. Diolch i'r Parchgn Robert Roberts, Euros Jones, Gwyn Rhydderch, Bryn Williams a Rhodri Glyn am eu rhan yn yr oedfa, ac i'r ddau organydd, Bethan Holding a Gareth Jones. Diolch hefyd i Gwenant Pyrs ac aelodau Côr Seiriol y bu Falmai'n aelod ohono ers ei ddyddiau cynnar yn 1991 am eu datganiad o'r emyn 'Iesu, Iesu rwy'ti'n ddigon'. Diolch i'r Parchg Carol Roberts a swyddogion yr Eglwys am ganiatáu i ni gynnal yr oedfa yno, ac i Jane a Gwynfor o gwmi E W Pritchard am eu holl drefniadau. Gwerthfawrogwn bob gofal a gafodd Falmai gan Dr Esyllt Llwyd a'i chyd-feddygon ym Meddygfa Waunfawr ynghyd â'r gofal a gafodd yn Uned Alaw, Ysbyty Gwynedd.

Yn olaf, diolch am yr holl roddion hael a gafwyd er cof am Falmai tuag at waith Tearfund a Hospis yn y Cartref Gwynedd ac Ynys Môn.

- John Pritchard ac Aled; Dafydd, Gwenno a Llew; Gethin, Annabel, Ella a Joseff; Gruffudd a Gwawr; Sioned, Angharad a Catrin, chwirydd Falmai; a'r teulu cyfan, Cilfynydd, Llanberis.

Gwasanaethau Capel Coch am fis Mai

6ed: 10yb Parch Gwynfor Williams

13eg: 10yb a 5yh Y Gweinidog

20fed: 10yb Mr Glyn Owen; 5yh Parch Euron Hughes

27ain: 10.30yb Oedfa Deulu

Teyrnged Anty Betty

Dydd Iau Mawrth 29 2018 bu farw Mrs Elizabeth Humphreys, Anti Betty, gynt o Gwastadnant, Nant Peris ac wedyn o Nant, Llanberis yn Ysbyty Gwynedd yn 96 oed. Roedd yn wraig i'r diweddar Owen Humphreys (Now) fu farw ar y 15fed Mai 1987 ac yn fam gariadus i Helen a'i gwr Tony yn nain falch iawn i Gareth, Edward a Tomos a'u gwagedd ac yn hen nain i Sebastian, Elizabeth, George, Leo a Jessica. Roedd yn fodryb arbennig iawn i'w theulu ac yn uchel ei pharch gan bawb oedd yn ei hadnabod. Roedd drws Gwastadnant ac wedyn y Nant bod amser yn agored, a phaned a'i sgons a chacenni cri enwog bob amser yn barod i'n croesawu. Bu'n driw iawn i'w theulu ar hyd ei hoes, yn barod iawn ei chymwynas a'i chyngor, roedd cynifer o'r teulu wedi teithio o bell ac agos i'r gwasanaeth pnawn Sadwrn yn Eglwys Sant Padarn ar y 14eg Ebrill yn tystio i'r parch a'r cariad a deimlwyd tuag ati.

Ganwyd Elizabeth neu Betty fel y gelwid hi y seithfed plentyn i Thomas ac Elizabeth Owen Gellihirbant ac wedyn 8 Rhos Efrog ar y 3ydd o Chwefror 1922. Ganwyd pedwar plentyn ar ei hol hi ond bu farw un plentyn pan yn ychydig fisoedd oed. Fe'i magwyd felly yn un o unarddeg plentyn ac roedd perthynas y briodydd a'r chwirydd a'i gilydd yn agos a chariadus iawn. Trist iawn meddwl mai Betty oedd yr olaf o blant Tom Owen Clochydd ac Elizabeth ei wraig - diwedd cyfnod yn wir.

Roedd Eglwys Sant Padarn yn rhan bwysig o'i magwraeth gyda'i thad yn glochydd yno am flynyddoedd. Ymfalchiai'n fawr fod y traddodiad yn dal yn nwylo'r teulu a byddai wrth ei bodd o wybod bod Dafydd mab ei brawd Ernest a Llion wyr ei brawd Evan yn canu'r gloch ddiwrnod yr angladd.

Ar ol priodi a Now Humphreys symudodd i fyw i Nant Peris lle ganwyd eu hunig ferch Helen. Yn y Nant roedd Capel Rehoboth yn bwysig iawn iddi gyda'i gwr Now Humphreys yn flaenor yno. Roedd yn aelod o'r W.I am flynyddoedd ac yn aelod ffyddlon o Undeb yn Mamau yn Llanberis. Bu ar bwyllgor Clwb yr Henoed yn Llanberis ers ei sefydlu ac yn weithgar yn holl weithgareddau'r Clwb.

Roedd Gwastadnant ei charterf newydd bob amser yn llawn ymwelwyr gan iddi hi a'i mam yng nghyfraith Anty Catherine gadw gwely a brecwast a chinio nos am flynyddoedd i gannoedd o ddynion a merched fyddai'n dod i ddringo yn Eryri. Tyst i boblogrwydd Gwastadnant fel lle aros oedd bod nifer o glybiau mynydda fel Harrow a Llundain yn aros yno'n flynyddol ac yn dal i yrru cardiau Nadolig iddi. Mae'r teulu hefyd wedi gwneud ffrindiau oes a rhai ddaeth i aros yn fechgyn ifanc ac wedi dal i ddod efo'u teuluoedd wedi iddynt briodi. Pleser mawr oedd gweld rhai wedi teithio'n bell i fod yn yr angladd.

Wedi colli ei gwr yn 1987 symudodd yn ol i fyw i Lanberis lle ymroddodd i gyfrannu i weithgareddau'r pentref a'r Eglwys. Cafodd gyfle i deithio'r byd, bu yn Awstralia nifer o weithiau i ymweld a'i chwaer Nellie ac ar sawl cruise efo'i chwaer Kate. Roedd wrth ei bodd yn cael crwydro a chyfarfod pobl.

Am bedair blynedd olaf ei bywyd bu'n byw yn Plas Pen Gwaith Llanberis. Pan aeth yno gyntaf roedd naw o'r preswylwyr o Lanberis ac wedi bod yn Ysgol Dolbadarn yr un adeg a hi, gellid dychmygu'r siarad a hel clecs oedd yno.

Bu'n ffodus iawn i'r diwedd fod ei meddwl a'i chôf mor fyw a chilir ac erioed, roedd yn frith o ddywediadau ac yn cofio penillion a dywediadau a ddysgodd yn yr ysgol. Byddai'n dweud y bennill yma'n aml i godi calon os oedd rhywun yn teimol'n isel

Côd yn y bore a meddwl am fyw

Dyro ddwr ar dy wyneb i newid dy liw

Deud dy bader cyn mynd at dy fwyd

Rhag ofn i'r hen satan dy ddal yn ei rwyd.

Dyna oedd ei moto i'r diwedd - cafodd fywyd hir a llawn, bydd colled enfawr i'w theulu a'i ffrindiau hebddi. Coffa da amdani.

Anne Elis

Teyrnged i Falmai Pritchard, Llanberis

Er gwybod bod Falmai'n wael ers amser, roedd yn sioc fawr a thristwch clywed am ei marwolaeth, gartref yng Nghilfynydd gyda'i theulu ar y 15fed o Fawrth. Cydymdeimlwn yn fawr â'i phriod y Parchedig John Pritchard a'r meibion Dafydd, Gethin, Gruffudd ac Aled a holl deulu Falmai yn eu colled lem, a hithau ond yn 59 mlwydd oed. Bydded i Dduw droi hirnos hir yn fore gwawr.

Gan gymaint o ffydd oedd ganddi yn ei Duw roedd Falmai wedi paratoi ar gyfer y gwaethaf. Roedd ei salwch blin a chreulon wedi gwneud bywyd yn ansicr, ond roedd ei ffydd gadarn yn ei chynnal; a gwyddom ei bod bellach yn well ei lle yn nwylo'r Brenin Mawr. Ni chaiff ei chystuddio ac ni fydd yn dioddef mwy. Roedd yn deall yn iawn mai yn y byd hwn dros dro yr ydym a bod ein dyddiau wedi eu rhifo. A phan ddaeth yr awr, gallai wynebu angau gan gredu ei bod hi'n hollol saff yn nwylo Duw ac y byddai Duw'n rhoi nerth i'w theulu yn yr oriau tywyll. Credai nad oedd yr Iesu'n well yn unman nag yng ngrym y storom gref, a bod ei Duw yn wastad wrth ei hochr a byth ymhell o'i chyrraedd. Pan gaiff pobl fel Falmai eu cymryd oddi wrthym, yr ydym am ofyn pam. Ond cwestiwn heb ateb iddo yw hwnnw, a does dim esmwythyd i'w gael o'i ofyn. Erys yr hiraeth. Bydd bwlch mawr, a'i hanwyliaid yn profi grym y brofedigaeth lem.

Cafodd ei magu'n ferch fferm yn Llanefydd, ger Dinbych. Bu farw ei mam pan oedd Falmai'n dair ar ddeg oed. Bu Falmai o gymorth mawr i'w thad i fagu ei thair chwaer iau. Daeth i adnabod Duw ac i sylweddoli mai Duw cariad ydyw. Yn ferch annwyl, wylaidd a charedig, magodd ei phedwar mab yn sw'n yr Efyngyl. Daeth i Lanberis o Abersoch wedi i'w phriod ddod yn weinidog yn Llanberis, Deiniolen a Nant Peris yn 1988. Erbyn hyn mae gan Mr Pritchard saith eglwys yng Ngofalaeth Fro'r Llechen Las. Mae hefyd yn gwasanaethu yng Nghapel Tan y Coed. Hefo'r holl waith, yr oedd yn lwcus o wraig mor ardderchog â Falmai i roi cymorth iddo yn ôl yr angen.

Roedd Falmai'n adnabod ei Duw, a'i chredo ynddo'n andros o fawr. Roedd yn wraig gweinidog ardderchog a oedd yn cario beichiau a gwaith yr eglwys gyda'i phriod. Diolch i Dduw am un fel Falmai a gadwodd y dystiolaeth bod Crist mor fyw heddiw ag erioed. Dangosodd gariad wrth gydweithio â phobl Dduw

ym mrawdgarwch yr Efyngyl. Roedd ganddi awydd angerddol i weld y gwaith yn llwyddo yn Capel Coch, ac wrth ei bodd yn gweithio yno gyda'r plant a'r bobl ifanc. Bu'n arwain yr Ysgol Sul am flynyddoedd yn ogystal â gwasanaethu fel organydd ac ers 2013 fel blaenor. Roedd ganddi hefyd swydd lawn amser yng Ngholeg Meirion Dwyfor ym Mhwillheli, Dolgellau a Glynllifon, lle bu'n gweithio ers 1993. Er ei salwch, daliodd i ddod i'r oedfaon hyd at y Sul olaf bron. Roedd yn ferch ddawnus iawn, a defnyddiodd bob dawn i ogoneddu Duw am iddo roi ei unig fab ar y Groes i ddangos bod cariad Duw yn fwy na'n pechodau, a'i faddeuant yn llawer mwy grymus na'n beiau. Duw yn maddau beiau ydoedd i Falmai.

Cafwyd gwasanaeth cyhoeddus i ddiolch am ei bywyd a'i thystiolaeth yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ddydd Sadwrn, 24ain o Fawrth yng ngofal y Parchedig Robert Owen Roberts, Morfa Nefyn. Roedd y gwasanaeth yn y tŷ ac ym Mynwent Nant Peris yng ngofal y Parchedig Euros Wyn Jones, Llangefni. Cymerwyd rhan yn yr Eglwys gan y Parchedigion Gwyn Rhydderch, Bryn Williams a Rhodri Glyn; ac yr oedd llawer o weinidogion eraill yn y gynulleidfifa. Cymerwyd rhan hefyd gan Gôr Seiriol; côr y bu Falmai'n aelod ohono ar hyd y blynyddoedd. Yr organyddion oedd Mrs Bethan Holding a Mr Gareth Jones, cyd-organyddion Falmai yng Nghapel Coch. Roedd yr Eglwys yn orlawn, gyda rhai'n sefyll y tu mewn a'r tu allan, ac aelodau o holl eglwysi'r ofalaeth a llu o gyfeillion a chydweithwyr i Falmai wedi dod i dalu'r gymwynas olaf iddi.

Diolch am gael adnabod Falmai a chael gweithio hefo hi. Diolch am gael ei benthyg; ond gadawodd ni'n llawer iawn rhy fuan. Yn sicr, roedd yn adnabod ei Duw ac yn fodlon a pharod iawn i weithio trosto. Bydd ei bywyd byr fyw am byth. Credaf fod Mr Pritchard yn ddigon cryf a chadarn ei ffydd i wybod bod Duw yn agos ato fo a'r hogiau'r dyddiau tywyll yma. Ni fydd yn eich gadael yn amddifad. Gweddïwn drosoch fel teulu gan obeithio am fendith ac iechyd i chwi i'r blynyddoedd a ddaw.

Boed i Falmai orffwys mewn heddw ym mreichiau ei Gwardwr. 'Hedd Perffaith Hedd.'

Marian Jones, Dinorwig



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Er cof am Falmai Morris Pritchard

Gan glaf, caed gaeaf di-gŵyn,
daw'r gwano gyda'r gwanwyn;
o gell i gell fe gollwyd
y wên glên fel haul dros Glwyd.
A daw'r lluwch dros bedwar llanc
â'i ofid dros dô ifanc.
I'r rhain ni all dwyreinwynt
ro'i ar chwâl ei gofal gynt;
y fam llawn o gariad fydd
a'i henaid yng Nghilfynydd.

I John, hon yr un o hyd – un eu ffordd,
un eu ffydd ddi-syflyd.
Un afaith dros wlad hefyd,
un eu baich dros Frenin byd.

Yng nghysgod Sul y Blodau
mor drist yw gweld cist yn cau;
pridd y Nant fydd ei mantell,
nid yw mam yn mynd ymhell.

Richard Llwyd Jones



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Tymor y Gwanwyn Mae'r gwanwyn wedi bod yn hwyr iawn eleni ac mae wedi bod yn wlyb ac yn oer a'r Pasg y tu ôl i ni erbyn hyn. Ar Sul y Blodau yr ydym yn mynd tua'r fynwent hefo blodau ar ein hanwyliaid. Braff oedd cael mynd yno er ei bod yn andros o oer. Mae Mynwent Macpelah yn hynod o dwt a thaclus, ac yn edrych ar ei gorau hefo'r holl flodau ar y beddau.

Eryrholl doriadau, mae Cyngor Gwynedd i'w llongyfarch ar y gwaith maent yn ei wneud i gadw'r fynwent yn daclus. Gair o ddiolch iddynt am y ffordd ardderchog y maent yn edrych ar ôl y lle. Mae hyn yn golygu llawer i'r anwyliaid sydd yn tyrru yno o bob man ar Sul y Fam a Sul y Blodau.

Carreg Goffa y **Chwarelwyr** Mae cwynion am rai o'r bobl sydd yn tyrru i'r Allt Ddu hefo cŵn ac yn gadael iddynt redeg yn rhydd i wneud fel y mynnant. Estroniaid yw y mwyafrif o'r bobl yma. Er bod dau fin i roi sbwriel yno mae gennyf ofn fod y mwyafrif yn taflu eu sbwriel wrth eu traed ac yn gadael baw y cŵn ar hyd y ffordd heb feddwl ei roi yn y bin.

Da chi, os am ddod i fyny i'r Allt Ddu, beth am roi tennyn ar y ci os gwelwch yn dda, a rhoi'r sbwriel a'r baw yn y bin. Os yw'r biniau yn llawn beth am fynd â fo adref hefo chi? Beth am gadw y lle yn daclus?

Coffa da am y chwarelwyr. Mae colled fawr amdanynt a'u hiwmor iach. Ers cau y chwarel yn 1969 mae popeth wedi cau wedyn yn yr ardal a'r iaith Gymraeg bron wedi peidio a bod. Coffa da amdanynt, diolch nad ydym wedi eu anghofio eto.

Trafnidiaeth Gyhoeddus Bu imi grybwyll yn yr Eco y mis diwethaf am yr amserlen ar gyfer trafniadaeth gyhoeddus yn yr ardal. Erbyn hyn y mae'r cwmni wedi dod ag amserlen newydd allan sydd wedi rhoi tipyn mwy o fysiau i ni gael mynd a dod i Gaernarfon. Yr

ydym yn wirioneddol diolchgar am hyn ond, yn anffodus, dim ond am fis y mae. Tybed beth fydd yn digwydd wedyn? Ar y funud y cyfan yr ydym yn ei gael i Fangor yw dau fws y dydd, sef am 16.24 o Fangor i Ddinorwig a bws 18.41 o Ddinorwig i Fangor.

Fel ag yr wyf yn gweld, os am ddal y bws 16.24 o Fangor fe fydd raid mynd i Fangor hefo bws i Gaernarfon ac yna i Fangor. Y gresyn yw nad oes dim un o'r bysiau sydd yn dod i fyny ma yn gallu cysylltu â rhai o'r bysiau sydd yn mynd o Ddeiniolen i Fangor.

Os y bu ichwi fynd i Fangor hefo bws 18.41 o'r ardal, yr unig ffordd i ddod adref yn ôl ydyw bws o Fangor i Ddeiniolen, yna cerdded, os yw hyn yn bosibl, neu trio cael tacsî. Felly i fod yn berffaith onest nid oes pwrpas i fws sydd am fynd â chwi i Fangor heb ddim math o drefniant i chwi ddod gartref yn ôl. Ac, wrth gwrs, dim pawb all fforddio talu am dacsî.

Rwyf yn deall bod gan Gyngor Gwynedd broblem fawr ar eu dwylo, ac yn cydymdeimlo yn fawr â hwy, ond y maent yn gwybod am sefyllfa y cyn fysiau ers mis Awst 2017.

A oes gobaith cael hyn wedi ei drefnu yn ystod y mis nesaf yma? Yr wyf y cyntaf i ddweud fod pethau yn well, ond tydi bod yn well fel ag y maent ddim digon da. Nid da lle gellir gwell. Aros mewn gobaith y bydd gwellhad eto erbyn 12fed o Fai.

Cofion Ein cofion gorau am wellhad buan i bawb sydd wedi bod yn cwyno a rhai sydd yn dal i wella. Mae yn addo tywydd cynhesach a dipyn mwy o haul y gwanwyn a wnaiff godi calon pawb rwy'n sicr, gan ei bod wedi bod mor wlyb ac oer.

Cofion annwyl iawn at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, a Phlas Garnedd yn awr. Mae y dydd mawr yn dod yn nes bob dydd yn awr, gan obeithio erbyn mis Mehefin y cawn weld 103 yn cael ei ddathlu a chwithau mewn hwyliau da ac

yn gallu mwynhau. Cofion yr ardal i gyd atoch.

Sieltyr, Bryn Sardis

Cafwyd tir gan y diweddar Mr Abraham Jones, Foel Gron, er mwyn codi y Sieltyr uchod i'r chwarelwyr. Fe'i codwyd o lechi y chwarel ac yr wyf yn cymryd mai rhai o'r chwarelwyr â'i cododd. Wedi hyn daeth dwy o hen loriau y fyddin i gario y dynion o Fryn Sardis i fyny Lôn Garrat i dop y chwarel. Yr oedd hyn tua 1950. Daeth y ddau ddreifar o Lanberis, sef Mr Albert Fosse a Mr William Jones. Cadwyd y ddwy lori yn y sied fawr yn yr Allt Ddu.

Yn 1958 cafodd 80 o'r hogiau eu sacio, rhain oedd yr hogiau a oedd yn gweithio yn nhop y chwarel. Wrth gwrs, dyma oedd dechrau cau y chwarel. O gwmpas yr un adeg fe gaewyd y cantin oedd yn 'fire engine'. Y gogyddes ar y pryd yma oedd dynes o'r enw Mrs Parry o Benygroes, Dyffryn Nantlle. Cofiaf ei gweld hefo gwallt melyn a gwisgai gôt ddu bob tro y gwelais i hi. Yr wyf yn deall bod lluniau o'r cantin ar gael heddiw. Yn y cantin yr oeddynt yn gallu prynu sigarets, da-da a diod ac, wrth gwrs, yr oedd pryd bwyd i'w gael yno. Nid wyf yn gwybod pa fath o fwyd oedd i'w gael yno, gan mai tin bwyd oedd dad yn fynd hefo fo bob amser.

Nid wyf yn gwybod yn iawn pryd y bu i'r ddwy lori stopio ond credaf ei bod o gwmpas 1958, pryd y daeth y sioc o ddiswyddo 80 o dop y chwarel. Fe fu i'r Sieltyr aros yn gadarn iawn am rai blynyddoedd wedyn. Pryd y daeth newid i'r Sieltyr oedd pryd y bu i berson nad oedd yn un o drigolion yr ardal, a heb ganiatâd teulu y diweddar Mr Abraham Jones, fynd hefo pren haenog tair haen (three ply) i gau yr agoriad i'r Sieltyr a'r ddau fwlch agored. Gwyddai pawb nad oedd hir oes i rhywbeth fel hyn gan fod y Sieltyr yn sefyll mewn andros o le stormus. Nid oes raid dweud mai byr iawn fu oes y pren tair haen.

Pe buasai y Sieltyr wedi cael ei adael fel y cynlluniwyd hi, ni fuasai yn peri y fath ddolur llygad heddiw oherwydd, fel y gwyr pawb sydd wedi ei ddwyn i fyny y mro y llechi, mai peth am oes yw llechen.

Marwolaeth Sydyn

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth Eric Iolen Williams a fagwyd yn Nhŷ Capel Dinorwig MC. Bu farw yn andros o sydyn ar 20fed o Fawrth yn Ysbyty Gwynedd. Daeth Eric i fyw hefo'i ddiweddar dad, Mr Richard Williams, a'i fam, Mrs Dilys Williams, pan yn saith oed o Glwt y Bont. Mae ei fam yn byw heddiw yn Llys y Gwynt, Penisarwaun.

Yr oedd Eric yn hynod o ffyddlon yn y capel ac fe fu iddo gymysgu yn sydyn iawn hefo'r hogiau.

Diddordeb mwyaf Eric oedd cael mynd at y diweddar Derek Williams, Bron Eilian, i ddysgu sut i weithio hefo cŵn defaid. Yr oedd yn ei ogoniant pan hefo Derek a'r cŵn a daeth ef a Derek yn ffrindiau mawr. Pob cyfle a gâi dyna lle y byddai hefo'r cŵn ac fe ddysgodd andros o lot am sut i drin y cŵn a'r ddefaid.

Bu iddo briodi hefo Muriel o Dregarth, lle y cartrefodd hyd ei farwolaeth sydyn, yn dal hefo diddordeb mawr yn y cŵn defaid. Ei waith dyddiol ers pan yn 16 oed oedd hefo'r argraffwyr yn Ffordd Sackville, Bangor. Bu yno ar hyd ei oes tan ei farwolaeth yn 60. Yr oedd yn weithiwr cydwybodol a bu yno am deugain a phedair o flynyddoedd.

Daeth yn arbenigwr ar gŵn defaid a byddai yn mynd i feirniadu ar hyd a lled Cymru.

Bu ei angladd yn Eglwys Tregarth ar 29 o Fawrth. Yn gwasanaethu yn yr angladd roedd y Parchedigion Christine McCrae, John Mathews a Carol Roberts, ficer ei fam ym Mhenisarwaun.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn hefo'i fam oedrannus, a'i wraig, Muriel.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

GERAINT OWEN CARPEDI

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill, Bontnewydd

CARPEDI TEILS VINYLS
DEWIS MAWR O BATRYMAU

(01286) 650552 Mob. 07712779475



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Pwy oedd Enid Alafon?

Diddorol oedd derbyn llythyr Mrs Enid Jones (a ymddangosodd yn rhifyn Ebrill) yn egluro sut y bu iddi gael ei henw; a hynny oherwydd i'w mam fod yn gweini yng nghartref Alafon yn yr Ysgoldy a chyfarfod merch fach yno o'r enw Enid Alafon. Holai yn y llythyr pwy oedd y ferch fach. Dyma ran o'r ateb.

Yng Nghyfrifiad 1911 mae merch ddwy ar bymtheg oed yn byw yn yr Ysgoldy: Enid Jane Owen, sy'n cael ei disgrifio fel "adopted child", ac yn nith i Alafon. Yr hyn sy'n od yw i'r ferch nodi ei man geni fel Runcorn, Swydd Caer. Pa berthynas i Alafon oedd yn byw yno felly?

Rhaid oedd chwilio amdani yn y dref honno yn 1901, a chael y teulu yn byw yn Bentwick Street. Y fam oedd Selina Owen, gweddw ifanc 37 oed, gyda'i mab un ar bymtheg oed, Stephen Gale, ei meibion John G. Owen (8 oed) ac Owen G. Owen (3 oed) ac Enid Jane (7 oed). Ond roedd pob un o'r teulu wedi eu geni yn Runcorn, ac yr oedd cyfenw'r plentyn hynaf yn wahanol i'r tri ieuengaf. A oedd Selina yn weddw am yr eildro?

Ddeng mlynedd yn gynharach, yng Nghyfrifiad 1891, roedd llygedyn o oleuni. Yn Bentwick Street roedd Selina Gale, gweddw, a'i mab Stephen. Yno hefyd roedd Eleazar Owen, saer maen, genedigol o Glynnog. Ac o fewn rhyw ychydig wedi dyddiad y cyfrifiad roedd Selina Gale yn priodi Eleazar Griffith Owen ym mis Gorffennaf 1891. Eleazar oedd tad John, Enid ac Owen, ond bu yntau farw yn 1899 yn wr ifanc 42 oed. Gadawyd Selina yn weddw am yr eilwaith. Marw'n ifanc fu ei hanes hithau hefyd, a hynny'n 41 oed yn 1905. Byddai Stephen Gale, ei mab o'i phriodas gyntaf, yn ugain oed erbyn hyn, ac yn abl i edrych ar ei ôl ei hun – ond yn rhy ifanc i gymryd gofal o'i ddau frawd a chwaer iau. Felly, beth ddigwyddodd i'r plant amddifad?

Methais a dargafod beth ddigwyddodd i John, a fyddai'n ddeuddeg oed ar farwolaeth ei fam. Daeth Enid Jane i fyw i'r Ysgoldy yn

Erw Fair Native School.

Gyda diolch i'n colofnydd pysgota am anfon y llun. Mae Huw bellach yn 'pysgota' yn y gorffennol hefyd – a diolch iddo am hynny! Mae'r llun uchod yn ei feddiant, ac y mae enwau'r unigolion wedi eu hysgrifennu arno. Ond sut fath o 'ysgol' oedd hon, a pham ei galw yn 'native school'? Os edrychwch yn fanwl mae nifer o'r llythrennau wedi eu hysgrifennu o'r tu chwith, a'r rhif naw hefyd! Hyd yn hyn methais a darganfod unrhyw gyfeiriad ati. Felly'r cyfan a wyddom yw fod Erw Fair yn ardal Rhiwen, Deiniolen (neu Ebenezer bryd hynny), ac enwau'r rhai yn y llun, er nad yw'r ysgrifen yn hollol eglur bob tro.

Rhes gefn o'r chwith i'r dde: William Price, Rhiwen; Jane Price, Rhiwen; Sara Jones, Erw Fair; Ann Williams; Ellin Mary

Jones, Erw Fair; William Owen, ei brawd.

Rhes flaen o'r chwith i'r dde : William Jones (Wala?); Robert Williams; Edward Edwards, Standing; William Roberts, Pengolwg; Harri Williams (Llambd?); O.R.Jones, Erw fair; Robert Jones, (Fron L?).

Mae'n ymddangos hefyd fod 'binoculars' yn llaw O.R.Jones.

Mae'r cyfan yn y llun yn oedolion, felly rhaid dyfalu – a dyfalu'n unig – nad oeddent wedi derbyn addysg elfennol, ond yn cynnal rhyw fath o ysgol i oedolion ardal Pengolwg-Rhiwen. Ond dyfalu'n unig yw hynny. Pwy tybed oedd yr athro, a phwy oedd y ffotograffydd?

Os oes unrhyw un â mwy o wybodaeth am yr unigolion yn y llun, rhowch wybod.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

"adopted child" i Alafon, a rhestrir hi fel disgybl yn cael ei derbyn i Ysgol Brynrefail yn 1907 (Enid Jane Owen, Clwt y Bont). Aeth y brawd ieuengaf, Owen i ofal Cartref Bontnewydd.

Brawd Alafon oedd tad y plant. Alafon ac Eleazar oedd dau blentyn hynaf teulu Tafarn Pant Glas, plwyf Clynnog, ac yr oedd brawd arall, ieuengach, sef William. Aeth yntau i'r Weinidogaeth fel ei frawd mawr, ond i enwad y Bedyddwyr. Fel Alafon, roedd yntau'n llengar, ac yn ysgrifennu dan yr enw 'Llifon'.

Pan fu farw Alafon yn 1916, yr unig aelodau o'r teulu yn ei angladd oedd ei frawd William (a'i wraig), a'i nith, Enid Owen. Does dim son am John nac Owen a fyddai'n neiaint iddo. Gosodwyd blodau ar y bedd yn dilyn yr angladd gan Miss Enid Owen ac Eglwys Ysgoldy. Sefydlwyd cronfa i gasglu arian er mwyn codi cofgolofn ar ei fedd, ac ym mis Hydref y flwyddyn honno fe'i dadorchuddiwyd gan Enid Owen. Roedd £100 dros ben yn y gronfa, a defnyddiwyd yr arian i sefydlu ysgoloriaeth yn Ysgol Brynrefail.

Ond yn 'Hanes yr Ysgol Sir ym Mrynrefail' nid yw'r Parch John Pritchard yn sôn dim am arian o gronfa'r gofgolofn. Mae'n dweud fod Alafon "wedi gadael arian yn ei ewyllys i'w buddsoddi, fel y gellid rhoi y llog blynyddol yn wobwr gyfartal i'r tri uchaf yn yr arholiad am fynediad i'r Ysgol Sir... Buddsoddwyd £122 – 10 – 8 yn 1921, ac oherwydd yr amrywiaeth mewn llog, rhoddwyd gwobrau o £1-10-0 i gychwyn ond yn ddiweddar bu'n rhaid gostwng i £1-7-6." Cyhoeddwyd y llyfr yn 1940, felly, dyna pa mor 'ddiweddar' y cafwyd sôn am yr ysgoloriaeth. Beth ddigwyddodd iddi wedyn?

A beth tybed ddigwyddodd i Enid Owen, plentyn mabwysiedig Alafon, a oedd yn ferch ifanc ddwy ar hugain oed pan fu farw ei gwarchodwr?



ARVONIA

- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk

Newidiadau i'r Gwasanaeth Ieuentid – a'r oblygiadau i Glybiau Ieuentid y fro.

Yn sgil y tywydd garw a'r gwyntoedd ddiwedd Mawrth daeth storm wleidyddol yn dilyn penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd y byddai holl Glybiau Ieuentid y sir yn cau wedi'r Pasg gan arbed £270,000 o'r gyllideb. Adroddwyd y byddai un 'Clwb Sirol' yn cychwyn fis Medi ar gyfer ieuentid rhwng 11 ac 19 oed, gyda gweithiwr ieuentid llawn-amser ynghlwm â phob ysgol uwchradd. Roedd y protestio yn uchel ac yn groch gyda nifer o gyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn trefi a phentrefi ledled Gwynedd. Ac ar wahan i wrthwynebu'r cau, y brif gŵyn oedd na fu ymgynghori digonol.

Beth am gysidro'r ffeithiau?

Chwi gofiwch fod 'Her Gwynedd' rhwng **Medi a Rhagfyr 2015** wedi bod yr ymgynghoriad cyhoeddus mwyaf trylwyr erioed i'w gynnal o fewn y sir, yn gofyn barn trigolion, busnesau a sefydliadau am y modd o arbed arian tra'n ceisio cadw gwasanaethau. Toriadau ariannol llym gan y Llywodraeth Geidwadol Lundeinig oedd yn gyfrifol am hyn. (Un o'r canlyniadau fu cau llyfrgelloedd Deiniolen a Llanberis).

Un o'r dulliau i arbed arian oedd peidio a chynnal gwasanaethau nad oeddynt yn statudol.

Yn sgil canlyniadau 'Her Gwynedd' daethpwyd i'r penderfyniad ym mis **Mawrth 2016** fod angen torri cyllideb y Gwasanaeth Ieuentid, ac nad oedd yn bosib ei gynnal yn y ffurf 'draddodiadol'. Cynhaliwyd adolygiad trylwyr a manwl o'r gwasanaeth.

Mae cynnal Gwasanaeth Ieuentid yn statudol angenrheidiol. Nid oes rheidrydd statudol i gynnal Clybiau Ieuentid.

Cymeradwywyd yr adolygiad gan Gyngor Gwynedd ym mis **Hydref 2017**. Un o ganlyniadau'r adolygiad oedd "y dylai'r Gwasanaeth Ieuentid ganolbwyntio mwy ar helpu pobl ifanc i ddysgu a datblygu eu sgiliau personol, cymdeithasol ac addysgol mewn cyd-destun anffurfiol."

Cychwynnodd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ym mis **Tachwedd 2017** gyda'r dyddiad cau ar 22ain o **Ragfyr 2017**. Yng nghyswllt y Clybiau Ieuentid roedd 4 opsiwn yn cael eu cynnig fel ystyriaeth:

- Opsiwn 1. Cynnal 10 Clwb Ieuentid yn ystod tymor ysgol yn unig. (Doedd dim un o'r deg ym mro'r "Eco").
- Opsiwn 2. Cynnal 14 Clwb Ieuentid yn ystod tymor ysgol yn unig. (Dim ond Llanrug o fro'r "Eco" oedd ar y rhestr)
- Opsiwn 3. Sefydlu 'Clwb Ieuentid Gwynedd' gydol y flwyddyn, gyda rhaglen o brosiectau a gweithgareddau, a gweithiwr ynghlwm a phob ysgol uwchradd. Comisiynu'r Trydydd Sector i gynnal gweithgareddau.
- Opsiwn 4. Fel Opsiwn 3, ond yn hytrach na defnyddio'r Trydydd Sector, cynnig Grant Gymunedol drwy Cist Gwynedd.

Opsiwn 3 oedd yn cael ei ffafrio gan Gyngor Gwynedd.

Penderfynodd Cyngor Gwynedd ym mis **Ionawr 2018** o ganlyniad i ddiffyg ymateb gan gynghorau cymuned a thref, i lythyru'n uniongyrchol â hwy.

Beth oedd yr ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus hwn neu i lythyr Ionawr?

Mae pedwar Cyngor Cymuned o fewn ein bro.

Penderfynodd **Cyngor Cymuned Llanrug** (yng nghyfarfod Rhagfyr 2017) gefnogi yr ail opsiwn – a hawdd deall hynny oherwydd ei fod yn cynnig gwarchod Clwb Ieuentid Llanrug. Wedi deall na fyddai Cyngor Gwynedd yn dewis yr opsiwn hwnnw, galwodd Cyngor Llanrug am gael cyfarfod efo swyddogion Gwynedd er mwyn gweld a fyddai'n bosib i'r Cyngor Cymuned gynnal y Clwb Ieuentid lleol. Cafodd tri aelod o'r Clwb wahoddiad i'r cyfarfod hefyd er mwyn i lais yr ifanc gael ei glywed. Y gobaith yw y bydd Clwb Ieuentid Llanrug yn parhau o fis Medi ymlaen ar un noson yr wythnos gyda chymorth gwirfoddolwyr.

Mae **Cyngor Cymuned Llanddeiniolen** "wedi trafod y pwn" yn ystod cyfnod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus. Nid oedd y Cyngor yn cyfarfod ym mis Chwefror eleni tan ar ôl dyddiad cau yr ymateb i lythyr Gwynedd. Ond derbyniwyd sylwadau gan nifer o'r cynghorwyr. Mae Cyngor Llanddeiniolen bellach yn trefnu cyfarfod ym mis Mai efo'r Cynghorydd Craig ab Iago.

Mae'r Cynghorydd Elfed Williams, yr aelod ar Gyngor Gwynedd dros Ddeiniolen wedi gweithio'n ddiflino i geisio arbed Clwb Ieuentid Deiniolen. Galwodd sawl cyfarfod yn y pentref yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gofynnodd (fel aelod o'r Cyngor Cymuned) a fyddai Cyngor Llanddeiniolen yn ystyried dod a Chlwb Ieuentid Deiniolen dan ofalaeth y Cyngor. Mae'n ymddangos ar y pryd nad oedd y Cyngor yn awyddus i ariannu clwb mewn un pentref ar draul pentrefi eraill. Adroddodd y Cynghorydd Elfed Williams fod arweinydd Clwb Ieuentid Deiniolen yn fodlon parhau â'r gwaith am flwyddyn arall gan ddefnyddio arian o gronfa'r Clwb. Mae'n cyd-weithio gyda'r Swyddog Bro ac yn chwilio am grantiau ariannol tuag at gynnal y Clwb.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn Neiniolen ar 23ain o Ebrill yn enw 'Dyfodol Deiniolen', ac yr oedd parhad y Clwb Ieuentid gyda chymorth gwirfoddolwyr yn rhan o'r drafodaeth.

Mae **Cyngor Cymuned y Waunfawr** wedi penderfynu talu cost rhentu'r Ganolfan yn y pentref am un noson yr wythnos i'r Clwb Ieuentid.

Er fod yr "Eco" wedi cysylltu a **Chyngor Cymuned Llanberis** nid oedd wedi derbyn ymateb cyn i'r rhifyn hwn fynd i'r Wasg.

Aelodaeth

Diddorol yw edrych ar ystadegau aelodaeth y gwahanol Glybiau Ieuentid o fewn y fro, ond yn fwy arwyddocaol, y cyfartaledd presenoldeb ym mhob un. Derbyniwyd y wybodaeth gan Reolwr Gwasanaeth Ieuentid Gwynedd.

Llanrug: cyfarfod ar ddwy noson yr wythnos gyda 156 aelod, ond 27 yn mynychu ar gyfartaledd.

Deiniolen: cyfarfod unwaith yr wythnos gyda 64 aelod, ond 19 yn mynychu ar gyfartaledd.

Llanberis: cyfarfod unwaith yr wythnos gyda 48 aelod. Gan mai 7 aelod yn unig ar gyfartaledd oedd yn mynychu, cafodd y Clwb ei gau fis Tachwedd y llynedd, ond ei ail-agor eto fis Ionawr yn dilyn ymdrech targedu ieuentid y pentref.

Waunfawr: cyfarfod unwaith yr wythnos gyda 75 aelod, ond 23 yn mynychu ar gyfartaledd.

Bethel: Ni chafodd y Clwb ei ail-agor ym Medi 2017.

Penisarwaun: Wedi cau ers Ebrill 2016.

Roedd 343 o ieuentid y fro wedi ymaelodi yn y clybiau ieuentid lleol, ond mae'n ymddangos mai 76 ohonynt yn unig ar gyfartaledd oedd yn mynychu'r gweithgareddau. Tybed faint oedd yn ymwybodol o'r ystadegau hyn cyn y protestio?

Ôl-nodyn.

Mae'r adolygiad a gafodd ei gymeradwyo ym mis Hydref 2017 yn manylu'n drwyadl ar yr effeithiau posib ar y Gwasanaeth Ieuentid gan osod allan yr effeithiau negyddol a'r effeithiau cadarnhaol i ieuentid a chymunedau o fewn Gwynedd. Mae'n ddogfen gynhwysfawr sy'n llenwi bron i 60 tudalen. Teg gofyn a yw'r holl brotestwyr wedi darllen y ddogfen yn ei chyfanrwydd, ac y mae'r cwestiwn yr un mor berthnasol i rieni, cynghorwyr cymuned a chynghorwyr sirol.

Ond mae'n ymddangos nad dyma ddiwedd yr helynt. Erbyn i chi dderbyn y copi hwn o'r "Eco" bydd cyfarfod llawn o Gyngor Gwynedd wedi cysidro 'ail-ystyried' penderfyniad y Cabinet. Roedd y cyfarfod hwnnw ar ddydd Iau, 3ydd o Fai – yn rhy hwyr i adrodd arno yn y rhifyn hwn.

Caffi Picio'i-mewn



Nifer o ferched y pentref, rhai ohonynt yn aelodau o Bwyllgor y Neuadd Goffa, fu'n gyfrifol am sefydlu Caffi Pop-yp yn y neuadd. Ei nod yw codi arian tuag at gynnal y Neuadd Goffa, ond yn ogystal, yn rhoi cyfle i drigolion y pentref gyfarfod ei gilydd am sgwrs. Ar hyn o bryd, y bwriad yw ei gynnal ar y dydd Mawrth olaf o bob mis rhwng deg y bore a hanner dydd. Ac am y pris rhesymol o £2 cewch banded o de neu goffi, cacen (digon o ddewis!) a raffl. Cefnogwch.

ATYNIAD I'R PLANT Er y tywydd anffafriol dros wyliau'r Pasg bu Parc Adloniant Gelli Gyffwrdd yn gyrchfan boblogaidd. Mae hwn yn adnodd wyliau poblogaidd ac yn cynnig cyflogaeth i nifer o'r ardal. Mae'r perchnogion yn gefnogol i'r Gymraeg ac un o'r gweithgareddau atyniadol dros y gwyliau oedd ymweliad criw Cyw. Roedd y plantos wrth eu bodd yng nghwmni Ben Dant, Sam Tan, Superted Sali Mali, Dona Direidi a Huw y cyflwynydd. Rwyn siwr bydd haneswyr y dyfodol yn nodi rhan allweddol y rhaglen Cyw yn cynnal Cymreictod ym mlynnydoedd ffurfiol plant.

DIOLCH Unwaith eto eleni dymuna dosbarthwyr yr Eco ddiolch i chwi'n cefnogwyr ffyddlon am eich taliad blynyddol. Fe benderfynodd pwyllgor yr Eco gadw'r pris yr un fath eto eleni - 70c y rhifyn - gyda un rhifyn am ddim os cymerir yr opsiwn boblogaidd o dalu mewn un taliad o £7 y flwyddyn. Barn y mwyafrif yw fod hyn yn resymol iawn am bapur 32 tudalen.. Mae'n ymddangos fod y gwerthiant yn cynyddu yn raddol yma ym Methel hefyd. Dalwch 'mlaen i genhadu.

ADEILADU Mae gwaith paratoi at adeiladu wedi dechrau ar ddau leoliad ym Methel - yng Nghae Tan Capel, ac ar dir gyferbyn â Stâd Rhoslan mae'r tir wedi ei fesur ar gyfer y plotiau. Gobeithio bydd y ddau berchennog yn arddel enwau Cymraeg i'r ddau safle.

CYNGOR CYMUNED Cofiwch fod sedd wag i'w llenwi dros Ward Bethel. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch ag unrhyw un o'r tri cynghorydd presennol, Jane Pierce, Gareth Griffiths neu Richard Llwyd Jones.

LLONGYFARCHIADAU Braf cofnodi genedigaeth o ferch fach i Adam Stuhlfelder a'i bartner Natasha gynt o 21, Y Ddôl. Mae'r teulu bach wedi cartrefu yn Twtil, Caernarfon. Mae nain a taid Bethel - Ann a Steve - wedi gwirioni â'r wyres bach Eniyah Ciara Rose. Fe ddaw yr haf a chyfle i taid Steve - yr hen gôli - gerdded y fechan am dro wedi iddo cael llawdriniaeth yn ddiweddar a derbyn pen-glin newydd.

A draw yn 19, Y Ddôl mae Barry a Wendy Grail wedi dod yn nain a thaid balch. Draw yn Oldbury, Birmingham mae eu merch Manon a'i phartner Mark Allsop yn rieni i fab bach, Daniel Bryn.

YR WYL PAN-GELTAIDD Unwaith eto heidiodd y Cymry draw i Letterkenny yn Swydd Donegal i gefnogi'r Wyl. Yr oedd Geraint Brython (Seion) a Dafydd Emrys a Marged Rhys (Bethel) yn aelodau o Gôr Dre. Bu'r côr, dan arweiniad Sian Wheway (Llanrug) yn gyntaf mewn un cystadleuaeth ac ail mewn un arall.

Prif Gôr yr Wyl oedd Côr Dydd o Gaerdydd a gipiodd dair brif wobwr dan arweiniad yr amryddawn Huw Foulkes (Tyddyn Gwndwn, gynt.)

Diffibrilydd: Diolch yn fawr i'r rhai a drefnodd Cinio Gwyl Dewi yn y Neuadd Goffa ar Fawrth y 9fed, ac hefyd i bawb am gefnogi. Derbynwyd £100 tuag at yr achos.

Bellach, mae'r diffibrilydd cyntaf i fyny wrth ymyl prif fynedfa'r ysgol ac mae'r ail un wedi cael ei archebu. Bydd hwnnw'n ein cyrraedd ar Fai yr 8fed ac yn cael ei leoli ar wal allanol y Neuadd Goffa. Bydd cyfleoedd hyfforddiant CPR ychwanegol i ddod.

Diolchiadau Dymuna Shirley Jones, Tyddyn Andro Isaf, Bethel, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am eu caredigrwydd, y blodau, cardiau ag arian a dderbyniodd yn ardal Bethel a Deiniolen ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Aintree, Lerpwl, gwerthfawrogwn y cwbl. Diolch o galon, Shirley a Dilwyn Thorman.

Merched y Wawr Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Liz y Llywydd. Llongyfarchwyd dwy o'r aelodau, sef Delyth a Mabel, ar ddathlu pen blwyddi arbennig yn ddiweddar. Braf oedd cael cwmni Gwyneth Williams a Glenys Griffiths a deall bod y ddwy yn gwella. Penderfynwyd gyrru cofion aelodau'r gangen at Edwina Morris sydd heb fod yn rhy dda yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i rieni Nan Rowlands yn eu cartref newydd. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn gydag Alys a Gwyneth a'u gwŷr ar farwolaeth eu chwaer-yng-nghyfraith, a chwaer i Robin ac Idwal, yn ddiweddar.

Derbyniwyd llythyr gan Mr Richard Owen yn diolch i'r aelodau am y croeso cynnes a gafodd yng nghyfarfod mis Mawrth.

Cyflwynodd Liz ein gŵr gwadd am y noson, sef Mr Huw Price Hughes, a diolchodd iddo am ei barodrwydd i gamu i'r adwy ar fyr rybudd. Dyn prysur iawn yw Huw. Ers ymddeol o'r heddlu, mae'n cyfrannu colofn "Ar Ben Arall y Lein" i Eco'r Wyddfa a bu'n cynrychioli'r pentref fel Cynghorydd Sir am sawl blwyddyn. Yn ddiweddar, mae wedi bod yn ysgrifennu erthyglau i'r Herald Gymraeg. Nid pysgota oedd testun ei sgwrs, ond y byd "Tu Hwnt". Cychwynnodd drwy sôn am ei amser yn yr heddlu yn Wrecsam yn y saithdegau a chawsom hanes ysbryd y Barnwr Jeffreys. Yna dychwelyd i ardal ei febyd gan roi hanes rhai o'r ysbrydion yn ardal Deiniolen, Llanrug, Penygroes a Bethel.

Diolchwyd iddo am sgwrs ddifyr gan Liz. Enillwyd y raffl gan Gwyneth Jones.

Haelioni ETO



Ar ran tîm pêl-droed dan 8 Bethel hoffai Sasha Williams ddiolch i'r llu a gefnogodd trwy gyfranu at ymdrech aelodau'r tîm i godi arian yn ddiweddar. Llwyddwyd i godi £300. Yr her a wynebai'r bechgyn oedd rhedeg 1.2 milltir yn râs Gwib y Ddraig draw ym Mhorthaethwy. Y bwriad yw defnyddio'r arian i brynnu pabell i'w defnyddio i fochel/ gorffwyso pan fydd y tîm yn cystadlu yn y nifer o dwrnameintiau sydd ar y gorwel. Mor falch yw'r pedwar a redodd – Max Lawson, Steffan Morris, Deio Davies a Riley O'donnell – yn

gwisgo eu medalau. Ar y diwrnod ni allai Caio Orlik, Caio Jones ac Adam Daley redeg, ond mae'r tri yma hefyd wedi gweithio'n galed i gasglu noddwyr.

O dan hyfforddiant Andrew Williams (Klopp Bethel), nid yw'r garfan yma – sy'n fêts mawr – wedi colli gêm dros y dair tymor diwethaf. Edrychg ymlaen i'r gwahanol dwrnameintiau'r haf yw'r nôd bellach. Testun eitem i Ar y Marc dybiwn i.

Siân Gwenllian AC Plaid Cymru yn croesawu plant Ysgol Bethel i'r Cynulliad



Roeddwn i'n falch iawn i groesawu disgyblion Ysgol Bethel i'r Cynulliad yn ddiweddar a chael ymuno efo nhw yn ystod yr egwyl amser cinio. Gobeithio eu bod wedi mwynhau eu hymweliad â'r Cynulliad a Chaerdydd. Mae hi bob amser yn bleser cyfarfod disgyblion o Arfon, unai yn yr ysgolion neu yng Nghaerdydd, a chael cyfle i drafod be sy'n digwydd yn y Cynulliad gyda hwy – Siân Gwenllian AC

Cylch Meithrin Bethel:



Ar Fawrth 24ain cafwyd cyngerdd gwych yn y Neuadd Goffa yng nghwmni Arfon Wyn a'i ffrindiau er mwyn codi arian i'r Cylch Meithrin. Roedd yn brynhawn arbennig a gwnaed £720 o elw. Mawr yw ein diolch i Arfon Wyn am roi ei amser am ddim.

Yn ddiweddar derbynwyd siec hael iawn o £350 i'r Cylch gan Garej Volvo Ty'n Lôn, Llanfairpwll. Diolch o galon i chi am eich rhodd gwerthfawr.

'Rydym wedi derbyn anrheg gan gwmni Magnox yn ddiweddar hefyd, sef cegin fwd! Mae'r plant wrth eu boddau yn dysgu wrth chwarae gyda'r cegin yn ein ardal allanol. 'Rydym yn ddiolchgar iawn. Dyma Ted a Bobi o'r Cylch yn brysur yn ei ddefnyddio.

TUDALEN YR

IFANC



Pan ges i alwad ffôn yn cynnig trip i Leitir Ceanainn (neu Letterkenny) yng Ngorllewin Iwerddon, hefo llety a thrafnidiaeth wedi'i drefnu'n barod roeddwn i'n dechrau pacio cyn diffodd y ffôn. Doedd dim angen gofyn ddwywaith. Roeddwn i'n cael mynd i'r Wyl Ban Geltaidd ar yr amod mod i'n cymryd rhan yn un o'r cystadlaethau hefo gweddill y criw. A dyna ddigwyddodd.

Roedd cael cynrhychioli Cymru yn nghystadleuaeth y Grŵp Gwerin a'r gystadleuaeth 'Bysgio' yn fraint. Gyda Gwilym ar y gitâr, Iestyn ac Elidyr ar y ffidl, Beth ar y piano, finnau'n cloccio a phawb yn canu roedd hi'n brofiad a hanner cael rhannu'r llwyfan gyda fy ffrindiau. Ac roedd dod yn ail hefo'r Grŵp Gwerin a churo'r gystadleuaeth 'bysgio' yn eisin ar y gacen (ac yn achos dathlu am ddyddiau!). Dwi'n meddwl ei bod hi'n deg dweud fod Cymru wedi gadael eu marc eleni gyda chynrhychiolaeth yn derbyn gwobr yn bron pob un o'r cystadlaethau a hynny'n destun balchder i ni'r Cymry.

Fel yr oeddwn i wedi amau, roedd trigolion Letterkenny yn groesawgar a hynny'n gwneud y dref yn le gwell o'r eiliad cyntaf er fod ambell un heb unrhyw syniad pam fod cymaint o Gymry, Albanwyr, Llydawyr a rhai o Gernyw ac Ynys Manaw yn cerdded y stryd fawr gyda'i offerynau a'u gwisgoedd traddodiadol. Doedd hynny yn amharu dim ar hwyl y gwledydd Celtaidd wrth 'jamio' yn y tafarndai chwaith! Roedd teimlad cartrefol ym mhob rhan o'r dref a phawb yn gwerthfawrogi traddodiadau'u gilydd a'r gallu i siarad yn ein hiaith ein hunain. Roedd y Cymry, yr Albanwyr a'r Gwyddelod (yn amlwg!) yn eu hanterth yn Letterkenny gyda dau lond bws o Lydawyr a llond llaw o drigolion Ynys Manaw a Chernyw yno hefyd. Roedd hi'n sgwrs ddfyfr ar y daith o Ddulyn i Letterkenny - mae tua 3 awr a hanner yn amser hir mewn fan heb neb yn siarad! Testun un o'r sgysiau oedd mai bwriad gwreiddiol yr Wyl Ban Geltaidd pan ei sefydlwyd tua hanner canrif yn ôl oedd bod pob gwlad yn ei chynnal yn eu tro, ond aros a theithio o gwmpas Iwerddon mae'r Wyl wedi'i wneud. Wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen roedd yr un cwestiwn yn codi o hyd - a fuasai symud yr Wyl o wlad i wlad yn ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc ac yn tanio rhyw sbardun ymysg y bobl ifanc hynny i gadw traddodiadau yn y gwahanol wledydd? Buasai pob gwlad yn cael y cyfle i gynnal yr Wyl a'i pherchnogi yn eu tro. Pwy a wŷr, efallai y byddai'n gyfle i gadw'r traddodiadau sy'n prysur ddiffianu yn rhai o'r gwledydd Celtaidd pe bai'r cyfle ar gael.

Mae'n wir dweud mod i wedi gadael fy llais yn Letterkenny. Ond dydi hynny'n poeni dim arna i i fod yn hollol onest ar ôl wythnos mor wych yno. Beryg y bydd rhaid i mi fynd yn ôl flwyddyn nesaf i'w nôl o...dwi'n edrych ymlaen yn barod.

I Fight Lions

DO: Dan Owen (gitâr)

DT: Dan Thomas (bas)

I'r rhai sydd ddim yn eich 'nabod chi, pwy ydi I Fight Lions?

DO: Mae pedwar aelod yn y band – Hywel yw'r prif leisydd a fo sy'n sgwennu'r geiriau ac yn chwarae'r gitâr, fi sy'n chwarae'r gitâr flaen, y Dan arall sy'n chwarae'r gitâr fas a Rhys sy'n chwarae'r drymiau. Dwi'n meddwl y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn galw I Fight Lions yn fand roc o Ogledd Cymru, ond mi gewch chi lunio'ch barn eich hun pan fydd ein halbym newydd yn dod allan ar 15 Mehefin...

DT: Plyg bach neis yn fan'na, Dan

DO: ... Rydan ni wedi symud ymlaen o fod yn fand roc yn unig. Rydan ni'n fand amrywiol iawn, ac mae genon ni ganeuon newydd sy'n cynnwys sawl naws ac arddull gwahanol. Dydyn ni ddim yn trio ffitio i un genre penodol, rydan ni'n sgwennu'r caneuon fel rydan ni'n teimlo y dyliau nhw fod, boed hynny'n golygu defnyddio synth, llinynnau, neu be' bynnag.

Sut fuasech chi yn disgrifio eich sŵn?

DT: Mae gan bob un ohonon ni ddylanwadau gwahanol a dwi'n meddwl bod genon ni i gyd fel unigolion ein sŵn ein hunain sy'n gweddu hefo'i gilydd. Cafodd ein halbym cyntaf ei gymharu â stwff Arctic Monkeys a Franz Ferdinand. Mi fyswn i'n deud ein bod ni wedi esblygu heibio'r sain penodol hwnnw erbyn hyn, a byddwch yn gallu clywed yn ein halbym newydd fod pob cân yn teimlo'n wahanol iawn ond yn bendant yn dal yn swnio fel IFL.

Pwy yw eich arwyr cerddorol?

DO: Fel ddudodd Dan, mae gan bob un ohonon ni ein dylanwadau ein hunain sy'n ffurfio sain IFL, ond fel grŵp, dwi'n meddwl bod The Dear Hunter wedi cal llawer o ddylanwad arnan ni. Aethon ni i'w gweld nhw ym Manceinion gyda'n gilydd ychydig o flynyddoedd yn ôl. Maen nhw'n fand diddorol sydd ag offeryniaeth eang ac mae strwythur eu caneuon yn wych. Mae'r albym yn sicr wedi cael ei ysbrydoli rywfaint ganddyn nhw.

DT: Nhw a Toto, wrth gwrs. Africa di'n 'jam' ni.

Ydy'r ardal leol wedi dylanwadu ar eich sŵn o gwbl?

DO: Dwi'n meddwl bod na lot o fandiau lleol sydd wedi dylanwadu ar sut rydan ni'n chwarae.

DT: Fel Y Reu a Candelas, er enghraifft.

DO: Ond dwi ddim yn meddwl bod cymaint o fandiau â hynny yn y sîn Gymraeg leol mor drwm ag ydyn ni'n gallu bod weithiau. Ella bod glaw trwm Eryri'n rhywbeth i wneud hefo hynny! Mae llawer ohonon ni'n symud o gwmpas ac yn byw mewn gwahanol lefydd ar hyn o bryd, a dwi'n teimlo bod ein cerddoriaeth yn datblygu ac yn aeddfedu hefo ni. Felly, i ateb y cwestiwn, roedd daearyddiaeth yr ardal yn sicr yn dylanwadu ar ein deunydd cynharach, ond mae'n cerddoriaeth ni wedi esblygu ers hynny.

Mae hi wedi bod yn dipyn o amser ers y tro dwythia i chi ryddhau unrhywbeth. Lle da chi di bod?

DO: Ar ôl ein halbym gyntaf, symudodd ein basydd, Dave, i Gaerdydd. Mi wnaethon ni drio dal ati i gigio a chyfansoddi hefo fo a chael pobl eraill i gymryd ei le pan doedd o methu dod. Yn anffodus, arweiniodd hyn ato'n gadael y band, ond mi wnaeth Dan, ei frawd, sy'n dal yn byw'n lleol, gymryd ei le. Mi wnaethon ni ddechrau sgwennu caneuon eto, ond pan symudodd Rhys, y drymiwr, i'r brifysgol yn Llundain, arafodd y broses sgwennu eto. Rydyn ni wedi bod yn cyfansoddi'r rhan fwyaf o'n deunydd newydd ers y 2-3 blynedd ddiwethaf. Mae hi'n teimlo'n braf cael ryddhau deunydd eto.

Be ydi hanes eich sengl newydd, Calon Dan Glo?

DT: DanO wnaeth gyfansoddi'r riff agoriadol ar gyfer Calon Dan Glo. Dyma oedd sail y gân ac fe wnaeth gweddill y band adeiladu ar hynny. Roedd naws yr 80au i'r gân ac fe benderfynon ni llynu wrth y sain hwnnw. Hywel sydd wedi ysgrifennu'r geiriau a dwi'n meddwl eu bod nhw wedi'u hysbrydoli gan y nostalgia hwnnw gan eu bod yn seiliedig ar farn y gorffennol a'r presennol yn gwrthdaro ynghylch gwleidyddiaeth, ac fe glywir y cyfuniad o'r hen a'r newydd yn y gerddoriaeth hefyd.

Beth yw eich cynlluniau yn 2018?

DO: Rydyn ni wedi rhyddhau ein sengl newydd yn barod ac fe fydd yr albym yn dod allan ar 15 Mehefin. Ar ôl hynny, rydyn ni'n gobeithio teithio a chwarae cymaint o gigs â phosib. Byddwn hefyd yn cyhoeddi beth sydd genon ni ar y gweill yn yr Eisteddfod yn ystod yr wythnosau nesaf, ac rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at y gigs hynny.

DT: Rydyn ni wedi bod yn recordio rhywfaint o ganeuon Saesneg hefyd. Pwy a wŷr, efallai y byddwn ni'n rhyddhau albym arall cyn diwedd y flwyddyn...

Dymuniadau Gorau Pob dymuniad da i Bryn Owain Roberts, Bryn Tirion, sy'n brwydro yn erbyn salwch ers peth amser erbyn hyn. Gobeithio y daw dy iechyd da yn ôl i ti yn llawn dros y misoedd nesa 'ma Bryn.

Diolch Dymuna Muriel, Dilys a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Gwerthfawrogir yn fawr yr holl gardiau, blodau hardd a'r rhoddion tuag at Ymchwil Canser, Ambiwllans Awyr Cymry, a Tim Irfon. Diolch i'r Parch Christina McRae, Parch John Mathews, Parch Carol Roberts, Dr William Munro yr organydd, ac i Manon am roi teyrnged i Eric. Llawer o ddiolch i Meinir, Cyfarwyddwr Angladdau Dylan Griffith am eu gwasanaeth urddasol. Diolch yn fawr i bawb.

Ysgol Gymuned Penisarwaen Cydymdeimlad

Dymuna'r Ysgol a'r Gymuned gydymdeimlo'n ddwys iawn gyda Mrs Catrin Lloyd Roberts, y Pennaeth a'r teulu, yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Roedd Mr Idwal Lloyd Roberts yn Dad, Tad yng nghyfraith, Taid a Hen Daid arbennig iawn ac yn sicr bydd colled enfawr ar ei ôl.

Croesawyd Mr Selwyn Griffith, Rheolwr Menter yr Ifanc Gogledd Cymru, i'r ysgol fore Mercher, Ebrill 11eg. Cyflwynodd raglen "Ein Busnes" i ddisgyblion BL 5a6, roedd hyn yn rhoi cyfle iddynt ddod yn rheolwyr busnes trwy ddatrys problemau a chynllunio syniad busnes.

Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad, diolch yn fawr i Mr Griffith am ei gyflwyniad.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Mawrth oedd Mrs Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt gyda rhif 39. Llongyfarchiadau!

Gwellhad - Anfonwn ein cofion at Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr oedd Elinor Williams, Bryn Rhydd Mawr ac Eric Jones, 17 Bryntirion.

Rydym mor falch o gael dwy aelod newydd i'r Clwb Cant ac mae croeso mawr i eraill ymuno gan bod y Clwb Cant yn hwb tuag at y gost o reoli'r Neuadd. Bu 'Disgo'r Pasg' yn hynod lwyddiannus a diolchir i'r rhieni am ddod gyda'r plant ac am eu cyfraniad tuag at y stondinau a'r raffl. Byddwn yn trefnu gweithgareddau 'Miri Haf' ym mis Gorffennaf.

Eisteddfod Bentref Sadwrn, Mai Sed, bydd llond bws o gefnogwyr yr Eisteddfod Bentref yn mynd i Venue, Llandudno, i fwynhau arlwy Noson Lawen S4C - noson i ddathlu Caryl Parry Jones yn 60 oed gyda Dafydd Meredydd yn cyflwyno Caryl, Elan, Miriam a Greta, Eden, Steffan Rhys Hughes, Mared Williams, Gildas, Pedwarawd Pres a Chôr Ysgol Glan Clwyd. Bydd elw'r tocynnau yn mynd tuag at gronfa'r Eisteddfod Bentref ac rydym yn hynod o ddiolchgar i Olwen Meredydd am gofio amdanom eto eleni.

Cynhelir Noson Goffi am 6.30 ar Fai 23ain yn y Neuadd Gymuned. Byddwn yn rhannu Testunau'r Eisteddfod. Bydd yr ymarferion yn cychwyn ar Fehefin 6edd o 6 tan 7 o'r gloch.

Cydymdeimlad Dymuna aelodau Pwyllgor y Neuadd, aelodau Pwyllgor yr Eisteddfod a holl drigolion y pentref anfon eu cydymdeimlad dyfnaf at Mrs Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt, yn ei phrofedigaeth lem ac annisgwyl o golli ei mab, Eric Iolan. Bu Eric yn hynod gefnogol i weithgareddau Raffl y Pwyllgor Neuadd a'r Eisteddfod sawl gwaith ac mae pawb yn ddiolchgar i Dilys am ei chefnogaeth ffyddlon i bopeth yn y pentref.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrfa'r teulu oll.

Ysgol Sul Bosra Hwre! Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd wedi'r gaeaf oer. Bu'r plant yn canolbwyntio ar 'Fywyd Newydd' gan sylwi ar arwyddion y gwanwyn - enwi blodau gwylt a blodau'r ardd a blagur a dail y coed, enwi'r anifeiliaid sy'n deffro o'u trwmgwsg gan ganolbwyntio ar gylch bywyd y broga a'r llyffant.

Wedi 'Dameg yr Heuwr' cafodd pob plentyn gyfle i blannu dau hedyn 'Mari a Meri' nasturtiums mewn potyn gan ofalu dyfrio, gwrteithio a'u gosod yng ngolau'r haul. Bydd hen edrych ymlaen am yr eginio a'r blodeuo. Bu plannu hadau Blodau'r Haul y llynedd yn hynod o lwyddiannus, felly cresi bysedd y ceir llwyddiant eto eleni.

Eglwys St Helen Gwasanaethau Mis Mai

11yb Cymun Bendigaid pob dydd Sul

Bingo Arian

Cynhelir bingo arian yn neuadd yr Eglwys yn ystod Mis Mai Nos Fercher 9fed, 16eg a 30ain am 7yh, mae y "jackpot" nawr yn £200, rydym yn rhanu yr elw ar nos fercher y 9fed o Fai i wahanol elusenau a mudiadau lleol, croeso i unrhyw fudiad rhoi cais i fewn am arian drwy Selwyn Griffith, Jean Jones neu Janet Ash erbyn y 7fed o Fai.

Disgo

Fe gynhelir Disgo yn neuadd yr Eglwys nos Iau Mai 17eg am 6.30yh, fe drefnir y noson gan bwyllgor y carnifal ac fe gesglir enwau i fewn ar gyfer Brenhines y Carnifal a'i chwrt yn ystod y noson.

Bingo


Fe gynhelir Bingo yn neuadd yr Eglwys Nos Iau Mehefin 7fed am 6.30yh, fe drefnir y noson yma gan bwyllgor y carnifal ac fe ddewisir enwau Brenhines y Carnifal a'i chwrt yn ystod y noson.

Wythnos gweithgareddau a Carnifal

Cynhelir yr wythnos weithgareddau flwyddyn yma o Fehefin 25ain - Gorffennaf 1af

Nos Lun 25ain Bingo, Nos Fawrth 26ain Gyrfa Chwist, Nos Fercher 27ain Mabolgampau, Nos Iau 28ain Disgo, Nos Wener 29ain Helfa Drysor Dydd Sadwrn 30ain Y Carnifal Dydd Sul Gorffennaf 1af Gymanfa Ganu.

Bydd manylion pellach yn cael ei argraffu yn y rhifyn nesaf.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

Ffoniwch

ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



Ysgol Brynrefail

Annog disgyblion Ysgol Brynrefail i ystyried prentisiaethau

Daeth prentis Peirianeg Awyrenyddol i siarad â disgyblion blwyddyn 11 yn ei gyn ysgol a'u hannog i ystyried prentisiaeth fel llwybr gyrfa o'u dewis.

Mynychodd Tomos Jones o Lanrug Ysgol Brynrefail gan astudio Lefel A mewn Ffiseg, Mathemateg a'r Fagloriaeth Gymraeg a mynychu Coleg Menai, Bangor yn rhan amser i astudio BTEC Lefel 3 mewn Peirianeg. Ychydig dros ddwy flynedd i mewn i brentisiaeth gyda Airbus mae ar y ffordd i gymhwyso ac yn gobeithio gwnaiff ei hanes ysbrydoli disgyblion Ysgol Brynrefail i ystyried prentisiaethau yr allwedd i lwyddiant gyrfaol.

Dyweddodd Tomos:

'Dechreuais fy mhrentisiaeth ym Medi 2015. Treuliais y 7 mis cyntaf yn llawn amser yng Ngholeg Cambria, Glannau Dyfrdwy lle cawsom brofiad ymarferol yn y gweithdy ochr yn ochr â'n astudiaethau academaidd. Wedi hynny fe dreuliasom weddill y ddwy flynedd yn cylchdroi o gwmpas adrannau gwahanol o fewn y ffactri yn dysgu am wahanol agweddau o'r busnes. Rwan, yn fy nhrydydd flwyddyn, rwy'n gweithio tuag at fy ngradd BEng mewn Peirianeg Awyrenyddol a Chynhyrchu trwy Brifysgol Abertawe.

'Mae'r holl raglen prentisiaethau wedi agor drysau i mi ac fe fydd yn rhoi'r holl brofiadau, sgiliau a chymwysterau i mi rydw i eu hangen i ddatblygu fy ngyrfa yn y dyfodol'.

Mae Rhaglen Prentisiaethau Cymru yn cael eu harianu gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd.

Am fwy o wybodaeth am ddod yn brentis, cysylltwch â

www.careerswales.com or call 0800 0284844, logiwch mlaen i www.facebook.com/apprenticeshipscymru, @apprenticewales ar Twitter a dilyn y stori yn defnyddio'r hashtag #AWWales.



Alffa yn mynd o nerth i nerth

Mae'r grwp yma sy'n cynnwys dau aelod o flwyddyn 13, Dion Jones a Sion Land newydd ryddhau sengl o'r enw 'Creadur' sydd wedi cael adolygiadau da iawn. Mae'r gân wedi cael ei defnyddio ar 'Rownd a Rownd'. Mae ganddyn nhw hefyd Sesiwn Radio Cymru allan sy'n cynnwys tair cân 'Tomos Rhys,' '13.11.15' a 'Mwgd!' Mae'r caneuon yma wedi cael eu chwarae ar lwyth o raglenni radio ar draws Cymru. Mae gan Alffa gig arbennig sydd yn digwydd yn fuan sef Focus Wales yn Wrecsam. Dyma'r gig mwyaf maen nhw wedi ei chwarae erioed – pob lwc hogia!



Prosiect Ysgolion Creadigol

Mae set 3 Saesneg blwyddyn 10 wedi bod yn rhan o brosiect eleni wedi ei ariannu gan y llywodraeth i gefnogi a gwella eu hyder yn Saesneg. Maent wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn canolbwyntio ar wella eu Saesneg llafar. Mae bl10 wrthi'n cwblhau gwaith yn ymateb i'r pwnc 'Trosedd a Chosb', rhoddodd y prosiect sylw felly i'r gwaith yma. Creodd y disgyblion gymeriadau, monologau a sgriptiau a hefyd actio, cyfweld a rheoli yr holl broses ffilmio. Gweithiodd yr holl fyfyrwyr yn hynod o galed a mwynhaodd aelodau'r adran Saesneg weithio gyda phob unigolyn.



Dreigiau

Cynghrair dan 15, curo Walis Goch 25 - 20. Un gêm ar ôl ac yn brwydro am yr Zail Safle mewn cystadlaeth o safon uchel.

Da iawn genod.



Rownd cyn derfynol dan 18 Cwpan Cymru, Ysgol Brynrefail 3 Ysgol Bro Myrddin 0. Thomas Collins, Harri Tulliver a Iwan Parry yn sgorio. Rownd derfynol yn erbyn Ysgol Teilo Sant nesaf.

Da iawn hogiau.

Eglwys Crist


Cafwyd gwasanaeth arbennig iawn yn Eglwys Crist, Llandinorwig ar Sul y Pasg ac roedd cynulleidfa luosog o bob oed yno. Y Canon Idris Thomas oedd yn arwain y gwasanaeth a'r organyddes oedd Eleri Bean. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Brian Price a Ceinwen Jones. Yn bresennol roedd plant yr Ysgol Sul gyda'u rhieni a'u hathrawon a chafwyd eitemau ardderchog ganddynt ar thema'r Pasg. Diolch i Deion, Guto, Efa Jên, Glesni, Cynan, Shane a Jessica am eu cyfraniad ac hefyd i'w hathrawon Eileen Hughes, Gwen Griffith a Rhianwen Jones. Derbyniodd y plant wyau Pasg ac roedd rhai i'r gynulleidfa. Yn ogystal cafodd pob plentyn rodd o lyfr Cymraeg yn adrodd Stori'r Pasg. Yr ystlyswyr yn y gwasanaeth oedd Len Jones a Daryl Williams a diolchir i Daryl am ganu'r gloch. Hyfryd oedd cael y Canon Tegid Roberts a'i briod Nant yn bresennol. Bu'r Canon Tegid yn offeiriad gweithgar yn Llandinorwig ar un cyfnod. Mwynhaodd pawb y gwasanaeth; roedd yn fendithiol iawn a chafwyd Sul y Pasg i'w gofio.

Diolchiadau Dymuna Shirley Jones, Tyddyn Andro Isaf, Bethel, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am eu caredigrwydd, y blodau, cardiau ag arian a dderbyniodd yn ardal Bethel a Deiniolen ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Aintree, Lerpwl, gwerthfawrogwn y cwbl. Diolch o galon, Shirley a Dilwyn Thorman.

Dymuna Joan Parry, 3 Tai Gwyrfa, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ag anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80.

Profedigaeth Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Glenys Jones, Celyn, yn dilyn ei marwolaeth diweddar.

Cydymdeimlir hefyd gyda theulu Helen Jones, Tai Caradog, yn dilyn ei marwolaeth ar ôl brwydr ddewr.



Llwyddiant

Wedi diwrnod hir, llongyfarchiadau enfawr i Erin Wyn, drwodd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanellwedd yn cynrychioli Arfon. Cafodd gyntaf ar yr Alaw Werin, cyntaf gyda Ymgom a Côr Ysgol Gwaun Gynfi a chyntaf gyda Lleisiau Llanbabs.

Gŵyl Deiniolen 2018



Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am gael eu dewis ar gyfer Cwrt Gŵyl Deiniolen 2018

Brenhines - Erin Wyn Williams

Tywysoges - Ella Taylor

Tywysog - Tryfan Jones

Merch y Blodau - Eilw Fraser Hughes

Tywysog bach - Callum Evans

Glenys Lloyd Jones

Dydd Iau, Ebrill 12fed, yn Amlogfa Bangor bu cynhebrwng Glenys Lloyd Jones, Celyn, Deiniolen a daeth tyrfa deilwng ynghyd. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Fawrth 31ain, yn 85 mlwydd oed. Gwasanaethwyd gan y Canon Idris Thomas, Glanrafon a siaradodd Idris yn hyfryd iawn amdani. Roedd yn fam annwyl i'w mab Guto, yn nain hynod gariadus a charedig i Daniel a Sam, yn chwaer hoffus i Eurwen a Mary a'r diweddar Orwig, yn fodryb hoff ac yn briod annwyl i'w diweddar wr, Gordon. Fe'i ganed ar aelwyd "Bryn Peris", Y Fachwen, yn un o bedwar o blant i William Orwig a Catherine Jane Jones. Pan yn saith oed symudodd gyda'r teulu i rhif 28 Hafod Oleu yn Neiniolen. Fel gweddill y plant derbyniodd ar yr aelwyd fagwrfa dda a mynychodd ysgolion Dinorwig, Deiniolen ac am gyfnod byr ysgol yng Nghaernarfon. Pan yn bedair ar ddeg oed aeth Glenys i weithio i siop Pollecoffs ym Mangor a wedyn aeth i ffatri Ferranti yn y ddinas. Hanner canrif yn ôl daeth i Celyn ac roedd wrth ei bodd yno ymysg yr anifeiliaid; roedd llu o gwsmeriaid ganddi ymhobman yn prynu wyau a gwerthid twrciod adeg y Nadolig. Cefnogai siopau lleol ac roedd yn dreifio hyd y diwedd. Bu hi a'i mab, Guto, ddwywaith i ymweld â'i chwaer Eurwen sy'n dal i fyw yn Ne Affrig a olygai taith hirfaith. Bu'n gweini yn arbennig ar ei phriod Gordon pan drawyd ef ag afiechyd blin a chreulon hyd ei farw yn Ionawr 2017. Roedd yn berson llawn egni, byth yn llonydd, yn dawel ei byd. Meddyliai y byd o'i hwyrion Daniel a Sam sy'n byw yn Llangefni. Trefnwyd y cynhebrwng gan Meinir Griffith o Dylan Griffith, Tros y Waen, Penisarwaen.

Mynwent Eglwys Crist Llandinorwig Mae tymor torri gwair y fynwent wedi cyrraedd, a diolch eto eleni i Mr Berwyn Jones am ymgymryd â'r gwaith. Diolchwn i'r caredigion canlynol am eu haelioni er mwyn i ni allu mynd ymlaen â'r gwaith:

Mrs Anwen Roberts, Rhuddlan: £20

Ernest a Margaret Ellen Jones, 7 Porth y Gogledd: £10

Mrs Elizabeth Williams, 14 Rhydfadog: £10

Mrs Iona Owen, 14 Trefonwys Bangor: £10

Diana, John, Rosina ac Eileen, Y Fron: £100

Mrs MC Jones, Tan y Caerau: £10

Mrs Dilys Williams, 4 Llys y Gwynt, Penisarwaen: £20

Mr a Mrs Roland Fleming, Llanrug: £20

Mrs Bethan Jones, Llys Derwen, Llanrug: £50

Mr Gethin Griffith, (Llys) Llundain: £50

Mrs Laura Hosker, Cefn y Waen: £25

Mrs Margaret Williams, Ael y Bryn: £25

Mrs Mair Roberts, Rhiwlas: £25

Mrs Nesta Barton, Godre'r Foel: £25

Mr a Mrs John Parry, Penygroes: £20

Di-enw: £10

Di -enw: £10

Dr William Munro a Miss Helen Evans Munro: £10

Bydd Mrs Gwen Griffith, Y Fron, neu Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu, yn falch o dderbyn eich rhoddion neu unrhyw aelod arall o'r eglwys.

Llwybr Llechi Eryri

Derbyniwyd diolchiadau gan drefnwyr yr uchod am gyfraniadau hynod werthfawr a gafwyd yn yr ysgol gan drigolion y pentref a thu hwnt tuag at y broses o hel deunydd i gyfoethogi profiad pobl sy'n cerdded y llwybr. Mae'r byrddau gwybodaeth yn cynnwys nifer helaeth o'r lluniau a gafodd eu hel yn ystod y cyfarfodydd, maent i'w gweld os ewch ar y safle we canlynol: <https://www.snowdoniaslatetrail.org/index.php/lleisiau-r-llechi.html>

RHOSTIO MOCHYN
 Gyda saws afal a stufffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR *DEWGS MAE O'N FLASUS*
 PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
 BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU
 CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
 Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
 Symudol- 07798 718188

Diolch Dymuna Nia Oliver, Gors, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Brysiwch wella! Mae'r plant yn siŵr yn Ysgol Gymuned Cwmyglo yn edrych ymlaen am i chwi ddychwelyd i'w plith yn fuan.

Sefydliad y Merched Bu llawer o wahanol weithgareddau yn mynd ymlaen yn ystod y mis diwethaf. Cafwyd Sioe Ffasiynau yng Ngwesty San Siôr yn Llandudno a nifer o'r aelodau yn modelu dillad o 'Edingburgh Woollen Mill'. Gwnaeth Shirley, Vera, Dwynwen a Gwen waith campus. Paratowyd te prynhawn gan y gwesty a fwynhawyd gan bawb.

Cynrychiolwyd y gangen leol yng Nghynhadledd Cymru yn y Drenewydd gan ein hysgrifennydd, Carol Houston. Cafodd gyfle i wrando ar siaradwyr arbennig yn ogystal ag ymuno y noson cynt mewn grŵp i wrando ar straeon ysbrydion yn y dre!

Carol Houston hefyd oedd yn gyfrifol am gyfarfod mis Ebrill o'r gangen leol. Rhoddwyd croeso i dair aelod o Gangen Pontrug i ymuno â'r aelodau mewn gêm Boccia dan gyfarwyddwyd Pat Jones a Carol. Bydd gêm gyn-derfynol Grŵp Eryri yn y Ganolfan yn Llanberis brynghawn Gwener, Mai 11eg, rhwng 2 a 4 o'r gloch gyda holl dimau'r Grŵp yn cymryd rhan. Bydd y Rownd Derfynol yn y Ganolfan nos Wener, Mai 25ain, am 7 o'r gloch lle bydd timau o'r pedwar grŵp yn y Ffederasiwn yn cystadlu.

Bydd Sefydliad Brynrefail yn cynnal noson Bingo yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis nos Lun, Mai 14eg, am 7 o'r gloch. Blodau fydd thema'r noson gyda'r gwobrau yn adlewyrchu hynny. Mrs Sonia Williams fydd y wraig wadd yng nghyfarfod mis Mai yn trafod Hyder Lliwiau a bydd cyfle hefyd i drafod a phleidleisio ar yr argymhellion a gyflwynir yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir eleni yng Nghaerdydd ar Fai 6ed.

Yr Eglwys Bresbyteriaid Gwasanaethwyd yn oedfa'r Pasg gan ein Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

Nid oedd y Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn, yn gallu bod gyda ni ar Ebrill 22ain ond rydym yn edrych ymlaen am ei gwmni yn

gwasanaeth ar Orffennaf 15fed. Trefnwyd oedfa gan Gwyn Hefin Jones ar y thema 'Cariad' gyda deunydd o safle'r we 'Beibl.net'. I gloi'r gwasanaeth cafwyd adroddiad gan Lowri Prys Roberts o'i hymweliad â Chymdeithasfa'r Gogledd a gynhaliwyd yn Lerpwl ar y 17eg a'r 18fed o Ebrill.

Roedd yn fraint cael cynrychioli Henaduriaeth Arfon a bod yn bresennol yn y Sasiwn oherwydd rhai cysylltiadau â'r Eglwys yma ym Mrynrefail ymhlith gweithgareddau'r deuddydd. Ysgwyddwyd y gwaith o drefnu'r Sasiwn yn lleol yn Lerpwl gan un o flaenoriaid Bethel, Heathfield Road, sef y Dr John Williams. Efallai y bydd rhai o'r to hŷn yn y fro yn cofio ei daid, Y Parch Robert Williams, yn weinidog cymeradwy yma ym Mrynrefail rhwng 1927 a 1942. Ymhlith y blaenoriaid o Sasiwn y Gogledd y coffawyd ac y darllenwyd eu henwau fore Mercher yr oedd dau o'n diweddar flaenoriaid – Bertie Lloyd Roberts a Jennie Angharad Roberts a hynny gan ein Gweinidog sydd ar hyn o bryd yn Ysgrifennydd Sasiwn y Gogledd. Llawenydd hefyd yn yr eisteddiad fore Mawrth oedd cael llongyfarch ein Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson, ar ddathlu deugain mlynedd yn y Weinidogaeth. Yr un modd llongyfarchwyd y Parch Trefor Lewis a ddechreuodd ei weinidogaeth yn Neiniolen yr un pryd a'n Gweinidog yn Llanberis yn 1978. Un o frodorion y Fachwen yn ei ddyddiau cynnar a longyfarchwyd hefyd oedd y Parch Tudur Rowlands ac ef yn dathlu hanner can mlynedd yn y Weinidogaeth.

Oedfaon Mai

- 6: am 5 Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
 - 13: am 5 Parch Ddr Huw John Hughes, Porthaethwy
 - 22: am 2 Parch Olwen Williams, Tudweiliog
 - 29: am 5 Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
- Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

Pigion Byd Natur

Newid Trywydd!



Y mis hwn dyma newid trywydd rhyw gymaint, ac y mae'n rhaid i mi ga'l egluro'n y fan a'r lle mai 'trywydd' sydd dan sylw, ac nid 'tywydd'. Credaf fod 'na goel yn Arfon yng nghyffiniau Clynnog mi dybiaf, bod eu dyfodiad i'r lan yn argoeli tywydd eithaf garw. Cystal tewi am hwnnw! Ie! y tywydd a feddylir, ac nid morloi!

Creaduriaid gwaed cynnes ydynt, a dreulia'r rhan fwyaf o'u hamser yn nofio, a hynny er mwyn hela pysgod i'w bwyta; hynny'n nyfroedd y moroedd, yn ogystal â'r glannau. Gallent amrywio ran maint corfforol, ac hefyd ran nifer.

Y lleiaf o ddigon (fel finna 'ran maint am wn i) ydyw'r morlo cylchog sy'n pwyso 65kg, tra'r mwyaf o deulu lluosog y morloi ydyw'r morlo eliffant, a fydd wedi iddo brifio i'w lawn maint, yn pwyso hyd 4 tonnell.

Ar ein harfordiroedd ni yma yng Nghymru cawn morloi llwyd/morloi llwyd Môr Iwerydd. Dyma greaduriaid sy'n tyfu hyd at 2.56metr ran hyd, a gall yr oedolion yn eu plith bwysu ymhell dros 300kg.

Prif fwyd morloi, fel y dywedwyd eisoes, ydyw pysgod, a phan fo ar gael ddyn, sy'n dibynnu bron yn gyfan gwbl ar gynnyrch y moroedd am ei gynhaliaeth, hawdd canfod yr elyniaeth rhyngddo â'r creaduriaid dan sylw, ac nid ydi hi, ran amser, wyddoch chi, mor bell yn ôl a hynny pryd ceid hela morloi'n ddirugaredd a'u lladd.

Fodd bynnag, mewn ambell le yn yr hen fyd ma, coleddir coel ei bod hi'n anlwcus lladd morlo. Hyn i gyd, oherwydd mai eneidiau morwyr a gollwyd ar y moroedd ydynt! Ar yr arfordir, a hynny yng ngorllewin yr Iwerddon Rydd, ein chwaer-wlad Geltaidd, dywedir am gewyll cimychiaid, sydd â chigoedd morloi yn abwyd ynddynt, na fyddent yn hudo cimychiaid yno, ond yn hytrach digonedd o gerrig!

Egarychod. Dyna chwi glamp o enw! Beth ydynt? Gadewch inni droi at Plu Stiniog (2009), llyfr y diweddar awdur amryddawn a sgotwr dan gamp, sef Emrys Evans, Manod, Blaenau Ffestiniog, a'i ddisgrifiadau bywiog tra'n trin a thafod plu pysgota:

'...ychydig iawn o sgotwrs fydda i'n ei glywed erbyn heddiw yn sôn ac yn crybwyll egarychod. Roedd y plu yma'n bwysig iawn gan yr hen sgotwrs, yn arbennig felly ym mis Gorffennaf, pan yn pysgota yn y nos ac yn ystod y dydd.'

Yn eu plith ceir egarych dyfrgi, gochddu, melyn budr, ac yn ôl Emrys Evans un o'r patrymau a ddefnyddid i sgota llynnoedd yn nalgylch tre y llechi ym Meirionnydd ydoedd:

Egarych corff, a dalier sylw ar hyn i gyd:

Blewyn morlo wedi'i lifo'n wyrdd golau, ac hwnnw wedi'i amgylchu â chynffon paun. Gwneud y corff yn fain ac yn weddol fyr.

Do! bu 'na fynd ar un cyfnod ran amser ar blu peunod Neuadd Glasgoed! Ond hyd y gwn, ni welais 'r un bluen hardd wedi teithio cyn belled â Blaenau Ffestiniog! Gwn bod rhai o'n sgotwrs lleol yn cawio a pharatoi plu sgota eu hunain, ond tra wrthi, a wnaethant ys gwn i ddefnyddio blew morloi? Os digwyddodd hynny, yna beth am sgwennu atom ni i Eco'r Wyddfa?



DROS Y PAS - taith ffotograffig o Lanrwst i Lanberis

Mae nifer ohonom yn teithio i'r gwaith ar hyd yr un ffordd bob dydd, ond faint ohonom sy'n sylwi ar yr ardaloedd yr awn trwyddynt? A sawl un ohonom fyddai'n meddwl cofnodi'r daith honno?

Dyna'n union sydd i'w weld mewn arddangosfa newydd yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis. Mae DROS Y PAS yn gofnod o daith a wnaed tua 6,000 o weithiau dros gyfnod o 20 mlynedd gan un o gyn-staff yr Amgueddfa – o Lanrwst yn Nyffryn Conwy i Lanberis ar odre'r Wyddfa.

Cafodd y ffotograffau eu tynnu rhwng Gorffennaf 1989 a mis Medi 2009 gan O. Tudur Jones, cyn swyddog arddangosfeydd Amgueddfa Lechi Cymru, ac maent yn dogfennu'r daith o gartref Tudur bob bore – dros Bont y Pair ar y B5106 i Betws-y-coed, ar hyd yr A5 i Gapel Curig a dros y bwlch i Lanberis. Mae lluniau o'r daith yn ôl hefyd, yn dilyn yr un ffordd oni bai fod glaw neu eira yn gorfodi Tudur i fynd ar hyd yr A470.

“Ystyriwn fy hun yn berson lwcus o gael cyflawni taith dyddiol o harddwch naturiol fel hyn. Byddwn ambell dro yn cyrraedd lleoliad yn annisgwyl, a gweld fy hunan mewn goleuni syfrdanol. Fe'm syfrdanwyd droeon wrth sylwi fod pob dydd yn wahanol ar y daith a fyddwn i byth yn blino ar weld y prydferthwch bendigedig. Rhaid cyfaddef mai tasg anodd oedd gorfod canolbwyntio ar

ddiwrnod o waith ar ôl profi bendithion fel hyn. Mi roedd yna hefyd ochr arall i'r daith nad oeddwn yn rhy hoff ohoni, a hynny pan ddeuai'r nosweithiau hydrefol, a'r curlaw a'r gwyntoedd yn beichio wylo arnaf ar fy nhaith yn ôl i Lanrwst wedi diwrnod hir.”

Mae'r rhan fwyaf o'r lluniau wedi'u tynnu ar gamera ffilm Canon bychan oedd gan Tudur ar y pryd, cyn dyddiau'r camera digidol. Mae'r lluniau heb eu ffiltro, ac mae'r arddangosfa yn debyg mewn ffordd i gyfrifon Instagram y dyddiau hyn - fel mae Julie Williams, Swyddog Marchnata Amgueddfa Lechi Cymru yn esbonio:

“Yr hyn sy'n ddiddorol am gasgliad Tudur yw eu bod yn gofnod – nid yn unig o'i daith ef – ond o foment mewn amser, mewn ardal arbennig o hardd. Yr hyn sy'n eich taro yw cyn lleied sy'n newid – y ceir, a dillad pobl efallai, ond mae'r olygfâ'r un peth, wastad yn odidog ac ysbrydoledig. Pa ryfedd bod ffotograffwyr yn gwirioni ar y lle, er eu bod heddiw yn gallu rhannu eu lluniau yn syth!”

Mae'r arddangosfa i'w gweld tan 22 Mehefin 2018. Mynediad am ddim. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Amgueddfa ar (029) 2057 3700. @amgueddfalechi

Am fwy o wybodaeth neu i drefnu sgwrs a Tudur Jones neu mwy o ffotograffau cysylltwch â Julie Williams ar (029) 2057 3707 julie.williams@amgueddfacymru.ac.uk. Mae ffotograffau ar gael.

Aelod Cynulliad Arfon yn llongyfarch ymgyrchwyr lleol ar sicrhau arian i ddatblygu dau gynllun beicio

Yn dilyn y cyhoeddiad bod arian wedi ei glustnodi ar gyfer cam cyntaf datblygiad lôn feicio 'castell i gastell' rhwng Llanberis a Chaernarfon daeth rhagor o newyddion da i ran cynllun Hwb Eryri wrth i Gyngor Gwynedd gytuno i roi arian datblygu i barc beicio blaengar a chyffrous yn ardal hen chwarel Glyn Rhonwy.

Bu Aelod Cynulliad Arfon, Siân Gwenllian, yn trafod gyda Stephen Edwards o Hwb Eryri, cwmni sydd yn ceisio denu datblygiadau awyr agored i'r ardal, a Dafydd Whiteside Thomas a fu'n ymgyrchu'n frwd ers blynnyddoedd dros gael lôn las ddiogel i feicwyr a cherddwyr, i'w llongyfarch ar eu llwyddiant.

“Rydan ni'n byw mewn ardal mor hyfryd ac mae pobol leol a thwristiaid fel ei gilydd yn mwynhau manteisio ar weithgareddau antur ac awyr agored sydd yn rhoi'r cyfle iddyn nhw fwynhau yr holl gyfoeth sydd gennym i'w gynnig yn yr ardal hon,” meddai Siân Gwenllian. “Mae Hwb Eryri wedi gweithio'n galed iawn ar gynllun y lôn feics sydd rŵan gam yn agosach at ddod i ffrwyth, a gydag addewid pellach am arian i ddatblygu'r syniad o barc beicio mi fyddai'r ddau gynllun yn plethu i'w gilydd yn wych ac yn creu atyniad gwirioneddol ardderchog i'r ardal hon.”

Gweithio ar budd economi ardaloedd gwledig yw nod Hwb Eryri sydd a'i bencadlys yn Llanberis, ac mae'r datblygiadau ddiweddaraf yma yn gyffrous iawn.

“Rydan ni'n croesawu'n fawr yr arian yma mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn fodlon ei fuddsoddi i alluogi inni fynd ati greu adroddiad yn edrych ar wahanol ffyrdd o greu parc beicio a fyddai'n dod â'r budd mwyaf i ardal Llanberis,” meddai Stephen Edwards o Hwb Eryri. “Ein gweledigaeth ni yw i greu parc 'reidio rhydd' cyntaf Prydain, sef parc sydd yn addas i bawb beth bynnag fo eu gallu a'u profiad. Mi fydd yna lwybrau a fydd yn addas i



deuluoedd a rhai ychydig yn fwy heriol, ond mi fydd yma rywbeth i bawb. Mae beicio yn weithgaredd boblogaidd iawn, ac rydym yn awyddus i fanteisio ar hynny gan gynnig cyfleon hamdden unigryw i'r bobol sy'n byw yma ac i'r rhai sydd yn ymweld.

“Mi fydd hwn yn atyniad fydd yn denu'n lleol ac o ardaloedd ar draws y gogledd gan ein bod mor agos at yr A55. Ac nid dim ond beicwyr fydd yn cael croeso – y bwriad yw i greu llwybrau cerdded hefyd ac ardaloedd i wyllo adar a bywyd gwylt. Mae'n gynllun cyffrous ac yn rywbeth mae Hwb Eryri ynghyd ag ymgyrchwyr lleol wedi bod yn anelu ato ers tro byd.”

Meddai Dafydd Whiteside Thomas, “Rydw i wedi bod yn ymgyrchu ers ugain mlynedd i gael cysylltiad beicio o Lanberis i Gaernarfon ac roeddwn i'n rhan o Rwydwaith Beicio Peris tan i hwnnw ddod i ben. Mae Hwb Eryri ynghyd ag unigolion cefnogol wedi bod yn ceisio dwyn pwysau ers tro i gael llwybr beicio, ac mae'n braf gweld golau ym mhen draw'r twnnel o'r diwedd, a'r gobaith ychwanegol am barc beicio i'r ardal.”

CWMYGLO

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys St Mair, Caernarfon, bawn Mawrth, 21 Mawrth. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gweddi. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth rhai o'r aelodau. Cafwyd adroddiad gan Auriel am gyfarfod mis Chwefror a thrafodwyd rhai materion.

Y wraig wadd oedd Mererid Mair a chafwyd pnawn tawel gyda gweddiau, myfyrdodau a cherddoriaeth ganddi.

Diolchwyd i Mererid gan Auriel. Y gwesteion oedd rhai o aelodau cyfarfod gyda'r nos a diolchwyd iddynt gan Marjorie. Enillwyd y raffl gan Mererid. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

Dechreuwyd y cyfarfod a gafwyd bawn Mawrth, Ebrill 17, yn eglwys St Mair gan Auriel gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau a chafwyd adroddiad gan Auriel am y cyfarfod a gafwyd mis Mawrth a chafwyd adroddiad am y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhorthaethwy mis Mawrth. Cafwyd gwasanaeth yn yr eglwys Ebrill 11 (Diwrnod y Merched) gyda aelodau yn cymeryd rhan. Ar 2 Mai bydd aelodau cangen y gadeirlan yn rhoi anerchiad ar caethiwed yn ddiweddar. Ar 12 Mai bydd yr eglwys yn agored rhwng deg a phedwar o'r gloch i dderbyn nwyddau at gyfer y banc bwyd. Ar 16 Mai cyfarfod yn Llanfaelog yn cychwyn am 10.30. Bydd cyfarfod nesaf dydd Llun, 21 Mai, yn Feed my Lambs gyda aelodau cangen gyda'r nos yn gofalu am y lluniaeth. Ar 19 Mehefin Te Prynawn yn Age Concern Bontnewydd. Ar 5 Gorffennaf bydd cyfarfod y ddeoniaeth yn cael ei gynnal yn Eglwys y Groes gyda the Prynawn yn dilyn.

Cafwyd bwrdd gwerthu llwyddiannus gyda Joyce yn gofalu am y lluniaeth. Diolchwyd iddi gan Marjorie. Enillwyd y raffl gan Jean. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

Ysgol Cwm y Glo

Yn ystod y mis, daeth cyfnod yr ysgol yn gweithio ar gynllun creadigol Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru i ben, gyda chyflwyniad ac arddangosfa o waith y disgyblion i'r rhieni a'r llywodraethwyr.

O dan arweiniad Rhian Cadwaladr, gweithiodd y disgyblion ar ddysgu mwy am eu hardal leol drwy straeon, chwedlau a hanes y pentref. Cafwyd cyfleoedd i weithio'n greadigol drwy gelf, drama, technoleg gwybodaeth a cherdd er mwyn cyflwyno ffilm o chwedl Rhita Gawr i bawb.

Roedd yr ysgol llawn bwrlwm wrth i'r plant gael cyfle i rannu eu profiadau gyda'u rhieni, ac i bawb fynegi barn a chynnig eu hymateb i'r gwaith.

Braf oedd cael canmoliaeth uchel i'r gwaith a'r profiadau gan bawb; staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

Diolch yn fawr iawn i bawb gyfrannodd i'r gwaith – Manon Llwyd, Dafydd Whiteside Thomas, Dilwyn Williams, Rhys ab Elwyn – ac wrth gwrs Rhian Cadwaladr. Mae pawb yn edrych ymlaen i'r prosiect nesaf!

Un funud fach...

DEUGAIN NIWRNOD

Cyfnod byr ydi deugain niwrnod. Ond gall wibio heibio fel deugain eiliad, heb roi amser i ni gyflawni nemor ddim. Gall hefyd lusgo fel deugain mlynedd, heb i ni gyflawni pob dim a oedd yn bosibl. Deugain niwrnod yn unig y bu Iesu gyda'i ddisgyblion wedi'r Atgyfodiad; dim mwy na hynny. Ac nid deugain niwrnod llawn chwaith gan mai mynd a dod oedd ei hanes dros y dyddiau hynny: ymddangos iddynt, cyn diflannu o'u golwg yr un mor sydyn. Mae rhai o'r ymweliadau hynny wedi eu cofnodi yn y Testament Newydd, fel yr hanesion am Iesu'n cyfarfod â Mair Magdalen ac yn sgwrsio â dau ddisgybl ar y ffordd i Emaus ac yn cysuro Simon Pedr.

Ond er mor fyr y cyfnod hwn, yr oedd yn ddigon. Yn ddigon hir, i Iesu fedru argyhoeddi'r disgyblion ei fod wedi dod yn ôl yn fyw; yn ddigon iddo gysuro Mair yn ei hiraeth, a goleuo'r ddau ffrind yn eu dryswch, a sicrhau Pedr fod maddeuant hyd yn oed am ei wadu. Ond yn ddigon byr hefyd i Iesu fedru dangos i'w ddisgyblion na fyddai'n aros efo nhw'n barhaol; yn ddigon i'w sicrhau ei fod ar fin eu gadael, a rhoi ar ddeall iddynt i ble oedd yn mynd. Roedd deugain niwrnod yn fwy na digon ar gyfer hyn oll.

Ac ar derfyn y deugain niwrnod, fe'u gadawodd. Ond nid yn yr un modd ag yr oedd wedi eu gadael y troeon eraill yn ystod y deugain niwrnod hynny. Roedd y gadael hwn yn wahanol ac yn derfynol. Yn ystod y deugain mlynedd, roedd Iesu wedi ymddangos a diflannu. Ond ar derfyn y deugain niwrnod daw'r disgyblion i ddeall fod y mynd a'r dod ar ben ac na fyddent yn gweld Iesu wedi hynny gan iddynt ei weld yn cael ei godi oddi ar y ddaear i'r awyr, i'w gipio ymaith gan gwmwl. Ar sail yr hyn a ddywedodd Iesu ei hun wrthynt ac ar sail geiriau'r angylion a welsant wedi i Iesu fynd, deallai'r disgyblion mai i'r nefoedd yr oedd wedi mynd ac y byddai ryw ddydd yn dychwelyd, er nad i gadw cwmni iddynt am ychydig ddyddiau mewn byd o amser ar y ddaear hon y byddai hynny.

Mae llawer i'w ddweud am esgyniad Iesu, y peth unigryw hwn a ddigwyddodd ymhen deugain niwrnod i'w atgyfodiad. Ond am y tro, caiff un peth yn unig fod yn gysur ac yn obaith i mi. Cafodd yr un a addawodd, 'Yr wyf i'n mynd i baratoi lle i chi' (Ioan 14:2) ei dderbyn i'r nefoedd, a dyna sy'n rhoi i ni'r sicrwydd y cawn ninnau ein derbyn i'r nefoedd trwyddo. Ie, cyfnod byr yw deugain niwrnod, ond roedd yn fwy na digon i Iesu roi gwybod i'r disgyblion ac i ninnau fod y nefoedd yn aros ei bobl ef ar derfyn bywyd yn y byd hwn, pa mor fyr neu hir bynnag y bydd ein dyddiau a'n blynyddoedd yma.

JOHN PRITCHARD

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein
hysbysebwr

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Premier

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm



Ysgol Waunfawr

Gweithgareddau'r Urdd dros y Tymor Cynhaliwyd amrywiol weithgareddau dros y tymor megis sesiwn Bingo, sesiwn yn yr Hwylfan yng Nghaernarfon, ymweld â Rownd a Rownd, noson gweithdy gwneud tŷ adar a chyflwyniad am yr Ambiwlsans Awyr.

Eisteddfodau'r Urdd Cafwyd llwyddiant arbennig yn Eisteddfodau'r Urdd yn ystod y tymor.

Llongyfarchiadau mawr i aelodau'r Band am ddod yn gyntaf, Teilio Bl 2/ Osian, Efa ac Elain Bl 6 a'r Côr Cerdd Dant am ddod yn ail yn yr Eisteddfod Gylch.

Daeth Osian, y Band a'r Côr Cerdd Dant yn ail yn yr Eisteddfod Sir ac Elain ac Efa yn drydydd. Dymunwn yn dda i'r Côr Cerdd Dant a fydd yn cael cystadlu yn y Brifwyl ym mis Mai.

Yn yr Eisteddfod Cylch Celf a Chreffft daeth Ena bl 2 yn gyntaf, Martha bl 5 yn ail ac Eric o fl 6 yn drydydd.

Llongyfarchiadau i Ellie o flwyddyn 6 am ddod yn gyntaf gyda'r tîm Dawnsio Disgo yng nghystadlaeth Urdd Rhanbarth Eryri a fydd yn cystadlu yn y Brifwyl ym mis Mai.

Llongyfarchiadau hefyd i Cadi, ei chwaer, am ddod yn drydydd yn y Dawnsio Disgo Unigol.

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 a fydd yn treulio tridiau yng Ngwersyll yr Urdd yng Nglan Llyn, Ebrill y 23ain hyd y 27ain.

Gŵyl Athletau Hoffem longyfarch ymdrechion

tîm Athletau b 6 am ddod yn fuddugol yng Ngŵyl Athletau Ysgolion Arfon ac am ddod yn bedwerydd yng nghystadlaeth Ysgolion Gwynedd. Da iawn chi.

Gala Nofio Cynhaliwyd Gala Nofio Ysgolion Arfon ganol fis Mawrth ac fe hoffem longyfarch y tîm am ddod yn gyntaf. Da iawn chi

Rygbi Llongyfarchiadau hefyd i Gruff Llwyd, Gruff Mei a Mabon o flwyddyn 6, aelodau o dîm rygbi dan 11 Caernarfon a fu ar daith yn Iwerddon dros wyliau'r Pasg gan ennill gemau yn Barnhail a Lansdowne. Ac fe enwebwyd Gruff Llwyd yn chwaraewr y daith. Da iawn chi hogia!!

Noson Rieni TGCh Cynhaliwyd noson Technoleg Gwybodaeth i rieni yn ystod y tymor dan arweiniad Mathew Henshaw o Gwmni Cynnal. Rhoddwyd cyflwyniad ar y defnydd o 'aps' a'r manteision o ddefnyddio Hwb + Cymru. Cafwyd gyflwyniad ar agweddau E ddiogelwch gan PC Dylan Pritchard hefyd er mwyn codi ymwybyddiaeth rhieni o beryglon gwefannau cymdeithasol

Nosweithiau rhieni Cynhaliwyd nosweithiau rhieni yn ystod y tymor a braf yw cael datgan bod bron pob un rhiant wedi mynychu y nosweithiau.

Datblygu Sgiliau Beicio a Sgwtera Cynhaliwyd diwrnod i ddatblygu sgiliau beicio ddechrau'r mis dan arweiniad Gwen o Sustrans. Cafwyd un sesiwn o drwsio beics a sgwters ac ar yr ail ddiwrnod daeth 92 o ddisgyblion a'u beiciau /sgwter i'r ysgol ar gyfer yr

hyfforddiant sgiliau. Byddwn yn cefnogi ymgyrch y Big Pedal drwy feicio a sgwtera i'r ysgol o Ebrill y 26ain hyd Mai y 4ydd.

Cystadleuaeth Ysgrifenydd Ifanc Rydym yn llongyfarch y 35 disgybl o'r Adran Iau sydd wedi llwyddo i gael eu cerddi wedi eu cyhoeddi mewn llyfr Young Writers gyda dros 20.000 o gystadlewyr. Gwych, da iawn chi. Bydd y llyfr ar gael yn fuan.

Prosiect Ysgolion Creadigol Llwyddodd yr ysgol drwy gydweithio gyda Ysgol Bontnewydd i dderbyn Grant Ysgolion Creadigol Arweiniol dros ddwy flynedd er mwyn hybu gweithgareddau drama a cherdd gyda disgyblion i ddatblygu eu sgiliau llafar Saesneg. Bu dau artist, sef Gai Toms a Rhian Cadwaladr, yn cynnal sesiynau bob ddydd Gwener dros y naw wythnos diwethaf. Uchafbwynt y prosiect oedd cael cyfle i weld eu cynrychiadau yn ysgol Bontnewydd yr wythnos ddiwethaf a braf oedd gweld cymaint o rieni yn bresennol.

Diolchiadau

- Carem ddiolch i Marc Sykes a'i staff am drefnu diwrnod hwyl yn y siop ac am gyflwyno rhodd haelionus o £250.00 i'r ysgol.

- Diolch i Anna Williams cyn riant o'r ysgol am gynnal sesiynau garddio gyda disgyblion CA2. Maent wedi bod yn brysur yn chwynnu a pharatoi ar gyfer plannu blodau a llysiau ar gyfer y tymor i ddod.

- Hoffem ddiolch i Mrs Delyth Roberts cyn riant o'r ysgol am

gynnal gweithdy gwneud tŷ adar gyda aelodau'r Urdd yn ddiweddar. Roedd y tai nythod werth eu gweld a phawb wedi mwynhau. Yn unol â dymuniad Delyth cyflwynwyd siec o £50.00 i Apêl Diffib Waunfawr fel tâl am y gweithdy.

- Diolch hefyd i Lowri o'r Urdd am gynnal sesiynau chwaraeon ac athletau gyda'r Adran Iau drwy'r tymor.

Dymuniadau Gorau

- Fel y gwyddoch mae Mrs Sioned Parry wedi bod ar secondiad ers dwy flynedd gyda'r Uned Blynnyddoedd Cynnar a bellach wedi cael cynnig swydd barhaol ac ni fydd yn dychwelyd i'w swydd yma. Rydym yn llongyfarch Mrs Parry, yn diolch iddi am ei gwaith dros y 12 mlynedd a fu yma ac yn dymuno'r gorau iddi i'r dyfodol.

- Rydym yn dymuno'r gorau i Miss Sioned Hughes blwyddyn 1 a 2 a fydd yn yn cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth ddechrau mis Mawrth. Pawb yn edrych ymlaen i weld y babi bach yn fuan.

Digwyddiadau i gadw mewn cof:

Cyhoeddiad pwysig gan y Pwyllgor Rhieni Rydym yn cynnal noson i godi arian tuag at yr ysgol Nos Wener, Mai 18fed, am 7 pm yn Y Ganolfan. Byddwn yn gwerthu nwyddau o Body Shop a chael cyfle i ddod at ein gilydd i sgwrsio ac ymlacio gyda gwydriad (neu ddau) o brosecco!! Er mwyn trefnu'n iawn rydym angen cael syniad faint fydd yn mynychu'r noson. Felly, rydym wedi penderfynu gwerthu tocynnau i'r noson. Pris mynediad fydd £3 gyda gwydriad o prosecco.

POSH PAWS

TACLUSO CWN
 Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
 Gwasanaeth Casglu a Danfon
 Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
 (01248) 671382 • 07935324193
 ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID
 Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
 ar gael bob nos
 rhwng
 7.00pm ac 11.00pm

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
 22 BLWYDDYN O BROFIAD
 Ffôn- 01286 677668
 Symudol- 07940023159
 Gladwyn Station Rd.
 LLANRUG, Caernarfon LL55 4AG
 Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
 Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
 YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS SELSIC CARTRE
 CIGOEDD PAROD I'W BWYTA ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

Dewch i gefnogi ac ymuno yn yr hwyl er mwyn casglu arian i'r ysgol.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth oedd: £30: Mrs Beryl Jones, Dôl y Coed; £20: Mrs Nan Huws Roberts, Madryn, 10 Erw Wen, Caeathro; £10: Mr John Gwynedd Jones, Nant.

Sefydliad y Merched Yn y cyfarfod ar Ebrill Sedd croesawodd y Llywydd, Catherine Jones, Mrs Pat Jones, Brynrefail, ein gwraig wadd am y prynhawn. Dangosodd Pat i ni sut i wneud prydau bwyd blasus yn y 'micro'. Cafodd yr aelodau brofi y prydau yma a'u mwynhau yn fawr iawn. Diolchodd Christine iddi am ei gwaith.

Y mis nesaf, ar 3ydd o Fai, bydd yr aelodau yn cael pryd o fwyd yn Bron Menai, Caernarfon, i ddathlu pen-blwydd y Sefydliad yn 90 oed.

Merched y Wawr Gyda sioc a thristwch y clywsom am farwolaeth annhymig a chwbl annisgwyl un o'n haelodau ffyddlonaf o ddyddiau cynharaf sefydlu'r gangen leol, Marion Iwan. Anodd credu bod un mor llawn hwyl ac asbri, ac mor ifanc ei meddwl a'i hysbryd, wedi mynd oddi wrthym. Roedd yn Gymraes i'r carn a gwnaeth gyfraniad cadarn i'w hiaith a'i diwylliant, ei bro a'i chenedl. Bydd bwlch mawr ar ei hôl. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w phlant, Llion, Elliw a Telor a'u teuluoedd, ac i'w brawd, Cledwyn a'i deulu.

Cynhaliwyd ein cyfarfod mis Mawrth yn y Ganolfan ac yn absenoldeb ein siaradwraig wadd daeth Carole i'r adwy a rydym yn ddiolchgar iawn iddi am roi noson llawn hwyl i'r gangen. Rydym yn ffodus iawn o'r doniau sydd gan ein haelodau. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, Ebrill 26, pryd y bydd Rhian Humphreys o Cyngor am Bopeth yn siarad am ei gwaith. Yng nghyfarfod mis Mai, ar Fai 24, bydd Eluned Yaxley o Dŷ Gobaith yn sôn am gymorth amhrisiadwy yr hosbis i blant a'u teuluoedd.

Yr Urdd Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr Ysgol Gynradd ac Uwchradd fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth a phob dymuniad dai i'r rhai fydd yn cynrychioli Rhanbarth Eryri yn yr

Eisteddfod Genedlaethol, yn unigol neu mewn parti a chôr, yn Llanelwedd ddiwedd mis Mai.

Bydd Huw Emyr, Gwastadfaes a Rachel o Ysgol Brynrefail yn cystadlu ar y Ddeuawd Offerynnol blwyddyn 13 ac iau. Bydd Côr Cerdd Dant Ysgol y Waun yn cystadlu dan 12 oed a bydd Ellie Gossett yn aelod o'r tîm Dawnsio Disgo fydd yn cystadlu dan 12 oed. Bydd Erin Wyn, wyres Rhian Gorffwysfa, yn cystadlu ar y Gân Werin unigol dan 12 oed. Dymunwn y gorau i chi i gyd.

Bu Ena, Bl 2, Martha, Bl 3 ac Eric, Bl3 yn llwyddiannus yn y cystadlaethau Celf a Chreffft yn yr Eisteddfod Cylch. Daliwch ati eto y flwyddyn nesaf.

Chwaraewyr Rygbi Cystadlu mewn gemau rygbi yn Iwerddon fu hanes Gruff Llwyd, Gruff Mei a Mabon. Y tri yn ddisgyblion ym mlwyddyn 6 yr ysgol ac yn aelodau o dim rygbi Caernarfon dan 11 oed. Llongyfarchiadau ichi am chwarae mor dda. Enwebwyd Gruff Llwyd yn Chwaraewr y Daith. Da iawn chi, hogia.

Newid Aelwyd Dymunwn bob hapusrwydd i'r teuluoedd sydd wedi symud i fyw o'r Waun i ardaloedd eraill ac i'r rhai sydd wedi ymgartrefu yma. Croeso i chi a mawr hyderwn y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd. Croeso hefyd i weithwyr yr Antur sydd wedi setlo yma yn eu cartref newydd.

Dymunwn ben-blwydd hapus i Gwion Rhys sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed yn ystod y mis.

Pen-blwydd Arbennig Yn ystod mis Ebrill bu Shaun Brown, 2 Bryn Golau, yn dathlu cyrraedd ei un ar hugain mlwydd oed. Dathlu cyrraedd eu deunaw oed fu Kelly Handy, Pine Cottage, a Max Meadows sydd yn byw yn Groeslon. Llongyfarchiadau i'r tri ohonoch a phob dymuniad da ichi i'r dyfodol.

Ymdeoliad Wedi dros ddeugain mlynedd o wasanaeth i Fenter yr Antur yma yn Waunfawr, mae Heulwen Huws, Argoed, wedi ymddeol. Dymunwn ymdeoliad hapus iti, Heulwen.

Priodas Dymuniadau gorau i Yvonne ac Alan Jones ar eu

priodas yn ystod y mis. Maent wedi cartrefu yma yn y Waun, yn stad Bryn Golau.

Babanod Bach Newydd Daeth Menna ac Elfyn Griffith, Blaen y Nant, Stad Bod Hyfryd, yn nain a thaid i wyres fach newydd. Ganwyd Leia i Ceri ac Arwel, eu mab, chwaer i Lois a Guto.

Merch fach, Nina Siôn, a anwyd i Gwen a Rhodri Siôn, Tŷ Pen, Stad Llys y Waun. Chwaer i Miri a Lara a wyres fach eto i Irene a John, Pant Teg.

Llongyfarchiadau i'r ddau deulu a chroeso mawr i'r ddwy fach.

Ar y Teledu Gwelwyd Mared Rhys a'i thad, Dylan, Eryri Wen, Stad Bod Hyfryd, yn cystadlu ar y rhaglen Celwydd Noeth yn ddiweddar. Dywedodd Dylan ei bod yn dipyn haws meddwl a chwarae'r gêm adref o flaen y teledu ond fe gawson nhw hyd i rai o'r celwyddau cywir a dod adref gyda swm bach o arian, ac wedi mwynhau'r profiad.

Triniaeth Ysbyty Dymunwn wellhad buan i Ken Latham, Haul a Gwynt, wedi iddo gael triniaeth i'w law yn yr ysbyty.

Gorfu i Tina Humphreys, Stad Ael y Bryn, hithau gael triniaeth i'w llaw wedi iddi ddisgyn a thorri asgwrn. Gobeithio y bydd yn gwella yn fuan ac hefyd Kieron, ei mab, wedi iddo gael anaf i'w droed.

Croeso Adref o'r Ysbyty Bu Mrs Gracie Dawson, Fflur Llywela a Garry Jones, y tri o Stad Tref Eilian, a Carys Jones, Ty'n Cae, yn derbyn gofal yn Ysbyty Gwynedd.

Mae Ann Clark, Stad Pant y Waun, yn gwella yn dda wedi iddi gael triniaeth clun yn yr ysbyty ym Mangor, ac mae Emyr Owen, Yr Efail, yn gwella wedi iddo gael triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl. Croeso adref i chi i gyd a daliwch i wella bob dydd.

Anfonwn ein cofion hefyd at Elfed Jones, Bryn Menai, sydd yn derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Birmingham ar hyn o bryd.

Wedi iddo dderbyn gofal yn

Ysbyty Gwynedd a gwella, cafodd Treflyn, Treforfan, ddod adref. Yn sydyn nid oedd yn teimlo'n dda a chymerwyd ef yn ôl i'r ysbyty. Rydym yn meddwl amdanat, Treflyn, ac yn anfon cofion cynnes atoch.

Cydymdeimlad Dwys Yn dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun bu farw Christiana o Hafan Elan, Llanrug, gynt o Stad Bryn Golau, Y Waun. Gwraig annwyl Arnold a mam garedig Bethan a Valerie a'i mab yng nghyfraith, Christian. Roedd yn nain falch i Erin Haf, Georgina, Alaw, Alex Daniel a Sophia ac yn hen nain i Elliot-Shay. Chwaer arbennig i Llywela, Jean, Richard ac Emlyn a chwaer yng nghyfraith Charlie. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi yn eich profedigaeth a'ch hiraeth am un annwyl.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, ac yn dilyn ym mynwent Cymuned Llanrug.

Cydymdeimlo Yn frawychus o sydyn yn ei chartref bu farw Marion Iwan. Mam annwyl Llion a'i gymar Rhiannon, Elliw a'i chymar Cush, a Telor a'i briod Jo. Nain garedig a oedd wedi mopio â'i wyrion Louis, Morgan, Eban a Mabon. Chwaer i Cledwyn a'i wraig, Jean. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â chi a'r teulu a'i ffrindiau i gyd mewn tristwch a galar. Bu'r gwasanaeth cyflwyniad yn Amlogsgfa Bangor a gwasanaeth i ddathlu ei bywyd yng Nghapel y Waun gyda'r Barchedig Nan Wyn yn gwasanaethu a Gwenda Griffith wrth yr organ.

Roedd yr Amlogsgfa a'r capel yn orlawn, tyst i'w chymeriad hoffus. Cyflwynwyd teyrnged iddi gan ei brawd Cledwyn, ei ffrind Rhiain Gwyn, Llion ei mab, ei chwaer yng nghyfraith Margaret Ceredig, cyd-ddisgybl iddi yn Ysgol Bodfeurig, John Ogwen a chôr Cofnod yr oedd yn aelod ffyddlon ohono. Diolch am rannu eich atgofion ohoni gyda ni.

Gwasanaethau Capel y Waun am fis Mai

- 6: Susan Williams, Ceunant
- 13: Dewi Jones, Pwllheli
- 20: Pentecost - Y Parch Harri Parri,
- 27: Aled Job, Y Felinheli



DEFAID DIEFLIG WAUNFAWR

Rydw i 'di cael llond bol clywed ffarmwrs yn cwyno fyth a hefyd fod cŵn yn poenydio eu hanifeiliaid, ac yn mynnu'r hawl i'w saethu'n ddiidrugaredd. Wrth reswm rhaid i berchnogion cŵn fod yn gyfrifol am eu hanifeiliaid ar bob achlysur, ond yn anffodus mae llawer o'n ffermwyr yn hollol ddi-hid a rhagrithiol pan ddaw'n fater o gadw trefn ar eu hanifeiliaid eu hunain.

Yn y Waun, ers degawdau, poenydiwyd y trigolion gan ddefaid ac ŵyn anystywllt, sy'n perchnogi ein gerddi fel llefydd i bori ac yn waeth fyth i adael eu carthion ymhobman. Yn aml gwelir defaid, a'u hŵyn erbyn hyn, yn setlo yn ein cymunedau am ddyddiau, yn mynd fel sipsiwn o ardd i ardd, a dim golwg o'u perchnogion. Be 'di ymateb Ffarmwr Ffowc? Dim sosej!! I'r gwrthwyneb cawn yr argraff mai ein braint ydi croesawu'r defaid gyda breichiau agored i ymlwybro o un gardd i'r llall yn creu dinistr a llanast. Ydy'n nhw'n poeni am flodau drudfawr sy'n cael eu cnoi? Ydy nhw'n cynhyrfu pan fo llyisiau y treuliwyd amser ac egni i'w tyfu yn cael eu lloewio mewn ennyd? Ydy nhw'n hidio o gwbl pan fydd plant, wrth chwara' yn eu gerddi, yn rowlio mewn carthion? Ydy nhw'n trafferthu i gau bylchau yn eu waliau cerrig rhag i'w praidddianc? Mae'r waliau cerrig yma (fu mor hardd yn y dyddiau a fu) bellach yn graith hyll yn ein cymuned ac yn ola gwyrdd perffaith i'r defaid dieflig ddianc.

Wrth gwrs, un ateb rhwydd i'r broblem ydi sicrhau ein bod yn cau ein giatau ond yn anffodus tydi hyn ddim yn yn rhwystro'r giwed yma wrth iddyn nhw lamu dros waliau a llwyni yn eu hawydd i lenwi eu boliau barus.

Tydi erthygl fel hon, wrth reswm, ddim yn mynd i godi cywilydd ar Ffarmwr Ffowc, felly rhaid ceisio ateb tymor hir, a dyma ambell awgrym.

1 Sefydlu Pwyllgor Cymdeithas Atal Defaid Waunfawr (CADW) gyda'r bwriad o gorlannu'r defaid digartref a'u gwerthu er mwyn digolledu'r pentrefwyr, ac i dalu am therapi i'r rhai hynny sy'n dioddef o'r clefyd difrifol, Me-mphomania, pan mae dioddefwr sy'n gweld cymaint o ddefaid yn ei ardd, yn dangos arwyddion o hoffter annaturiol tuag atyn nhw.

2 Arddangos ffermwyr euog yng nghefn trelyr, a'u tywys drwy'r pentref, mewn sachliain a lludw, gan annog y trigolion i'w pledu gyda baw defaid ffres.

3 Anodd iawn ydi adnabod perchennog dafad wrth syllu ar farc annelwig ar ei hochr, a barn Cadw ydi y dylid eu dileu rhag blaen. Ein hymgyrch gyntaf felly ydi sicrhau y bydd pob dafad yn arddangos llun o'i pherchennog (un del os yn bosib) ynghyd â rhif ffôn symudol, fel y gellir riportio'r dihirod rhag blaen.

I'r Gad,
Theresa Me

Marion Iwan - Teyrnged ar ran Llion, Elliw a Telor

Gwasanaeth o ddiolch ydi hwn.

Ar ran mam dwi angen dweud cwpwl o ddiolchiadau yn gyntaf.

I ti Elliw, rwyt yn ddrych o mam a bydd hynna yn gysur mawr dros y blynyddoedd nesaf. Yn ein sgysia roedd hi wrth ei bodd yn sôn amdanat, gyda balchder. Y cinio Dolig bendigedig yna gawsom ni ddwy flynedd yn ôl, a mam yn fy siarsio i adael llongydd i chdi yn y gegin wrth iti goginio.

'Ma hi wrth i bodd 'sdi,' medda hi, wrth i ni setlo o flaen y teledu a'r tân cysurus oedd yn yr ystafell fyw.

And to Cush – thank you on behalf of my mother for being there for Elliw.

Telor – y cyw melyn ola – gwta bythefnos yn ôl roedd hi yn brysur yn ei chartref yn paratoi ar gyfer y penwythnos efo chdi. Roedd hi mor hapus o dy weld, gyda balchder yn dy yrfa a dy deulu. I ti Jo am bopeth wnes ti dros mam a Telor – roedd hi wrth ei bodd yn mynd i'ch gweld. Ac ar ben ei digon eich bod yn aros acw benwythnos y Pasg. Fedra i ddim meddwl am ffarwel mwy teilwng.

Cledwyn – ei brawd mawr – oedd bob tro yno pan roedd angen trwsio peiriant golchi neu osod rhywbeth yn y tŷ. 'Mi ffonia i Cledwyn,' oedd hi bob tro gan mam. Ac i chitha, Jean, am fod yna i Cledwyn.

Morgan a Louis ac Eban a Mabon – dim jest wedi gwirioni arna chi oedd nain, ond wedi mopio yn lân. Mi fydda hi wrth ei bodd yn dweud am eich helyntion diweddaraf chi yng Nghaerdydd ar lwyfan, yn yr ysgol neu y cae chwarae. Eban, dwi cofio fel ddoe hi yn dy ddreifio draw i Sir Fôn i nôl tedi 'meerkat' oedd wedi cael dy sylw. A mynnu mynd â chdi a Mabon i chwilio am ddolffins yn Cei Newydd. A Rhiannon, am fy helpu finna i wenu ac am dy gefn y dyddia dwytha yma.

Diolch hefyd i'n ffrindia ni'n tri, mae pob un ohonoch wedi sefyll yn y bwlch yr wythnos hon.

A ffrindia mam – i ddeud gwir ar gyfer achlysur fel hyn da chi braidd yn niwsans gan fod cymaint ohonoch! Ond diolch yn fawr i chi i gyd am bopeth wnaethoch chi i mam, yn helpu ddatlu a mwynhau bywyd. I'r côr hefyd am yr holl fwynhad a gafodd – er falla nid y dysgu geiria!

A Nan Wyn – ti'n ffrind da yn ogystal â gwasanaethu heddiw mor annwyl a chynnes. Diolch iti am helpu fy angori i a'r teulu dyddia yma.

Beth wnaethom ni ddysgu gan mam? Gwerthoedd oedd wedi gwreiddio yn ddwfn yn nhir ei milltir sgwâr, yn cyfrannu at ddiwylliant a chymdeithas – gan ddeall fod teulu a ffrindiau yn creu cymuned, sydd yn cryfhau cymdeithas a gosod seiliau ar gyfer gwlad. A bod angen sment i gloi hyn i gyd at ei gilydd, ac y gallai cymdeithasu a diwylliant gyflawni hynny.

Pan symudodd i'r Waunfawr aeth ati i helpu sefydlu Ysgol Feithrin, bu'n gweithio ar bwyllgor Eisteddfod y pentref ac yn aelod o Ferched y Wawr. Bu'n rhoi gwersi dawnsio gwerin a cherdd dant, gan wneud cyfraniad cryf i ddiwylliant y pentref – fyddai wedi treiddio i sawl cenhedlaeth.

Nid dim ond byw mewn cymuned oedd mam – ond cymeryd rhan, creu a bod yn rhan. Roedd yn naturiol wedyn i ninna fod eisiau gwneud yr un fath.

Fel gyda unrhyw un fu yn byw mewn pentref fel hwn am bron i hanner can mlynedd, mae yna gyfoeth o straeon i'w hadrodd. Dyma ond un ohonynt.

Unwaith roedd car gw'r ffrind wedi torri i lawr – a llond y bwt o salmon, a na, nid o'r siop. Heb oedi aeth mam yn ei char i'w gasglu o a'r salmon, gan ddangos ffyddlondeb i ffrind a mymryn o ddioreidi hefyd dwi'n ama. Ar ôl gyrfa yn dysgu fe wnaeth ail hyfforddi – gan fynd yn athrawes gynorthwyol yn helpu gyda disgyblion gyda anghenion arbennig. Cafodd bleser mawr gyda'i gyrfa tan ymddeol yr haf diwethaf. Ers hynny cynyddu wnaeth y gwyliau a'r achlysuron cymdeithasol.

I Elliw, Telor a finna, roedd yn fam arbennig. Dim gobaith crynhoi hanner be wnaeth, ond mi agorodd ddrysau i ni.

Mi wna i gofio tra bydda i fyw hi'n eistedd yn yr ystafell gefn dros y gaeaf yn dilyn cwrs Linguaphone ar dapia caset i gael gafael go lew ar yr iaith Groeg. A finna yn dysgu hefyd. Na, nid yr iaith. Ond bod angen gwaith caled, dyfalbarhad a bod yn styfnig ar adeg a sicrhau llwyddiant.

Mi fuom ar sawl gwylia yn teithio ynysodd Groeg a ninna yn ifanc iawn – rycsacs coch, gwyrdd neu glas ganddom – ond yn cario dipyn o ddillad mam, wrth gwrs! Ond y profiad yna o deithio, o orfod canfod a threfnu mewn gwlad dramor mor werthfawr.

Dwi'n teimlo bod gwir gymeriad yn cael ei fesur pan nad yw'r gwynt yn eich wynebu.

Ches i ddim blwyddyn lwyddiannus yn Aberystwyth – a gadael fu raid. Wnaeth mam ddim ceryddu fy niogi, na ffalio fod popeth iawn chwaith. Yn hytrach codi ffôn wnaeth mam a gwneud cais i'r Athro Bedwyr Lewis Jones am gyfweliad. Gyrru fi draw, ac yna dweud yn dawel, 'Mae fynd i chdi rwan.' Wnes i ddim anghofio y wers yna. Ei bod yn cefnogi, ond bod yn rhaid sefyll ar fy nhraed fy hun.

Roedd Elliw am ddweud, 'Diolch am roi ynof chwilfrydedd am bobl, ieithoedd ac am deithio. Biti na chefais dy lygad am steil ond diolch am roi ynof yr awch am hwyl. Kalispera.'

O Afallon i Shangri La oedd enw y llyfr cyntaf i mi gyhoeddi, a fydda fo ddim wedi gweld gola dydd oni bai am anogaeth ac ysbrydoliaeth fy nain a mam – nhw oedd yn bennaf gyfrifol am ei gyhoeddi. Mi gafodd hi bleser mawr pan ddwedais i fis dwythfa fod gen i nofel ar fin ei chyhoeddi. 'Edrach mlaen i'w ddarllen,' medda hi, gan godi gwydr. Mi gafodd gopi i fynd efo hi ar ei thaith olaf. Mae mam wedi gadael Afallon ond bellach wedi cyrraedd ei Shangri la ac yn mwynhau gyda'i ffrindia a'i theulu sydd yno hefyd.

Ac felly ma'r diolch ola heddiw gan Telor, Elliw a finna, i chdi, mam.

Teyrnged i Marion

Sut mae crynhoi nodweddion person mor unigryw a Marion? Person oedd mor llawn bywyd, mor llawn hwyl? Mae'n rhaid i mi gyfaddef mai dyma un o'r pethau anoddaf dwi erioed wedi ei wynebu, cyflwyno teyrnged i Marion - ffrind oedd, ac a fydd yn annwyl iawn i mi. Wrth feddwl amdani mae'n siwr fod gan bob un ohonom oedd yn ei hadnabod atgofion melys, achos roedd ganddi ddawn i godi ysbryd pawb roedd hi'n dod i gysylltiad o hwy. Byddech wastad yn teimlo'n well ar ôl bod yn ei chwmmi.

Mae fy nghyfeillgarwch efo Marion yn mynd yn ôl i ddyddiau coleg. Canol y chwedegau oedd hi a Helen a fi'n methu aros i adael Ysgol y Merched ym Mangor ac anelu am y coleg hyfforddi athrawon yng Nghaerdydd. Yn ystod gweithgareddau croeso'r wythnos gyntaf dyma ddod ar draws merch dalsyth, drawiadol efo gwallt du a llygaid glas disglair. A dyna ddechrau ar gyfeillgarwch a barodd am dros hanner canrif. Roedden ni'n ysu am gael profi cyfro'r degawd mewn dinas fawr, ein pennau'n llawn o Bob Dylan a chaneuon protest - pa well amser i fod yn rebal. Er ein bod yn cael cyfnodau prysur iawn fel darpar athrawon, byddem yn gofalu fod digon a amser ar ôl i 'weithgareddau allgyrsiol'. Roedden ni ar groesffordd rhwng dau fyd a byddai Marion yn cymryd dileit mewn herio'r drefn yn arbennig rhai o'r rheolau fyddai alw'n 'hen ffasiwn', ac anghredadwy heddiw, megis - pawb i fod yn eu stafelloedd erbyn hanner awr wedi deg ac unarddeg ar nos Sadwrn.

'Wel 'da ni ddim yn mynd i gymryd sylw o'r rheol yna nagydan genod', meddai a, gyda Marion yn arwain y gad, daethom yn giamstars ar ddringo n'ol i mewn trwy un o'r ffenestri cefn yn hwyr yn y nos ac yn ystod yr ail flwyddyn, i lawr yn hen wersyll milwrol yr Heath, dringo ffens deg troedfedd o uchder oedd yn amgylchynu'r campws a hynny mwn sgerti oedd yn prin guddio'n penolau. Ac felly roedd hi gan amlaf wrth wneud dryga - Marion yn arwain a ninnau'n dilyn.

Ond am ffrind! Gallech yn ddiethriad ddiybennu ar gefnogaeth Marion pan fyddai pethau'n mynd o chwith. Dros y blynyddoedd dwi, fel sawl un arall mi wn, wedi colli cyfrif ar sawl gwaith y bu iddi ddod i gynnig cymorth pan oeddwn ei wir angen. Roedd ffrindiau'n bwysig ganddi a dangosai ddi-ddordeb mawr yn hynt a helynt bob un ohonynt ac yn mhlant ei ffrindiau. Roedd caredigrwydd yn rhan annatod o'i natur. Mor ffeind y bu efo'i mam, yn rhoi bron pob dydd Sadwrn i fynd a hi allan yma ac acw, a hynny am flynyddoedd. Os byth y byddech eisiau gwybodaeth am atyniadau pell ac agos, doedd ond yn rhaid i chi ofyn i Marion. Roedd wedi bod a'i mam i bron bob un ohonynt.

Ac os oedd ganddi nam - ei diffyg i gadw at amser oedd hwnnw. Dwi ddim yn credu iddi gyrraedd yr un ddarlith ar amser ac os oeddech yn trefnu i'w chyfarfod yn rhywle gallech fentro y byddai o leiaf ugain munud yn hwyr. Roedd yn rhaid gwneud yn siwr eich bod yn cyfarfod mewn caffi neu ofalu fod gennych rhywle i gysgodi rhag y tywydd. Fel hyn y byddai trefniadau criw ohona ni'n cwrdd yn mynd, 'Welwn ni'n gilydd yn fan a'r fan am 6. Fe welwn ni Marion pan gyrhaeddith hi.'

Lle bynnag y byddai Marion, byddai bwrlwm a chwerthin. Roedd ganddi synnwyr digrifwch heb ei ail a byddai wrth ei bodd yn adrodd am droeon trwstan ei hun ac eraill. Roedd yn berson egniol iawn ac

yn medru dal i fynd pan fyddai'r gweddill ohonom ni'n fflagio. Hoffai ddiddanu ei ffrindiau trwy drefnu triapiau ac mi fyddai pob un yn dechrau'n hynod o drefnus ond yn dirywio rhywsut fel yr ai'r dydd yn ei flaen - ac erbyn nos gallai droi'n dipyn o lanast - cofio cyrraedd porthladd Caerdybi o Iwerddon ganol nos a dim tren i Bangor am oriau, a thra'n aros yn y Bwthyn ym Morfa Bychan, colli'r tren n'ol o Fachynlleth a gorfod defnyddio'r gwasanaeth bysus lleol. Gymerodd tua tair awr i ni gyrraedd Porthmadog.

Er cymaint yr hwyl a'r bwrlwm o gwmpas Marion roedd ochr mwy difrifol iddi. Roedd ei rôl fel mam i Llion, Elliw a Telor yn holl bwysig iddi ac roedd hi'n gwirioni ar ei phedwar wyr bach Morgan, Louis, Eban a Mabon. Yn ystod ei gyrfa, bu'n athrawes ymroddgar a chydwybodol a phob unigolyn yn bwysig ganddi. Roedd yn uchel ei pharch gan bawb yn yr amrywiol asiantaethau yr oedd yn ymwneud a hwy.

Yn dilyn ei hymddeoliad, bu dechrau'r flwyddyn yn gyfnod cyffrous i Marion. Roedd wrth ei bodd yn mynd ar wyliau - pawb sy'n ei nabod yn gwybod am ei chariad at Ynys Symi. Eleni cyflwynodd Megan ni i ragoriaethau'r Ynysoedd Dedwydd a threuliodd y dair ohonom wythnos ar ynys Tenerife ym mis Chwefror.

Cawsom amser i'w gofio a Marion yn addunedu bod yn rhaid i ni gael wythnos o 'haul Gaef' bob blwyddyn o hyn ymlaen.

Ond nid felly oedd i fod.

Nos Lun Pasg a'r ddwy ohonom yn cyfarfod yn Galeri ar gyfer sioe cabaret Lowri Ann Richards a Dylan Cernyw. Noson oedd wedi ei threfnu gan Marion. Byddai'n arferiad ganddi daro heibio Galeri i weld be oedd ymlaen ac os byddai rhywbeth yn cymryd ei ffansi byddai'n prynu tocynnau ac yna codi'r ffon, 'Dwi wedi mentro prynu dau docyn. Wyt ti'n rhydd?' Penderfynu cyfarfod awr cyn y sioe ac wrth fagio'r car i le parcio dyma gar gwyn yn parcio wrth f'ochr. Rhyfeddod y byd, Marion wedi cyrraedd ar amser. Cawsom sioe werth chweil - chwerthin a mwynhau awr o adlonoiant pur. Roedd sbring yn ein camau wrth i ni adael i fynd am adra a hithau'n tynnu am unarddeg. Drwy gyd-ddigwyddiad roedd y ddwy ohonom yn newid ein ceir y diwrnod canlynol ac yn chwerthin am ein bod, yn hollol ddiarwybod i'n gilydd, wedi dewis ceir lliw llwyd. 'Welai di nos Wener' meddwn gan ein bod ni, ynghyd â Iona a Mair, yn mynd i dy Elsbeth am swper. Marion dynnodd allan gyntaf a finnau'n dilyn a stopio tu ol iddi wrth geg lôn y maes parcio, Marion yn mynd i'r chwith a finnau i'r dde am y twnel. Dyma hi'n codi llaw a finna fflachio'r golau, fawr o feddwl mai hwn fyddai'r ffarwel olaf.

Roedd Marion yn bersonoliaeth fawr. Bywiodd ei bywyd yn y lôn gyflym a'n gadael yn yr un modd. Diolch am y faint o gael ei hadnabod, am gael rhannu'r lôn a'r lleddf gyda hi ac am yr oriau difyr yn ei chwmmi. Rydan ni wedi cael andros o hwyl dros y blynyddoedd. Fydd bywyd byth r'un fath eto ac anodd fydd llenwi'r gwacter mawr mae'n adael ar ei h'ol - oherwydd 'Hi oedd fy ffrind.'

Rhaiain Gwyn

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"

DIONI
<http://dioni.co.uk>
 tel: 01341 247 200
 ebost: gwion@dioni.co.uk

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
 Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
 • PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
 Snowdonia

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned
Llanrug

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fawrth 2018

Mesurydd Cyflymder

Nodwyd fod mesurydd cyflymder traffig i fod wedi ei osod ond hyd yma nid oedd wedi ei osod. Penderfynwyd dilyn hyn i fyny a Chyngor Gwynedd.

Dyfodol Clybiau Ieuenctid Gwynedd

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd a gofyn am bresenoldeb swyddog o lefel rheolaeth y Gwasanaeth Ieuenctid i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned Y Fynwent.

Adroddwyd fod y bedd oedd angen gwair arno yn parhau yn yr un cyflwr. Nodwyd mai'r penderfyniad oedd dal arni tan y Gwanwyn i sicrhau fod y gwair yn tyfu, cyn ei wneud.

Adroddodd fod y Cadeirydd wedi cyfarfod a defnyddiwr y tir mae'r Cyngor yn bwriadu i'w ddefnyddio fel estyniad i'r fynwent a'i fod wedi gofyn i'r Cyngor sicrhau bod ffens dda yn cael ei chodi i wneud yn saff nad oedd anifeiliaid yn denig. Bydd cyfarfod eto gyda deilydd y tir ymhen ychydig.

Llwybrau cyhoeddus

Adroddwyd nad oedd ymateb wedi dod gan Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd ynglyn a chyflwr llwybr Carreg Fran. Adroddwyd hefyd nad yw'n bosib i gerddwyr ddefnyddio'r llwybr rhwng Plas Gwyn a'r Eglwys oherwydd ei gyflwr. Penderfynwyd cysylltu â'r Swyddog Llwybrau ynglyn ei gyflwr ac i'w atgoffa am lwybr Carreg Fran.

Meysydd chwarae

Adroddwyd fod aelodau Cwm y Glo wedi cyfarfod i drafod yr ymatebion i'r holiaduron a ddsbarthwyd yn ddiweddar i drigolion Cwm y Glo i ddarganfod beth oedd dymuniadau preswylwyr Cwm y Glo i'r cae chwarae ar ôl iddo ddod oddi tan reolaeth Cyngor Cymuned Llanrug. Yn ôl yr ymateb, roedd y mwyafrif yn cyfeirio at fwy o le parcio ac offer chwarae i blant.

Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd

Treth y Cyngor 2018 - 2019

Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo codiad o 4.8% yn y trethi i'r flwyddyn nesaf, sydd yn dod a £3.2 miliwn ychwanegol i mewn. Er y codiad, bydd rhaid i'r Cyngor ddal i wneud toriadau gwerth £2.75 miliwn. Roedd yr arbediad yma wedi ei gynllunio yn barod. Dydi'r rhagolygon ddim yn dda i'r dyfodol, mae'r swyddogion yn parhau efo'r strategaeth arbedion. Maent yn rhagweld y bydd angen arbedion rhwng £8.4m a £13.8m erbyn 2019-20 (swm tebygol yn £12m), ac wedyn rhwng £2.7m £6.4m pellach erbyn 2020-21. (cyfanswm tebygol dros y ddwy flynedd o £15.9m.

I ymateb i hyn bydd angen bod yn hyblyg a chynllunio hyd at £20m o arbedion dros y dair blynedd 2018-19 hyd 2020-21.

Cynllunio

Cais Cynllunio Plas Tirion wedi ei gymeradwyo ar 26ain o Chwefror.

Bysiau

Mae diweddariad i'r amserlenni a deallir fod posiblirwydd o newid ychydig arnynt eto yn y dyfodol, ond does dim arian i wneud unrhyw newidiadau mawr.

Gwasanaeth Ieuenctid

Y cabinet wedi penderfynu ar Opsiwn 4, sef cau y 39 clwb sydd yn rhedeg ar y funud, a chynnig gweithgareddau mewn gwahanol ardaloedd am gyfnod byr dros y flwyddyn. Hefyd bydd un swyddog Ieuenctid wedi ei leoli ym mhob Ysgol Uwchradd.

Gwasanaeth Hamdden

Fel rhan o'r arbedion, mae'r Cyngor wedi creu cwmni newydd i redeg y Canolfannau Hamdden a fydd yn cael ei reoli gan y cyngor. Bydd 7 o gynghorwyr yn gyfarwyddwyr ar y cwmni newydd. Y prif reswm am sefydlu y cwmni ydi fod TAW, yn cael ei drin yn wahanol, a fydd yn golygu arbediad oddeutu hanner miliwn y flwyddyn.

Yn lleol

Y gwaith ar uwchraddio'r llwybr troed rhwng Cwm y Glo a Llanrug wedi cychwyn ers 19 Chwefror.

Mae tipio anghyfreithlon yn dal yn broblem gyda pethau yn cael ei gadael ar lôn gefn heibio Tyddyn Rhyddid. Soffa wedi ei gadael yna yn diweddar. Os oes gan unrhyw un unrhyw wybodaeth am pwy sy'n gwneud hyn dylid gadael i'r Cyngor wybod.

Llifogydd Dol Afon - Wedi cael cadarnhad fod y Cyngor a Chartrefi Cymunedol Gwynedd wedi dod i ddealltwriaeth fel bod y Cyngor yn rhoi cais grant i mewn i Lywodraeth Cymru a fod CCG yn rhoi "match funding". Gobeithir cael ateb am y cais ym mis Mai.

Llifogydd tu ol i Stryd y Llyn, ar brif ffordd drwy Gwm y Glo. Wedi cael cyfarfodydd hefo swyddogion y cyngor ac oherwydd fod dwr wedi mynd i mewn i dai byddant yn creu adroddiad i weld y ffordd orau o ddatrys y broblem.

Llifogydd ffordd heibio Pant Afon - Eto wedi cyfarfod a swyddogion ac maent wedi cytuno i roi peipen i mewn i gael y dwr i redeg yn ôl i'r ffos gerllaw.

Adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd (gwêl isod)

Gobeithir y bydd y Cyngor yn ail wynebu rhannau o Ffordd yr Orsaf ym mis Mehefin.

Mae perchennog y tir dros ffordd i'r hen Garej Hafod wedi derbyn 'Planning Contravention Notice' am ddympio pridd a rwbel ar y tir heb ganiatâd cynllunio.

Mae amserlenni bysiau newydd ar gyfer 82/83 (Caernarfon - Deiniolen a Dinorwig) a 88 (Caernarfon -Llanberis) yn dod i rym 8 Ebrill.

Trosglwyddo caeau Chwarae Cwm y Glo a Dolafon i Gyngor Cymuned Llanrug.

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau fod y mater yn nwylo Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd.

Sylwadau am yr amserlenni bws newydd sy'n dod i rym ar yr 8fed o Ebrill 2018

Penderfynwyd cysylltu a Chyngor Gwynedd a chwmni Arriva gan nodi nad oedd hi'n bosib teithio o Lanberis i Gaernarfon fel y gellir bod yn y gwaith erbyn 9:00 y.b.

Trefniant ar gyfer ail lenwi biniau halen

Adroddwyd y bod hi'n ofynnol i bob cais am lenwi bin halen gael ei dderbyn gan y Clerc a fyddai'n gofyn i Gyngor Gwynedd lenwi'r biniau. Yn anffodus, d'oedd dim cydnabyddiaeth o hyn nac unrhyw gadarnhad fod y biniau wedi'i llenwi yn cael ei dderbyn. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i allu darparu gwybodaeth i breswylwyr. Yn ogystal, mae angen edrych ar eu lleoliadau ac ystyried os ydynt yn y llefydd mwyaf addas ac os oes angen rhoi rhai ychwanegol mewn mannau eraill.

Taliadau i Gynghorwyr Cyngor Cymuned a Thref

Adroddwyd fod rhaid i'r Cyngor dalu ffi o £150 y flwyddyn i bob aelod o 2018/19 a bod angen penderfynu pryd y telir y swm yma ac i ystyried os yw'r Cyngor am dalu ffi ychwanegol i aelodau sydd â chyfrifoldebau ychwanegol..

Penderfynwyd i dalu'r ffi ar ddiwedd y flwyddyn i osgoi problem petai aelod yn gadael y Cyngor a gohirio gwneud penderfyniad am y ffi ychwanegol hyd nes bydd ystyriaeth fanwl wedi ei roi i gyfrifoldebau ychwanegol rhai aelodau.

Ceisiadau a grant

Penderfynwyd talu'r grantiau canlynol:

Llewod Llanrug - £700

Ambiwlans Awyr Cymru - £100

Theatr Bara Caws - £100


Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen a gynhaliwyd ar y 6ed Fawrth 2018

Cofnodion Cyfarfod 16ain Ionawr 2018
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Materion o'r cofnodion

Croesfan Brynrefail – Mae deiseb bellach wedi cychwyn, a bydd y ddeiseb yn cael ei chyflwyno i Adran Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn fuan.

Allt Ddu – Mae'r carafan a'r bws mini wedi ei symyd o'r Allt Ddu. Mae'r carafan wedi cael ei symyd i goedwig ger Waenfawr. Roedd Carafan o flaen Eglwys Llandinorwig wedi bod gyda rhybydd arni. Unwaith daeth y rhybydd i ben, mi symydodd y garafan oddi yno, ond i fan wrth ymyl y lôn yn Tal y Waun. Y cler c i gysylltu a Gwynedd eto i gael rhybydd arall arni.

CCG – Derbyniwyd llythyr gan CCG ynglyn a'r llain o dir a werthwyd i'r Hen Fecws yn Neiniolen, yn esbonio bydd pob tir o hyn ymlaen sy'n cael cais am werthiant yn cael ei hysbysebu ar y farchnad, ac maent wedi penodi asiant werthu iarwain ar hyn. MI fyddent yn dal i fonitro y llain tir yn Ffordd Deiniol i sicrhau fod y telerau gwerthiant yn cael eu cadw. Bin Baw Cŵn – Derbyniwyd llythyr gan Gwynedd fod paratodau ar droed i symyd y bin baw cŵn o tu allan i'r Caban i le fwy addas.

Eglwys Santes Helen – Yn dilyn pwyllgor cynllunio Cyngor Gwynedd yr wythnos ddiwethaf, derbyniwyd cadarnhad fod y cais cynllunio i'r Neuadd Eglwys ac estyniad wedi ei ganiatau, er gwaethaf ymdrechion y cyngor cymuned i wrthwynebu.

Gwasanaeth Bysiau – Mae gwasanaeth teithio bysiau wedi eu cwtoegi yn ofnadwy yn yr ardal. Mae'r Cynghorydd Elfed Williams wedi cychwyn deiseb i geisio gwella y gwasanaeth fysiau yn Neiniolen.

Toiled Cyhoeddus Beran – Yn dilyn cysylltu a perchennog y garej yn Beran ynglyn a defnydd o'r toiledau, mae'r perchennog wedi cysylltu yn datgan fod y toiledau yn cael eu camdrin pan oeddynt ar agor yn gyson. Felly mae croeseo i unrhyw un ddefnyddio y toiledau yno yn rhad ac am ddim, ond bydd angen gofyn am y goriad sydd yn cael ei gadw tu ôl i'r cownter.

Gohebiaeth a materion eraill

Cyfyngiadau Cyflymdra – Daeth gorchymyn gan Cyngor Gwynedd i gyfyngu cyflymdra dros dro i 30 mya ar yr A4244, gyferbyn a garej Beran. Bydd y gorchymyn hyn yn pery oddeutu 6 mis, ond gobeithio cwblhau'r Gwaith o fewn 3 mis.

Clwb Celf Bysedd Bach Prysar – Derbyniwyd llythyr gan ysgrifennydd y clwb yn diolch am gefnogaeth a'n cyfraniad ariannol yn yr Hydref i alluogi y clwb fynd yn ei flaen. Mae'r sesiynnau bellach wedi dod i ben, a gwelwyd gwaith arbennig a greuwyd gan y plant drwy'r sesiynnau. Yn amlwg roedd y plant wedi mwynhau ac wedi dysgu sgiliau newydd, cymdeithasu a chyd greu.

FFordd Beicio o Racca i Beran – Derbyniwyd cadarnhad fod y cynllun yma sydd wedi ei addo ers rhai blynnydoedd bellach wedi cael ei ganiatau. Bydd Gwaith yn dechrau yn fuan ar y cynllun sydd yn cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru drwy Cyngor Gwynedd.

Llythyr cais gan y Cynghorydd Sion Jones – Darllenwyd llythyr gan y cynghorydd gyda cais am £1500 tuag at gôst o £3000 i gael lloches bws ychwanegol ym Methel. Yn y llythyr mae Sion yn nodi ei fod eisioes wedi cael cyfraniad o £1500 gan Gelli Gyffwrdd. Yn dilyn darllen y llythyr rhoddodd y Cadeirydd gyfle i aelodau'r Cyngor drafod y mater. Wedi hir drafodaeth penderfynwyd, fod yn rhaid i'r cyngor ddilyn canllawiau a rheolau sefydlog ac ariannol y Cyngor a Archwilwyr Cyffredinol Cymru. Mae'r Cyngor cymuned gyda Cyllideb pennodol am y flwyddyn gyfredol, fydd yn dod i ben mewn ychydig wythnosau. Yna, mae'r Cyngor wedi trafod dros gyfnod o 3 mis, cyn penderfynnu ar gyllideb am y flwyddyn 2018/2019, ac eisioes o'r gyllideb wedi gyrru angen eu praesept i gyd fynd a'r gyllideb honno. Mae'n hanfodol

ein bod fel cyngor yn cadw at y gyllideb hon, ac nid oes modd gwario dros y gyllideb.

Penderfynwyd Na fuasi posib ariannu y cynllun nawr nac yn y flwyddyn 2018/2019. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor amser priodol lle maent yn trafod cyllideb erbyn y flwyddyn 2019/2020, ac felly awgrymwyd fod y cais yn cae ei ohirio hyd fis Hydref 2018 ar gyfer trafodaeth ym mis Tachwedd fel gyda gweddill y ceisiadau.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Tan y Buarth, Deiniolen – Addasu adeilad allanol ar gyfer creu dau uned gwyliau

Capel Libanus, Clwt y Bont – Newid defnydd capel segur yn lety gwely a brewcwast a dwy uned wyliau hunan gynhaliol ynghyd a chreu mynedfa gerbydol newydd a chyfleusterau parcio.

Bryn Bigil, Gallt y Foel – Estyniad unllawr i ochor annedd

Cae Goronwy, Fachwen – Newid defnydd ysgubor I ddistyllfa ar raddfa fach

Jasmin Cottage, Waun Pentir, - Estyniad llawr cyntaf ar dalcen gogleddol y ty.

11 Bro Rhos – Ail gyflwyniad a diwygiad o fwriad i godi estyniad deulawr ar gefn yr eiddo

Biniau Halen

Cafwyd datganiad o waith a wnaed ar lenwi'r biniau halen yn ngolwg y tywydd gaeafol gan y cler. Esboniodd fod ymateb i'r galw gan Cyngor Gwynedd wedi bod yn arbenig iawn, ac awgrymwyd gyrru llythyr o ddiolch i'r adran am ymateb mor lwyddianus i sicrhau fod pobl y plwyf yn gallu cyraedd eu gwaith yn ddiogel yn ystod y cyfnod. Mae gwaith eto i wneud ar drefniadau y biniau halen, awgrymwyd creu rhestr erbyn diwedd y flwyddyn, a gadael i'r cler ymweld a'r swyddog yn Cibyn ar gyfer trefniadau y flwyddyn nesaf.

Daeth cais ar gyfer bin halen ychwanegol yn Penisarwaun ar y ffordd i fyny i cae chware.

Cysgodfan Bws Rhiwlas

Bellach mae yna drafodeuthau wedi datblygu yn Rhiwlas i geisio cael diffriblydd yno a'i osod yn yr hen ciosg ffôn. Wrth gwrs mae cynllun o'r fath i'w groesawu.

Yn wreiddiol, roeddwn wedi meddwl cael tynnu y ciosg a gosod y cysgodfan bws yno. Mae'r cysgodfan bws wedi ei archebu. Y cler c i gysylltu i drefnu lle yn union i osod y cysgodfan rwan.

O Gwmpas y Bwrdd

Dinorwig – Mae cyfrifon cyfri cyflymdra am gael eu gosod yn Maes Eilian, i weld os oes posib cael rampiau arafu.

Penisarwaun – Cais ar lôn Cae Hywel am ddrych ochor arall i'r lôn Mae gwrych yn uchel ac ddim yn gweld . Posib ei osod wrth ymyl y safle bws.

Mae carafan wedi ei gadael ar y ffordd i goedwig ger Capel Glasgoed sydd angen ei symyd.

Mwd ger y cysgodfan bws. Tybed oes posib cael slabs meu cerrig man neu rhywbeth i wella y safle rhag i rhywyn lithro.

Brynrefail – Angen llau y graffiti oddiar paneli ar y cysgodfan bws.

Cais i symyd y bin baw cŵn o fynedfa Y Caban, a'i leoli ar bolyn ychydig pellach draw.

Rhiwlas – Dŵr yn dal i godi ar yr allt yn Rhiwlas. Mae'r mater angen ei sortio gan ei fod yn mynd ymlaen yn rhy hir, ac nid yw hyn yn dderbynniol. Cler c i gyrru llythyr eto i Cyngor Gwynedd.

Tyllau a stad yr allt yn dilyn i fyny trwy bentref Rhiwlas yn annerbyniol. Rhaid cael sicrwydd fod rhywbeth yn mynd i gael ei wneud i wella.

Recordio i'r deillion – Os oes rhywyn yn ymwybodol o rhywyn fuasai yn elwa o dderbyn newyddion Eco'r Wyddfa a ballu ar dâp, yn cael ei ddarlledu, cysylltwch a Cymdeithas y Deillion Ym Mangor. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, ac yn cyrraedd y cartref drwy'r post. Llanddeiniolen – Rhwng Ty Mawr a Tea Rooms mae pant ar y briffordd lle mae dŵr yn sefyll ac yn beryg iawn i yrrwyr.

AVW Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche **BOSCH Service**

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader **01286 673559**  For everything your car needs.

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mw

www.ffmpegia.com



Ar ben arall i'r lein

Tydi'r Eco 'ma yn cael ei ddarllen ym mhob cornel o'r wlad ma yn tydi – mae'r ateb i'r ymholiad am Alafon wedi bod yn eithriadol, a daeth tipyn mwy o eglurhad am yr ysgoloriaeth a sefydlwyd yn ei enw yn dilyn ei farwolaeth yn 1916. Mae gwybodaeth i law mai punt a chweugain oedd y wobr i'r tri llwyddiannus. Fel y cyfeiriais bod Will Price (Ysgol Penisarwaun) brawd fy mam, wedi dod yn drydydd yn 1933 ac yn 1940 fe gymhwysodd Margaret Rees (Ysgol Deiniolen) ond nawr o Fethesda, i'r un wobr ar un swm oedd ar gael. Da, wrth gwrs, yw dweud bod y ddau wedi cael gyrfaedd llwyddiannus.

Erbyn 1952/3 roedd y wobr yn cael ei chyflwyno am y perfformiad gorau yn yr 11+ ond, erbyn hyn, tystysgrif yn unig oedd ar gael. Daeth y wybodaeth yma drwy law Closs a oedd wedi derbyn manylion a cherdd sy'n ddiddorol dros ben gan Ann William (ysgol Llanrug) Croesoswallt.

Roedd llythyr Enid Jones, Rhuthun, yn rhifyn Ebrill yn diddorol dros ben, mae yn gofyn pwy oedd y ferch bach a adnabyddir fel Enid Alafon. Dyma'r unig oleuni sydd gennyf am hyn, drwy gyfeirio at Cofiant a Gweithiau Alafon gan y Parch R.H. Watkins (1926). Dyma be mae'n ddweud: "Fel y gwyr llawer, gwr di-briod ydoedd, a cheir y rheswm am hynny mewn un neu ddwy o'i ganeuon; bu farw ei ddyweddi cyn dydd y briodas, ac ni roddodd ei serch ar neb mwy. Efallai mai dyma'r lle priodol i grybwyll am ei garedigrwydd mawr tuag at ei berthnasau. Fel hyn y dywedai'r diweddar Barch W.M. Griffith, M.A, y Dyffryn, amdano – yntau yn un o blant y 'Sgoldy: "Daeth i'w ran, a chyflawnodd ei ran yn eithriadol garuaid, i sefyll yn lle tad i'r amddifad bach a adawyd ar ôl ei frawd, a fu farw flynyddoedd yn ôl. Noddodd y weddw hyd ei diwedd hi; wedi hynny bu yn dad a mam i'w amddifad." Efallai fod hyn yn rhoi rhyw ychydig o eglurhad i Enid.

Mae rhai yn tynnu fy nghoes ac yn gofyn 'Pa bryd ti am ddweud rhywbeth am be sy'n digwydd yn y byd 'sgota 'na?' Wel dyma be sydd ar fy meddwl. Mae'n amlwg fod pysgota, fel llawer diddordeb arall, yn disgyn allan o ffafriaeth gyda'r ifanc, syndod braidd pan mae genweirio wedi rhoi imi a llawer arall flynyddoedd o bleser ac, ar adegau, ambell i swper blasus. Rydym wedi bod wrthi yma y ceisio creu mwy o ddi-ddordeb. Pwy sy'n cofio, ddwy flynedd yn ôl, y diwrnod hynod o lwyddiannus a gynhaliwyd yn y Seiont Manor neu Llwyn Brain i roi iddo ei enw gwreiddiol. Roedd yr ymateb tu hwnt i bob disgwyl. Yn anffodus, nid yw wedi bod yn bosib dilyn hyn i fyny gan mai dim ond unwaith yr oedd y cymorth ariannol ar gael i gynnal digwyddiad o'r math. Mae hyn yn syndod pan mae'r awdurdodau i gyd ar y foment yn pregethu bod eisiau trefnu gweithgareddau i'r ifanc. Mae'n amlwg mai ond chwythu a dim gweithredu ydi hyn ar eu rhan i gyd – dim gobaith iddynt roi eu harian ble mae'u cegau.

Ond, tydi popeth ddim ar ben. Er fy syndod cefais alwad gan Gareth Evans o Ysgol Syr Hugh Owen. Mae Gareth wedi bod wrthi yn codi ymwybyddiaeth am bysgota ymysg ei ddisgyblion, ac mae rhyw griw bach brwd iawn yno yn ymafael â'r grefft. Cefais ganddo'r wybodaeth bod sefydliad y Countryside Alliance yn ymafael â'r gwaith o weithio gyda ysgolion i weithredu'r cynllun Pysgota Mewn Ysgolion. Mae pethau yn symud yn gyflym gan fod Charles Jardine, sy'n adnabyddus dros ben yn y byd pysgota, fel arlunydd a hyfforddwr a chlymwr plu, yn ymweld â'r ysgol (17/4) i esbonio a threfnu sefydlu'r gwaith yng Nghaernarfon. 'Rydym fel Cymdeithas yn awyddus dros ben i gydweithio i'r perwyl yma. Beth am Ysgolion Brynrefail a Dyffryn Nantlle? Ond efallai nad oes neb â diddordeb mewn pysgota ar y staff!!

Rhyw chwe blynedd yn ôl, os gallwn gofio cyn belled! fe gafodd y Gymdeithas hawl cynllunio i adeiladu canolfan bysgota ar y maes parcio yn Crawia. Ein bwriad oedd gallu defnyddio'r lle i gynnal a hyfforddi gweithgareddau 'sgota, diddordebau cefn gwlad a



Un siomedigaeth i hyn i gyd yw nad oes dim siw hyd yn hyn wedi dod o'r un o'n cynghorau lleol am rhyw ffynhonnell neu gynnig o gymorth i warchod y gofologfn ym mynwent Bryn Rodyn. Na chwaith dim siw o ysgolion y fro – efallai nad oes un cofnod yn bod erbyn heddiw.

Ar sylwad olaf am Alafon, yn nenfwd Llwyn Iorwg daeth tri darlun i'r golwg – dyma un ohonynt at eich sylw, oes unrhyw un â gwybodaeth am Ruth Williams?

chwaraeon dŵr. Yn anffodus fe ddaeth llygredd Llyn Padarn i roi problemau llif arian i ni ac nid oedd posib gweithredu'r cynllun a daeth yr hawl cynllunio i ben. Wel, un o gerrig sylfaen rhedeg cynllun hyfforddi/gweithgareddau yw cael canolfan i pawb gael cyfarfod a chydweithio. Dwi'n gwir obeithio y cawn, drwy gynllun y Countryside Alliance ail afael yng Nghaernarfon Crawia. Mi fuasai o fudd mawr, nid yn unig i'n pobl ifanc ond i bysgotwyr eraill, dim ots be yw'r oed – wel fel mae 'sgota wedi rhoi pleser a llwyth o hwyl i mi ar hyd fy oes, a gobeithio am flynyddoedd lawer eto ynde!

Mae'n dda dweud fod pysgota Padarn wedi dechrau'n arbennig eleni, y gorau ers blynyddoedd lawer, a'r brithyll mewn cyflwr ardderchog. Mi fydda i wedi rhoi tro arni fy hun i lusgo'r dyfnderoedd am rhyw dorgoch neu ddau, mae'r tywydd yn dechrau cynhesu o leiaf. Ar 17 Ebrill fe stociwyd Dywarchen gyda chyflenwad o frithyll yr enfys a brithyll glas, drwy ein cyflenwr newydd, sef Deorfa Trawsfynydd.


Mae gwaith wedi ei drefnu i orffen ail uwchraddio rhai o byllau y Finiog, gobeithio bydd hyn yn cael ei gario allan ymhen rhyw ddau fis. Yn ogystal rydym yn dal i ddisgwyl cadarnhad pan fydd y gwaith yn dechrau ar ail ddylunio Afon y Bala fel ei bod yn addas i'r torgoch fwrw sil unwaith eto. Cefais rhyw hanner addewid ddechrau'r flwyddyn y buasai'r gwaith yma yn dechrau yn ystod Mai eleni, ond nid yw hyn byth wedi ei gadarnhau, mwy am hyn mis nesaf gobeithio.

'Rydym hefyd yn dal i ddisgwyl penderfyniad o'r cynulliad ar gais Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyflwyno is-ddeddfau pysgota newydd.

Wel dyna ni am y tro.

Huw Price Hughes.

Gŵyl Feicio Eryri yn denu o bob rhan o Brydain



Dros ddau ddiwrnod yn ystod Ebrill cynhaliwyd Gŵyl Feicio yn Llanberis wedi ei threfnu gan Gareth Roberts, Llanrug a'i gwmni Bryniau MTB. Roedd yr achlysur yn cael ei noddi a'i hybu gan L'enfer Cycles (Ceunant), Nant y Mynydd (Rhostryfan), Kingcud (Betws y Coed), Polaris, Wild Trail, HWB Eryri a Vinyl Bear.

Roedd cyrsiau wedi eu paratoi ar gyfer beics lôn, cyclo-cross a beics mynydd. Ar y diwrnod cyntaf cafodd y beicwyr lôn a'r criw cyclo-cross y pleser (!!) o ddringo i fyny drwy'r Fachwen a thros y mynydd i Fethesda cyn dilyn yr AS i Gapel Curig. Dringo wedyn drwy Ddyffrym Mymbyr; i lawr Nant Gwynant am Feddgelert ac yn ôl am y Waunfawr. Yno, roedd y beicwyr cyclo-cross yn dilyn yr hen ffordd dros Gefn Du a Bwlch y Groes am Lanberis. Roedd y beicwyr lôn yn dychwelyd dros y Clegir.

Ar yr ail ddiwrnod roedd pedwar cwrs beicio mynydd i ddewis rhyngddynt; y cyfan yn dringo drwy Fwlch Maesgwm cyn dilyn gwahanol lwybrau yng Nghoedwig Beddgelert a dychwelyd drwy Faesgwm.

Daeth dros gant o feicwyr gwahanol i gymryd rhan yn yr Ŵyl, gyda'i phencadlys yn yr Heights, Llanberis. Er mai unigolion neu gyplau oedd mwyafrif y cystadleuwyr, roedd pedwar teulu yn cymryd rhan yn y beicio mynydd.

Dymuna Gareth ddiolch i bawb – yn enwedig y stiwardiaid a fu'n gwirfoddoli – a wnaeth yr Ŵyl mor llwyddiannus. Y gobaith yw ei chynnal eto y flwyddyn nesaf.



Diwrnod Racedi – AM DDIM!

Ar y deuddegfed o Fai rhwng deg y bore a thri y pnawn yng Nghanolfan Tennis Caernarfon, bydd yn bosib cael blas ar chwarae tenis, tenis bwrdd, golff, criced, badminton a sboncen, a'r cyfan AM DDIM.

Cynhaliwyd Diwrnod Racedi yn y Ganolfan ddechrau Ebrill, ac yr oedd yn hynod boblogaidd, nid yn unig gan y plant ond gan eu rhieni hefyd. Mae'r diwrnod hwn yn agored i deuluoedd hefyd, felly ewch draw i gael cyfle i roi cynnig ar y gwahanol chwaraeon. Pwy a wyr nad dyma'r cam cyntaf tuag at fedal yng Ngemau Cymanwlad y dyfodol?

Gweithgareddau Hanner Tymor

Mae Adran Chwaraeon am Oes Gwynedd wedi trefnu nifer o weithgareddau i ddenu ieuencid i gymryd rhan mewn gwahanol chwaraeon yn ystod gwyliau hanner tymor. Maent yn addas i ieuencid rhwng deuddeg a deunaw oed.

Yda chi ffansi trip i'r Rhyl? Fydd yna ddim eira, ond cewch roi cynnig ar sgio ar olwynion. Y gost fydd £20 (£5 am gost bws).

Beth am weithgaredd awyr-agored o Ganolfan Arete, Llanrug? Ugain punt am ddiwrnod neu £30 am ddau ddiwrnod.

Mae angen llogi a thalu ymlaen llaw. Ffoniwch 01286 677982 neu cysylltwch efo chwaraeonamoes@gwynedd.llyw.cymru

Brwydrau Pel-droed Lleol



Gyda diddordeb Llanberis a Llanrug yng nghystadleuthau'r cwpannau wedi diflannu, mae bellach yn frwydr rhwng y ddau glwb i ddiweddu yn nes at frig y gynghrair na'r llall.

Yn aml iawn clywir rheolwyr timau proffesiynol Uwch Gynghrair Lloegr yn cwyno fod yn rhaid i'w timau chwarae dwy gêm mewn wythnos, a bod eu chwaraewyr 'yn blino'. Byddai'n talu iddynt ystyried y gemau y bu'n rhaid i'r timau lleol eu chwarae yn ystod Ebrill. Chwaraeodd Llanrug chwech gêm mewn pythefnos, a Llanberis yn chwarae pump! Ac yr oedd dwy ddarbi leol yn rhan o'r gemau hynny. Llanrug gafodd yr oruchafiaeth ar dir y Darans yn Llanberis, ond wythnos yn ddiweddarach bu'n rhaid brwydro i gael gêm gyfartal yn Eithin Duon.

Fel roedd yr "Eco" yn cael ei anfon i'r wasg, roedd Llanrug yn drydydd yn y gynghrair a Llanberis yn bedwerydd. Erbyn i'r rhifyn nesaf ymddangos bydd gan y naill neu'r llall yr hawl i alw eu hunain yn dim gorau'r fro am dymor 2017-18.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
 FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

mudiad meithrin
 arbenigwyr y blynyddoedd cynnar Welsh early years specialists

Sgiliau Newydd, Cyfle Newydd

CWRS NEWYDD: Medi 2018 - Awst 2019

Eisiau gweithio gyda plant ifanc?
 Cyfle i ennill cymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn rhad ac am ddim mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymuno yn y cynllun hyfforddi arbennig yma.

Dyddiad cau: 01/06/2018

01970 639 601
 www.meithrin.cymru/lefel3
 www.twitter.com/dipl3gofalplant
 lefel3@meithrin.cymru

Arwngan Gydweth Cymru funded by Welsh Government #MeithrinMiliwn

grid 76
 graphic design

North Wales
SIGNS
 Gogledd Cymru

Uned Unit **A9** Cibyn Ind Estate northwalessigns.com
 grid76.co.uk | 07766956673

RHEDEG MYNYDD



Ar Ras i Ogledd Iwerddon...

Yn ystod Ebrill cynhaliwyd y ras gyntaf ym Mhencampwriaeth Rhedeg Mynydd Prydain, a hynny ym Mynyddoedd Mourne. Teithiodd carfan o'r fro drosodd, ac yn ychwanegol i fwynhau'r rhedeg a'r cymdeithasu, cafwyd llwyddiant hefyd. Roedd 285 o redwyr yn cystadlu ar gwrs naw milltir oedd yn galw am sgiliau darllen map. Ac yr oedd angen y sgil hwnnw gan na welwyd fawr o'r mynyddoedd oherwydd y niwl trwchus.

Daeth Mathew Roberts (Llanberis) yn bedwerydd yn y ras, yn cynrychioli Clwb Calder Valley, ac yr oedd tri rhedwr cyntaf Clwb Rhedwyr Eryri yn y 60 cyntaf, gyda dim ond dau funud yn eu

gwahanu. Roedd hyn yn ddigon i'r tim dynion dros 40 oed ddod yn bedwerydd yn y ras.

Daeth Bronwen Jenkinson (Waunfawr), pencampwraig y llynedd, yn drydedd ferch, ond yn gyntaf dan 23ain oed. Siawns na fydd llwyddiant iddi eto eleni. Gyda Lou Beetlestone (Rhiwlas) a Sarah Harley (Brynrefail) yn cefnogi, tim merched Eryri oedd yn fuddugol.

Bydd ras nesaf y bencampwriaeth yng Nghymru; ras fer yn dringo i gopa Mynydd Tal Mignedd yn nyffryn Nantlle ym mis Mehefin. Ac ar eu tomen eu hunain, gall Rhedwyr Eryri berfformio'n well!

Mwd a glaw yn croesawu'r Gyfres Nos Fawrth....

Prin bod rhywun wedi dygymod a chael awr yn llai yn y gwely nad oedd rasys nos Fawrth wedi ail-gychwyn – yn Llanberis eleni, a hynny yn groes i'r arfer. Cychwyn yn Llwyn Celyn a dilyn y ffordd cyn troi am Faenllwyd a dringo Dinas Ty-du. Plymio'i lawr y llethr a chroesi'r afon Goch cyn dringo i gopa cae oedd yn drybola o fwd, a phawb yn cael trafferth i godi un troed o flaen y llall. Ac yr oedd wedi gwaethygu erbyn i'r olaf o'r naw deg rhedwr gyrraedd y llinell derfyn!

Ond roedd llwyddiannau lleol. Rob Samuel (Llanberis) yn gyntaf mewn amser anhygoel o ddeuddeg munud! Dyfed Thomas (Llanrug) yn gyntaf dros 40 oed; Arwel Lewis (Bethel) yn ail dros 50 oed a Robin Thomas (Llanrug) yn gyntaf dan 18 oed. Y merched lleol hyd yn oed yn well, gyda Bronwen Jenkinson (Waunfawr) yn gyntaf, Sarah Ridgway (Llanberis) yn gyntaf dros 40 oed, Ali Thomas (Llanberis) yn gyntaf dros 50 oed a Maggie Oliver (Dinorwig) yn gyntaf dros 70 oed.

Abergwyngregyn oedd lleoliad ras y nos Fawrth ddilynol, a mentrodd dros gant o redwyr ar hyd y llwybr tua'r rhaeadr, a hynny wedi cawod erchyll o law, eira a chenllysg. Ond oherwydd i'r tywydd glirio (neu efallai oherwydd fod y goedwig wedi ei chlirio) mynnodd y rhedwyr blaen ddringo'n uwch nac oedd raid, gan gyrchu llethrau isaf Llwytmor – a dilynodd pawb arall! Ali

Thomas a Maggie Oliver unwaith eto yn ennill yr adrannau dros 50 oed a dros 70 oed. Daeth Arwel Lewis yn ail dros 50 oed a Phil T. Jones (Waunfawr) yn ail dros 60 oed.

Cynyddodd nifer y rhedwyr ar gyfer Ras y Foel Lus yn Nwygyfylchi y nos Fawrth ddilynol, gyda 132 yn cystadlu. Roedd y ras hefyd yn rhan o Bencampwriaeth Rhedeg Mynydd Gogledd Cymru. Y merched a'r ieuencid oedd yn serenau. Roedd y ddau gyntaf yn y ras o dan ddeunaw oed, a dau arall yn y deg uchaf! Daeth llwyddiant hefyd i ferched y fro, gyda Catrin Donnelly (Dinorwig) yn gyntaf dan 18 oed; Ali Thomas (Llanberis) yn ail dros 50 oed a Maggie Oliver (Dinorwig) yn gyntaf dros 70 oed.

Am y tro cyntaf yn hanes y gyfres cynhaliwyd ras ar y bryn coediog ond serth uwch Ysgol St David's yn Llandudno, ac unwaith eto, yr ieuencid aeth a hi. Callum O'Donnell (Bethel) yn gorffen yn 8fed yn y ras ac yntau'n cystadlu dan 16 oed, a Kieran Forrest (Ceunant), sy'n fwy adnabyddus am ei gampau ym myd dringo, yn gorffen yn 16eg ac yn gyntaf dan 18 oed. Maggie Oliver (Dinorwig) yn parhau a'i rhediad di-golli yn yr adran i ferched dros 70 oed. Am yr ail nos Fawrth yn olynol daeth 130 o redwyr i gystadlu.

Roedd Ras Pen Dinas, Nant Peris yn cael ei chynnal dri diwrnod cyn i'r "Eco" ddod o'r wasg, ond o gysidro pa mor serth yw'r cwrs, rwy'n siwr fod mwyafrif y rhedwyr yn parhau i ddiodeff effaith y dringo caled a'r disgyn cyflym – y rhai a fu'n ddigon dewr i gystadlu!

Aml-gampau yn Harlech

Gyda Triathlon Llanc a Llances y Llechen i ddod yn Llanberis yn fuan, aeth nifer o'r fro i ymarfer yn Harlech ddechrau mis Ebrill. Yno roedd yn bosib cystadlu mewn deuathlon a thriathlon. Tair camp wahanol yw'r triathlon, yn cynnwys nofio, b eicio a rhedeg,

ac yn y brif gystadleuaeth daeth Brian Wills o Lanberis yn ail yn yr adran i ddynion dros 50 oed. Dwy gamp gyda tair rhan yw'r deuathlon, sef rhedeg, beicio a rhedeg eto, a daeth Rhian Thomas o Lanrug yn ail yn adran y merched. Tybed pwy ddaw i'r brig yn Llanberis?

Chwaraeon

Y 'dwbl' ddwywaith i Geltiaid Caernarfon



Mae Clwb Pel-fasged Celtiaid Caernarfon wedi hen sefydlu bellach, gyda sesiynnau ymarfer rheolaidd yn cael eu cynnal yn wythnosol yn y Ganolfan Tennis yng Nghaernarfon. Daw'r aelodau o gylch eang, yn cynnwys Dyffryn Nantlle, bro'r "Eco", Caernarfon, Bangor ac Ynys Môn, felly mae cryn gystadlu am le yn y gwahanol dimau. A rhaid teithio ganol wythnos mor bell a Threffynnon i chwarae rhai gemau. Mae nifer o dimau yn chwarae yng Nghynghrair Gogledd Cymru a Chilgwri, a llawer o fechgyn Ysgol Brynrefail yn aelodau o'r Clwb, yn enwedig y tim dan 14 oed. Eleni, y timau dan 16 oed a dan 18 oed fu'n llwyddiannus.

Roedd y tim dan 16 oed yn fuddugol yn eu cynghrair, gan ennill saith allan o wyth gêm a diweddu'n gyfartal ar frig y tabl gyda'r Wyddgrug. Ond oherwydd fod eu gwahaniaeth pwyntiau yn well, hwy gafodd eu coroni'n bencampwyr. Aled Jones (Bethel) yw hyfforddwr y tim, ac y mae tri o hogia'r fro yn chwarae: Ioan Ifans (Bethel), Iolo Garton Jones (Tan y Coed) a Guto Thomas (Llanrug). Yng Nghwpan Horizon a gynhaliwyd ddiwedd y tymor ym Mangor, daeth y tim dan 16 oed yn fuddugol eto, a chwblhau'r 'dwbl'. Roedd y tim yn fuddugol ym mhob un o'i gemau. Dyma'r canlyniadau: Celts 16-15 Mold Magic; Bromborough Bulldogs 22-26 Celts; Celts 32-13 Celts Ynys Môn. Yn y llun gwelir Arwel gyda Iolo (chwith) a Guto (dde) yng nghystadleuaeth Cwpan Horizon. (Nid oedd Ioan yn bresennol).



Roedd y tim dan 18 oed hefyd yn bencampwyr eu cynghrair, a hefyd yn fuddugol yng Nghwpan Horizon. Dyma'r canlyniadau: Celts 29-19 Conwy Cannons; Bromborough Bulldogs 9-29 Celts; Mold Magic 16-32 Celts; Celts 27-15 Wrexham Warriors. Hwytiau hefyd felly yn cwblhau'r dwbl.

Roedd y tim hyn, dan hyfforddiant Arwel Jones (tad Aled) yn bedwerydd yn eu cynghrair.